



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 12 Mai 2010
Wednesday, 12 May 2010

Cynnwys
Contents

- 3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Questions to the Minister for Business and Budget
- 19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions for the Minister for Heritage
- 36 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission
- 38 Dadl Ceidwadwyr Cymru: Ymgyrch Byw'n Annibynnol NAWR! yng Nghymru
Welsh Conservatives Debate: The Independent Living NOW! Campaign for Wales
- 62 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gwario Arian Cyhoeddus yn Effeithiol
Welsh Liberal Democrats Debate: Efficient Public Spending
- 91 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 97 Dadl Fer a Ohiriwyd ers 10 Mawrth 2010: Yr Hawl i Gartref Boddhaol
Short Debate Postponed from 10 March 2010: The Right to a Decent Home
- 106 Dadl Fer: Yr Angen am Newid Cyfansoddiadol
Short Debate: The Need for Constitutional Reform

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwysir cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn yn y Cynulliad.

The Presiding Officer: Order in the Assembly.

Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer

Y Llywydd: Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, sy'n ein cynrychioli ar fusnes y Cynulliad, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer sesiwn heddiw. Felly, yr wyf yn gwahodd enwebiadau.

The Presiding Officer: In the absence of the Deputy Presiding Officer, who is representing us on Assembly business, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations.

Peter Black: I nominate William Graham.

Peter Black: Yr wyf yn enwebu William Graham.

The Presiding Officer: William Graham has been nominated. Since there are no other nominations, I declare that William Graham has been elected as temporary Deputy Presiding Officer for the day and thank him once again for his assistance.

Y Llywydd: Mae William Graham wedi'i enwebu. Gan nad oes enwebiadau eraill, yr wyf yn datgan bod William Graham wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer heddiw, a diolchaf iddo unwaith yn rhagor am ei gymorth.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget

Budget Priorities

Blaenoriaethau Cyllidebol

Q1 Peter Black: Will the Minister make a statement on her budget priorities? OAQ(3)1070(BB)

C1 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau cyllidebol? OAQ(3)1070(BB)

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): Before I respond to the first question, and following the First Minister's comments this morning, in response to the new Government that has been formed in Westminster, I would like to say that I look forward to constructive working relationships, particularly as far as finance is concerned. I have just heard who has been appointed as Chief Secretary to the Treasury, and I have already written to him. I wanted to say that before responding to Peter's question.

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cyn imi ymateb i'r cwestiwn cyntaf, ac yn dilyn sylwadau'r Prif Weinidog y bore yma, mewn ymateb i'r Llywodraeth newydd sydd wedi'i ffurfio yn San Steffan, hoffwn ddweud fy mod yn edrych ymlaen at gael perthynas weithio adeiladol, yn enwedig o safbwynt cyllid. Yr wyf newydd glywed pwy sydd wedi'i benodi'n Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac yr wyf eisoes wedi ysgrifennu ato. Yr oeddwn am ddweud hynny cyn ymateb i gwestiwn Peter.

Our spending plans for 2010-11 were set out in the budget that was approved by the Assembly in December. We continue to deliver our 'One Wales' agenda. We remain

Cafodd ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2010-11 eu gosod allan yn y gyllideb a gafodd ei chymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Yr ydym yn parhau i wireddu

committed to public services that make a real difference to people's lives.

Peter Black: We know that the further education sector remains concerned by the amount of money that it has been allocated this year, which it says is much less than the increase that you have previously claimed, particularly because comparing this year and last year is not comparing like with like. What discussions have you had with the Minister for Children, Education and Lifelong Learning and the further education sector about this issue and—given the importance of skills and education to the future of the economy—are you considering putting additional finance into this important sector?

Jane Hutt: We have not only put additional funding into this sector but there is also a £15 million increase in the children, education, lifelong learning and skills revenue budget for 2010-11 and an additional £20 million will be invested to support skills-based responses to tackle youth unemployment. Furthermore, I put in further funding, on the request of the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, to ensure that we can meet the needs of further education. The budget allocation for further and higher education is on a par with what it was for 2009-10.

Chris Franks: Minister, we have heard that you have written to the new Government but can you tell me whether you have a meeting arranged with Conservative and Lib Dem Ministers regarding the impact of the UK Government's spending cuts on the Welsh budget? How hopeful are you that there will be movement on the recommendations of the Holtham commission and reform of the outdated funding formula for Wales? It is generally acknowledged that we are being short-changed to the tune of £300 million a year for our public services. Do you regret that the last UK Government failed to resolve this vital issue, which could substantially protect our health service, schools and police forces?

ein hagenda 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn dal wedi ymrwymo i wasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Peter Black: Gwyddom fod y sector addysg bellach yn dal i bryderu ynghylch yr arian sydd wedi'i ddyrannu iddo eleni, sydd, yn ôl y sector, lawer yn llai na'r cynnydd yr ydych wedi ei honni cyn hyn, yn enwedig gan nad yw cymharu eleni â'r llynedd yn cymharu tebyg â thebyg. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r sector addysg bellach am y mater hwn, ac—o gofio pwysigrwydd sgiliau ac addysg i ddyfodol yr economi—a ydych yn ystyried rhoi rhagor o arian i'r sector pwysig hwn?

Jane Hutt: Nid yn unig yr ydym wedi rhoi cyllid ychwanegol i mewn i'r sector hwn, ond mae yna hefyd gynnydd o £15 miliwn yn y gyllideb refeniw ar gyfer plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn 2010-11, a bydd £20 miliwn yn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi i gefnogi ymatebion yn seiliedig ar sgiliau i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc. Yn ogystal â hynny, cyflwynais ragor o gyllid, ar gais y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, i sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion addysg bellach. Mae'r gyllideb a ddyrennir i addysg bellach ac addysg uwch yn gyfwerth â'r hyn a ddyrannwyd yn 2009-10.

Chris Franks: Weinidog, yr ydym wedi clywed eich bod wedi ysgrifennu at y Llywodraeth newydd, ond a allwch ddweud wrthyf a ydych wedi trefnu cyfarfod â Gweinidogion o'r Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch yr effaith a gaiff toriadau gwariant Llywodraeth y DU ar gyllideb Cymru? Pa mor obeithiol yr ydych y bydd rhywbeth yn digwydd ynghylch argymhellion comisiwn Holtham a diwygio'r fformiwla gyllido i Gymru, sy'n perthyn i'r oes o'r blaen? Cydnabyddir yn gyffredinol ein bod yn cael £300 miliwn y flwyddyn yn llai nag a ddylem ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus. A ydych yn gresynu bod Llywodraeth ddiwethaf y DU wedi methu â datrys y mater hollbwysig hwn, a allai ddiogelu ein gwasanaeth iechyd, ein

hysgolion a'n heddluoedd yn sylweddol?

Jane Hutt: I have already said that I have taken the opportunity to write to the new Chief Secretary to the Treasury to ask for an early meeting with him. It is vital that we continue with discussions about implementing the recommendations of the Holtham commission. However, it is clear that we would have concerns about the recovery being put at risk—as I am sure will emerge quickly—by a budget in July, within 50 days, that I fear will demonstrate a u-turn by the Liberal Democrats, implementing a slash and burn budget in this financial year, given that the Assembly has already agreed the 2010-11 budget.

Nick Ramsay: Minister, I am sure that you are aware that a missing piece of the pre-budget report issued by the previous Chancellor of the Exchequer, Alistair Darling, was a comprehensive spending review. It is clearly important at this time, given the strain on funding and the economic situation, that there is a review of spending at a UK level and at the Assembly. Would you agree to have an independent review of public spending in relation to what the Assembly Government spends?

Jane Hutt: The Holtham commission's recommendations, on ensuring that we are not disadvantaged by the Barnett formula, were supported across the Chamber. It was an independent commission, which has served us well so far. We now have to make sure that the new Government in Westminster delivers on those recommendations, to make sure that Wales is not short-changed.

Nick Ramsay: Minister, we all accepted the findings of the Holtham commission, and agree that it was a very important plank in looking at funding in Wales. However, I was asking you specifically about the budget. You are the Minister with responsibility for the budget, and I am asking you to look into having an independent review of the budget. That has happened in Scotland, where a cross-party commission was set up, and it was seen as very successful. Would you please give an undertaking that you will look

Jane Hutt: Yr wyf eisoes wedi dweud fy mod wedi cymryd y cyfle i ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd newydd y Trysorlys i ofyn am gyfarfod cynnar ag ef. Mae'n hollbwysig inni barhau'r trafodaethau ar weithredu argymhellion comisiwn Holtham. Fodd bynnag, mae'n amlwg y byddem yn pryderu am beryglu'r adferiad—fel yr wyf yn siŵr y gwelir yn fuan—gan gyllideb ym mis Gorffennaf, cyn pen 50 niwrnod, a fydd, yr wyf yn ofni, yn gweld y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud tro pedol, gan weithredu cyllideb o doriadau yn y flwyddyn ariannol hon, o gofio bod y Cynulliad eisoes wedi cytuno'r gyllideb ar gyfer 2010-11.

Nick Ramsay: Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol mai un darn a oedd ar goll yn yr adroddiad a gyhoeddwyd cyn y gyllideb gan gyn-Ganghellor y Trysorlys, Alistair Darling, oedd adolygiad cynhwysfawr o wariant. O gofio'r straen ar gyllid a'r sefyllfa economaidd, mae'n amlwg yn bwysig yn awr gwneud adolygiad o wariant ar lefel y DU ac ar lefel y Cynulliad. A fydddech yn cytuno i gael adolygiad annibynnol o wariant cyhoeddus mewn cysylltiad â'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario?

Jane Hutt: Cafwyd cefnogaeth ar draws y Siambr i argymhellion comisiwn Holtham ar sicrhau nad ydym yn cael cam dan fformiwla Barnett. Yr oedd yn gomisiwn annibynnol, sydd wedi ein gwasanaethu'n dda hyd yn hyn. Yn awr, rhaid inni sicrhau bod y Llywodraeth newydd yn San Steffan yn gweithredu'r argymhellion hynny, i sicrhau nad yw Cymru ar ei cholled.

Nick Ramsay: Weinidog, yr oedd pob un ohonom wedi derbyn darganfyddiadau comisiwn Holtham, ac yn cytuno ei fod yn elfen bwysig iawn wrth edrych ar gyllid yng Nghymru. Fodd bynnag, yr oeddwn yn gofyn ichi'n benodol ynglŷn â'r gyllideb. Chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, ac yr wyf yn gofyn ichi ystyried cael adolygiad annibynnol o'r gyllideb. Mae hynny wedi digwydd yn yr Alban, lle sefydlwyd comisiwn trawsbleidiol, a gwelwyd ei fod yn llwyddiannus iawn. A wnewch chi addo y

seriously at establishing an independent review of the allocations in the budget—that is, not the funding, but the budget itself?

Jane Hutt: I am surprised by this question, because the Assembly supported the budget for 2010-11 in December of last year. We have a robust Finance Committee, which is chaired by your colleague Angela. It was introduced as a result of the Government of Wales Act 2006, and it ensures that the Assembly has the opportunity to scrutinise the budget. We have an open and transparent scrutiny process, which is an opportunity to ensure that we have the right budget. There are opportunities for scrutiny in committees, and through liaising with external organisations and our key partners in local government, the NHS and in business, all of which can play a part in scrutinising our budget and our budget-making process.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1068(BB), yn ôl.

Dyranriad Cyllid

C3 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyranriad cyllid cyffredinol ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes? OAQ(3)1067(BB)

Jane Hutt: Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad ar y gyllideb eleni. Yr oedd hon yn darparu £2.051 biliwn ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes.

David Lloyd: Pa ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi sefydliadau elusennol a gwirfoddol, fel Info-Nation yn Abertawe, sy'n darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc Abertawe am gyffuriau?

Jane Hutt: I am aware of the important work that organisations such as Info-Nation do for children and young people, particularly in Swansea. We have a collective interest in ensuring that the needs of children and young people are met adequately. I am not clear what the funding sources are for that organisation. The funding for that project is the responsibility of the City and County of Swansea council, and I am sure that the Assembly Government could provide support

byddwch yn ystyried o ddifrif sefydlu adolygiad annibynnol o'r dyraniadau yn y gyllideb—hynny yw, nid y cyllid, ond y gyllideb ei hun?

Jane Hutt: Yr wyf yn synnu at y cwestiwn hwn, oherwydd yr oedd y Cynulliad wedi cefnogi'r gyllideb ar gyfer 2010-11 ym mis Rhagfyr y llynedd. Mae gennym Bwyllgor Cyllid cadarn, a gaiff ei gadeirio gan eich cydweithiwr, Angela. Cafodd ei gyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n sicrhau bod gan y Cynulliad gyfle i graffu ar y gyllideb. Mae gennym broses graffu agored a thryloyw, sy'n gyfle i sicrhau bod gennym y gyllideb gywir. Mae cyfleoedd i graffu mewn pwyllgorau, a thrwy drafod gyda sefydliadau allanol a'n partneriaid allweddol mewn llywodraeth leol, y GIG ac mewn busnes y mae pob un ohonynt yn gallu gwneud eu rhan wrth graffu ar ein cyllideb a'n proses o greu cyllideb.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(3)1068(BB), has been withdrawn.

Funding Allocation

Q3 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the overall funding allocation to the children, education and lifelong learning portfolio? OAQ(3)1067(BB)

Jane Hutt: The 2010-11 budget was agreed by the Assembly Government this year. This provided £2.051 billion for the children, education and lifelong learning portfolio.

David Lloyd: What funding sources are available to support voluntary and charitable organisations, such as Info-Nation in Swansea, which provides drugs education and training for the young people of Swansea?

Jane Hutt: Yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith pwysig y mae sefydliadau megis Info-Nation yn ei wneud ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig yn Abertawe. Mae gennym i gyd diddordeb i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu'n ddigonol. Nid wyf yn sicr beth yw'r ffynonellau cyllid ar gyfer y sefydliad hwnnw. Cyngor Dinas a Sir Abertawe sy'n gyfrifol am gyllido'r prosiect hwnnw, ac yr wyf yn siŵr y gallai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu cymorth

through various streams, such as Cymorth.

trwy wahanol ffrydiau, megis Cymorth.

Paul Davies: Minister, I would like to take this opportunity to look closely at funding for learners with special educational needs. I am aware of the additional funding that has been made available recently, and, while I commend that, there are many providers, including a special needs school in my constituency, that still face financial pressures. I am sure that you would agree that it is essential that providers such as these receive sufficient funding to provide the best education, which vulnerable learners deserve. I raised this issue with the First Minister last week, but unfortunately it was not addressed at that time. Will the Minister commit to looking at the issue of funding for learners with special educational needs, to ensure that sufficient funding is made available to our most vulnerable learners?

Paul Davies: Weinidog, hoffwn gymryd y cyfle hwn i edrych yn ofalus ar gyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Gwn am y cyllid ychwanegol sydd wedi dod ar gael yn ddiweddar, ac er fy mod yn cymeradwyo hynny mae nifer o ddarparwyr, gan gynnwys ysgol anghenion arbennig yn fy etholaeth i, sy'n dal i wynebu pwysau ariannol. Yr wyf yn siŵr y cytunech ei bod yn hollbwysig i ddarparwyr fel y rhain gael digon o gyllid i ddarparu'r addysg orau y mae dysgwyr sy'n agored i niwed yn ei haeddu. Codais y mater hwn gyda'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, ond yn anffodus ni chafodd y mater sylw bryd hynny. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i edrych ar gyllid ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, er mwyn sicrhau bod digon o gyllid ar gael i'n dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed?

1.40 p.m.

Jane Hutt: It would be helpful to be told the specific issues on the particular school in your constituency that you mention. You are also aware that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning made an additional allocation to post-16 learning for special educational needs. It is also clear, by way of the education review that has been undertaken, that every aspect of funding is being considered to ensure that we are making the best use of resources, but particularly in looking at those who have additional learning needs and who need those needs to be recognised.

Jane Hutt: Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod beth yw'r problemau penodol yn yr ysgol benodol y soniwyd amdani yn eich etholaeth. Gwyddoch hefyd fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi rhoi dyraniad ychwanegol i ddysgu ôl-16 ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae hefyd yn glir, trwy'r adolygiad addysg sydd wedi'i wneud, fod pob agwedd ar gyllid yn cael ei hystyried er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau, ond yn enwedig wrth ystyried pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd ag angen i'r anghenion hynny gael eu cydnabod.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): It is beginning to emerge that one priority of the new Government in Westminster will be funding for disadvantaged children in order to begin to address the gap that has grown over the last 13 years in terms of the educational attainment of our poorest students. Should that policy be progressed and should we enjoy Barnett consequentials from that, will you ensure that Welsh children will have the advantage of that additional funding?

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Mae'n dechrau dod yn amlwg mai un o flaenoriaethau'r Llywodraeth newydd yn San Steffan fydd darparu cyllid i blant difreintiedig, er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r bwlch sydd wedi tyfu yn ystod y 13 blynedd diwethaf o ran cyrhaeddiad addysgol ein myfyrwyr tlotaf. Os caiff y polisi hwnnw ei ddatblygu, ac os cawn symiau canlyniadol Barnett o ganlyniad i hynny, a wnewch chi sicrhau y bydd plant yng Nghymru yn cael budd o'r cyllid ychwanegol hwnnw?

Jane Hutt: Certainly, I would hope and

Jane Hutt: Yn sicr, byddwn yn gobeithio ac

expect that the influence from your side of the Chamber will be considerable in ensuring that we are not disadvantaged by any changes in allocations to areas of policy where there should be consequentials. That has not always been the case in consequentials. I am sure that your colleagues in the rest of the UK will be pleased to benefit from the examples that we have established, such as the £20 million to support the flagship foundation phase programme, which they are not driving forward across the border in the same way. So, I would certainly hope that you will ensure, as I will when I meet the Chief Secretary to the Treasury, that we get every £1 of benefit from the consequentials, particularly when that money can support children and young people.

Kirsty Williams: I am glad that you acknowledge that, over the last 13 years, the consequentials that we could have expected in the Assembly were not always delivered by your colleagues in the Labour Government. I will ask you again: if consequentials arise from the introduction of a pupil premium policy in England, will you use those consequentials to bolster the budget of the Minister for Children, Education and Lifelong Learning?

Jane Hutt: As far as I am concerned, and as you well know, it is up to the Welsh Assembly Government, according to its priorities, to decide how we use and target any consequentials that would come to us in terms of education. As you know, we are committed in Wales not only to the flagship foundation phase programme, but also to investment in the Welsh baccalaureate, which I am sure that you would support, and in the Welsh-medium education strategy and the youth strategy. We are also committed to ensuring that the extra £20 million invested in skills-based resources to tackle unemployment among young people is enhanced. Those are our policies, made in Wales in the Chamber and backed by the Welsh Assembly Government, and that is how we will deliver on any consequentials for education.

yn disgwyl y bydd eich ochr chi o'r Siambr yn cael cryn ddylanwad ar sicrhau nad ydym yn cael cam oherwydd unrhyw newidiadau mewn dyraniadau i feysydd polisi lle dylid cael symiau canlyniadol. Nid yw hynny wedi bod yn wir bob amser gyda symiau canlyniadol. Yr wyf yn siŵr y bydd eich cydweithwyr yng ngweddill y DU yn falch cael elwa o'r enghreifftiau yr ydym wedi'u sefydlu, megis yr £20 miliwn i gefnogi rhaglen flaenllaw y cyfnod sylfaen, nad ydynt yn cael eu datblygu yn yr un modd yr ochr draw i'r ffin. Felly, byddwn yn sicr yn gobeithio y byddwch chi, fel finnau pan fyddaf yn cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn sicrhau ein bod yn cael pob £1 o fudd o'r symiau canlyniadol, yn enwedig pan all yr arian hwnnw gefnogi plant a phobl ifanc.

Kirsty Williams: Yr wyf yn falch eich bod yn cydnabod nad oedd eich cydweithwyr yn y Llywodraeth Lafur bob amser wedi sicrhau'r symiau canlyniadol y gallem fod wedi disgwyl eu cael yn y Cynulliad yn ystod y 13 blynedd diwethaf. Gofynnaf ichi unwaith eto: os bydd symiau canlyniadol yn codi o gyflwyno polisi premiwm disgyblion yn Lloegr, a wnewch chi ddefnyddio'r symiau canlyniadol hynny i gryfhau cyllideb y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes?

Jane Hutt: O'm rhan i, fel y gwyddoch yn iawn, cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw penderfynu, yn ôl ei blaenoriaethau, sut yr ydym yn defnyddio ac yn targedu unrhyw symiau canlyniadol a ddaw inni o safbwynt addysg. Fel y gwyddoch, yr ydym wedi ymrwymo yng Nghymru nid yn unig i raglen flaenllaw'r cyfnod sylfaen, ond hefyd i fuddsoddi ym Magloriaeth Cymru, rhywbeth yr wyf yn siŵr y byddech yn ei gefnogi, ac yn y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r strategaeth ieuentid. Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr £20 miliwn ychwanegol a gaiff ei fuddsoddi mewn adnoddau sy'n seiliedig ar sgiliau i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yn cael ei chwyddo. Dyna yw ein polisiau, a wnaed yng Nghymru yn y Siambr hon ac a gefnogwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, a dyna sut y byddwn yn gweithredu ar unrhyw symiau canlyniadol ar gyfer addysg.

Fairer Funding

Q4 Bethan Jenkins: What recent discussions has the Minister had regarding fairer funding for Wales? OAQ(3)1047(BB)

Jane Hutt: The Holtham commission has shown that the Barnett formula should be replaced with a new needs-based formula to ensure fairer funding. I will be pressing this case with Treasury Ministers.

Bethan Jenkins: I welcome the fact that you are pressing this case with Treasury Ministers. This matter is more urgent than ever now that we know that we face in-year cuts of £6 billion from the new UK Government. Do you not agree with Kirsty Williams, the leader of the Welsh Liberal Democrats, who previously stated that any cuts to the Welsh budget this year would be disastrous for the Welsh economy?

Jane Hutt: I certainly do. I mentioned the apparent u-turn earlier this afternoon. Vince Cable gave a clear commitment to supporting former Chancellor, Alistair Darling's line to ensure that we do not risk upsetting the fragile recovery in our economy and that we do not attack and undermine our public services, as a budget for the financial year of 2010-11 undoubtedly would.

Darren Millar: You may not agree that we need to deal with the £6 billion in waste that taxpayers have to fund each year, but we do. Returning to the subject of the Barnett formula, one of the drawbacks of the current funding formula for Wales is its inability to incentivise wealth creation in Wales, because the block grant comes to us regardless of the health of the Welsh economy. Do you agree that any successor to the Barnett formula should include some sort of variable that allows economic success or failure to be recognised?

Jane Hutt: It was clear from the findings of

Cyllido'n Decach

C4 Bethan Jenkins: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar ar gyllido Cymru'n decach? OAQ(3)1047(BB)

Jane Hutt: Mae comisiwn Holtham wedi dangos y dylid defnyddio fformiwla newydd yn seiliedig ar anghenion yn lle fformiwla Barnett i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyllido'n decach. Byddaf yn gwthio'r achos hwn gyda Gweinidogion y Trysorlys.

Bethan Jenkins: Croesawaf y ffaith eich bod yn gwthio'r achos hwn gyda Gweinidogion y Trysorlys. Mae'r mater hwn yn bwysicach nag erioed a ninnau'n gwybod yn awr ein bod yn wynebu toriadau o £6 biliwn yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth newydd y DU. Onid ydych yn cytuno â Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a ddywedodd gynt y byddai unrhyw doriadau yng nghyllideb Cymru eleni yn drychinebus i economi Cymru?

Jane Hutt: Yr wyf yn sicr yn cytuno â hynny. Soniais yn gynharach y prynhawn yma am y tro pedol sydd fel pe bai wedi digwydd. Rhoddodd Vince Cable ymrwymiad clir i gefnogi safbwynt y cyn-Ganghellor, Alistair Darling, i sicrhau nad ydym yn peryglu gwneud llanast o'r adferiad bregus yn ein heconomi, ac na fyddwn yn ymosod ar ein gwasanaethau cyhoeddus nac yn eu tanseilio, fel y byddai cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 yn siŵr o wneud.

Darren Millar: Efallai nad ydych chi'n cytuno bod angen inni ymdrin â'r £6 biliwn o wastraff y mae trethdalwyr yn gorfod ei gyllido bob blwyddyn, ond yr ydym ni'n cytuno â hynny. I ddychwelyd at fformiwla Barnett, un o anfanteision y fformiwla gyllido bresennol i Gymru yw ei bod yn methu ysgogi creu cyfoeth yng Nghymru, oherwydd bod y grant bloc yn dod atom waeth beth yw sefyllfa'r economi yng Nghymru. A ydych yn cytuno y dylai unrhyw fformiwla a ddaw yn lle fformiwla Barnett gynnwys rhyw fath o elfen newidiol sy'n caniatáu cydnabod llwyddiant neu fethiant economaidd?

Jane Hutt: Yr oedd yn amlwg o

the Holtham commission that we need the introduction of a needs-based formula. I was interested to return to look at the various manifestos, and I was pleased to see that the Liberal Democrats stated in their manifesto that they would replace the current Barnett formula for allocating funding to the Scottish, Welsh and Northern Irish Governments with a new needs-based formula. That is what we would expect now from the new Government in Westminster.

Future Budgetary Plans

Q5 Andrew R.T. Davies: What major factors will the Minister be considering when drawing up future budgetary plans? OAQ(3)1063(BB)

Jane Hutt: The scale and impacts of the challenge that we are facing will become clearer over the coming months. We need to look for innovative solutions to deliver our priorities and to minimise the impact on public services.

Andrew R.T. Davies: I am sorry that your party could not turn up for questions today to support you, but I see that the nationalists are here giving you support in the Chamber. What action is your Government taking to ensure value for the Welsh budget, which is best achieved through efficiencies? We had evidence during the last budgetary process from Paul Davies, speaking on behalf of the All Wales Directors of NHS Finance, that £1.2 billion-worth of expenditure within the NHS is not achieving best value. I refer to the comments of my colleague, Nick Ramsay, who asked a legitimate question. Given the situation that we face, is it not incumbent on the Government to ensure that best value is achieved from the block grant? In light of the evidence received during the last budgetary process, what assurances can you give that your Government is achieving best value for the Welsh pound?

Jane Hutt: I look forward to the opposition debate this afternoon on this subject. Notwithstanding a decade of significant

ddarganfyddiadau comisiwn Holtham fod angen inni gyflwyno fformiwla'n seiliedig ar anghenion. Yr oedd yn ddiddorol mynd yn ôl i edrych ar y gwahanol fanifestos, ac yr oeddwn yn falch gweld bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi nodi yn eu maniffesto y byddent yn cyflwyno fformiwla newydd yn seiliedig ar anghenion, yn lle'r fformiwla Barnett bresennol ar gyfer dyrannu cyllid i Lywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Dyna y byddem yn ei ddisgwyl yn awr gan y Llywodraeth newydd yn San Steffan.

Cynlluniau Cyllidebol i'r Dyfodol

C5 Andrew R.T. Davies: Pa ffactorau pwysig y bydd y Gweinidog yn eu hystyried wrth lunio cynlluniau cyllidebol i'r dyfodol? OAQ(3)1063(BB)

Jane Hutt: Bydd maint ac effeithiau'r her sy'n ein hwynebu yn dod yn amlycach yn ystod y misoedd nesaf. Mae angen inni chwilio am atebion arloesol i weithredu ein blaenoriaethau ac i leihau'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus.

Andrew R.T. Davies: Mae'n flin gennyf nad oedd eich plaid yn gallu bod yn bresennol i'ch cefnogi yn ystod cwestiynau heddiw, ond gwelaf fod y cenedlaetholwyr yma yn rhoi cefnogaeth ichi yn y Siambr. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau gwerth am gyllideb Cymru, sy'n cael ei sicrhau orau trwy arbedion effeithlonrwydd? Cawsom dystiolaeth yn ystod y broses gyllidebol ddiwethaf gan Paul Davies, a oedd yn siarad ar ran grŵp Cymru gyfan o Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG, nad yw gwerth £1.2 biliwn o wariant yn y GIG yn rhoi'r gwerth gorau. Cyfeiriaf at sylwadau fy nghydweithiwr, Nick Ramsay, a ofynnodd gwestiwn dilys. O gofio'r sefyllfa sy'n ein hwynebu, onid oes dyletswydd ar y Llywodraeth i sicrhau'r gwerth gorau o'r grant bloc? O gofio'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod y broses gyllidebol ddiwethaf, pa sicrwydd y gallwch ei roi fod eich Llywodraeth yn cael y gwerth gorau am y bunt Gymreig?

Jane Hutt: Edrychaf ymlaen at ddadl y gwrthbleidiau y prynhawn yma ar y pwnc hwn. Er gwaethaf degawd o fuddsoddi

investment by a Labour Government in Westminster and a Labour-led Government in Cardiff bay, we have maintained a focus on achieving efficient and effective services. We have been preparing for tighter budgets, and those preparations are paying off. As you know, I am now chairing an efficiency and innovation board, which is driving a national programme to transform operational efficiency across the public sector.

Gareth Jones: Weinidog, a fyddech yn cytuno ei bod hi'n braidd yn rhagrithiol ar ran y Blaid Geidwadol i godi'r pwnc o gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn wyneb y ffaith mai hwy a'u ffrindiau newydd, y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n benderfynol o gyflwyno toriadau llym i'r union gyllideb honno, yn enwedig o gofio fod Vince Cable wedi cyfeirio yn ddiweddar at gynlluniau treth a gwariant y Ceidwadwyr fel rhai '*fundamentally dishonest*'.

Jane Hutt: I entirely agree with your analysis, Gareth. The serious point about this is the economic implications as well as the social implications of this u-turn from Vince Cable and his colleagues. When Alistair Darling was in Wales a few weeks ago, he said that a Tory win would derail recovery. We are talking about the recovery of the economy, as well as protecting public services. We should not cut public expenditure this year; if we were to do so, it would pose an unacceptable risk to the economic recovery that we are beginning to see, as well as causing massive damage to public services.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I welcome the Minister's opening comments, at least, in that she said that she was hoping for a constructive relationship. I hope that she has not forgotten her opening remarks, because I thought that that was a sound sentiment, and she is at her best when she is not being tribal. Minister, you will be aware that Wales is facing a serious issue in fuel poverty; one in four households—320,000 households in Wales—face fuel poverty. We have had a severe winter and we do not have the most recent figures for winter

sylweddol gan Lywodraeth Lafur yn San Steffan, a Llywodraeth dan arweiniad y Blaid Lafur ym mae Caerdydd, yr ydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Yr ydym wedi bod yn paratoi ar gyfer cyllidebau tynnach, ac mae'r paratodau hynny'n talu ffordd. Fel y gwyyddoch, yr wyf yn awr yn cadeirio bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sy'n gyrru rhaglen genedlaethol i drawsnewid effeithlonrwydd gweithredol yn y sector cyhoeddus.

Gareth Jones: Minister, would you agree that it is somewhat hypocritical for the Conservative Party to raise the subject of the future budget of the Welsh Government in light of the fact that they and their new friends, the Liberal Democrats, are determined to introduce savage cuts to that very budget, particularly bearing in mind that Vince Cable recently referred to the taxation and spending plans of the Conservatives as '*fundamentally dishonest*'.

Jane Hutt: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â'ch dadansoddiad, Gareth. Y pwynt difrifol ynghylch y mater hwn yw goblygiadau economaidd yn ogystal â goblygiadau cymdeithasol y tro pedol hwn gan Vince Cable a'i gydweithwyr. Pan oedd Alistair Darling yng Nghymru ychydig wythnosau'n ôl, dywedodd y byddai buddugoliaeth i'r Toriaid yn bwrw'r adferiad oddi ar y cledrau. Yr ydym yn sôn am adferiad yr economi, yn ogystal â diogelu gwasanaethau cyhoeddus. Ni ddylem dorri gwariant cyhoeddus eleni; pe baem yn gwneud hynny, byddai'n achosi risg annerbyniol i'r adferiad yr ydym yn dechrau ei weld yn yr economi, yn ogystal ag achosi niwed sylweddol i wasanaethau cyhoeddus.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Yr wyf yn croesawu sylwadau agoriadol y Gweinidog, o leiaf pan ddywedodd ei bod yn gobeithio cael perthynas adeiladol. Gobeithio nad yw wedi anghofio'i sylwadau agoriadol, oherwydd yr oeddwn yn credu bod hwnnw'n safbwynt doeth, ac mae ar ei gorau pan nad yw'n bod yn bleidiol. Weinidog, gwyyddoch fod Cymru'n wynebu problem ddifrifol o ran tlodi tanwydd; mae un aelwyd o bob pedair—320,000 o aelwydydd yng Nghymru—yn wynebu tlodi tanwydd. Yr ydym wedi cael gaeaf caled a hyd ym nid yw'r ffigurau

deaths yet, but they had increased the previous year. It is a serious issue when people, sadly, have to make a choice between heating and eating. What is the Government doing to ensure that we do not face those sorts of statistics and, more importantly, that we do not face the dreadful situation in which people have to make that choice during the winter?

diweddaraf gennym am farwolaethau yn ystod y gaeaf, ond yr oedd y ffigurau wedi cynyddu yn y flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, mae'n fater difrifol pan fydd pobl yn gorfod dewis rhwng cael gwres neu fwyta. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad ydym yn wynebu ystadegau o'r fath, ac yn bwysicach fyth, i sicrhau nad ydym yn wynebu'r sefyllfa ofnadwy lle mae pobl yn gorfod gwneud y dewis hwnnw yn ystod y gaeaf?

1.50 p.m.

Jane Hutt: I already enjoy a constructive working relationship with you as the leader of the opposition, your colleagues and all Members across the Chamber. I will seek to ensure that we have constructive working relationships with your colleagues at Westminster. However, we have to look to the record that we have set here in investing in budgets to address fuel poverty and recognise that we have agreed further allocations to help address fuel poverty, following the approval of this year's budget last December, which also help to reduce greenhouse gas emissions. That includes £2.5 million for the Welsh boiler scrappage scheme and an additional £1.4 million for the home energy efficiency scheme, which has helped over 100,000 households across Wales with heating and insulation measures. I am concerned and curious about what will happen to the winter fuel allowance, and I am sure that my colleagues on this side of the Chamber are asking the same question.

Jane Hutt: Mae gennyf eisoes berthynas weithio adeiladol gyda chi fel arweinydd yr wrthblaid, eich cydweithwyr a phob Aelod ar draws y Siambr. Byddaf yn ceisio sicrhau y bydd gennym berthynas weithio adeiladol gyda'ch cydweithwyr yn San Steffan. Fodd bynnag, rhaid inni edrych ar ein hanes yma o ran buddsoddi mewn cyllidebau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, a chydabod ein bod wedi cytuno ar ddyraniadau pellach i helpu mynd i'r afael â thlodi tanwydd, ar ôl cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer eleni fis Rhagfyr diwethaf, sydd hefyd yn helpu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae hynny'n cynnwys rhoi £2.5 miliwn i gynllun sgrappio boeleri yng Nghymru, ac £1.4 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sydd wedi helpu dros 100,000 o aelwydydd ledled Cymru gyda'u dulliau gwresogi ac inswleiddio. Yr wyf yn pryderu ac yn chwilfrydig ynghylch yr hyn fydd yn digwydd i'r lwfans tanwydd gaeaf, ac yr wyf yn siŵr bod fy nghydweithwyr ar yr ochr hon o'r Siambr yn gofyn yr un cwestiwn.

Priorities

Q6 Darren Millar: Will the Minister outline her priorities for the remainder of the calendar year? OAQ(3)1059(BB)

Jane Hutt: Our priority continues to be delivering better outcomes for the Welsh people by taking forward our 'One Wales' agenda. The Assembly Government budget for 2010-11 underpins this agenda in a challenging economic climate.

Darren Millar: I understand that you are responsible for the Assembly Government's

Blaenoriaethau

C6 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y flwyddyn galendr? OAQ(3)1059(BB)

Jane Hutt: Ein blaenoriaeth o hyd yw sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru drwy fwrw ymlaen â'n hagenda 'Cymru'n Un'. Mae cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 yn sail i'r agenda hon mewn hinsawdd economaidd anodd.

Darren Millar: Deallaf mai chi sy'n gyfrifol am strategaeth leoli Llywodraeth y

location strategy, Minister. Can you provide us with an update on the situation regarding the regional office in Llandudno Junction in north Wales? Today, we have seen yet another increase in unemployment in Wales, which now stands at 133,000—the legacy of Gordon Brown in office, which our new Conservative Prime Minister will have to sort out. Many of those unemployed people are in my constituency and many have lost their jobs over the past 12 months. They want to know how many new jobs will be created in Llandudno Junction from which they can benefit.

Jane Hutt: To put the record straight before I answer your detailed question about the location strategy and the forthcoming opening of the new office at Llandudno Junction, which I was pleased to visit recently, let us look at the figures that came out today. The claimant count in Wales has fallen for the fifth month out of six and the claimant count level has fallen by 3.2 per cent over the year in Wales, which is the first annual fall in two years. The claimant count rate in Wales is lower than it was at any time between the mid 1980s and mid 1997. Who was in charge then? In addition, Wales is maintaining an employment rate that is well above its historical average, up by 91,000 since the start of the Assembly. However, your question is important, because our investment in the landmark building in Llandudno Junction, the handover of which is now taking place—I am sure that you have visited it, and I am sure that you will be at the official opening by the First Minister later this year—will provide important opportunities in north Wales for job support and for public services, as the local business sector well knows, as does the public sector.

Leanne Wood: Following the formation of the Conservative and Liberal Democrat Government at a UK level, we now know that, despite promises to the contrary, the Assembly will receive budget cuts this year, and it is inevitable that the public sector in Wales will undergo a transformation of epic

Cynulliad, Weinidog. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am sefyllfa'r swyddfa ranbarthol yng nghyffordd Llandudno yn y gogledd? Heddiw yr ydym wedi gweld diweithdra yng Nghymru yn codi eto fyth, gan gyrraedd 133,000 erbyn hyn—gwaddol Gordon Brown yn ei swydd y bydd yn rhaid i'n Prif Weinidog Ceidwadol newydd fynd i'r afael ag ef. Mae llawer o'r bobl hynny sy'n ddi-waith yn fy etholaeth i, ac mae llawer ohonynt wedi colli eu swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf. Maent am wybod faint o swyddi newydd a fydd yn cael eu creu yng Nghyffordd Llandudno ac y gallant hwy elwa ohonynt.

Jane Hutt: Gadewch imi gywiro gwall ac edrych ar y ffigurau a gyhoeddwyd heddiw, cyn ateb eich cwestiwn manwl am y strategaeth leoli a'r swyddfa newydd sydd ar fin agor yng Nghyffordd Llandudno ac y cefais y pleser o ymweld â hi'n ddiweddar. Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru wedi gostwng am y pumed mis allan o chwech, ac mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi gostwng 3.2 y cant yn ystod y flwyddyn yng Nghymru, y tro cyntaf mewn dwy flynedd iddo ostwng o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru yn is nag ar unrhyw adeg rhwng yr 1980au a chanol 1997. Pwy oedd yn rheoli bryd hynny? Yn ogystal, mae Cymru'n cynnal cyfradd cyflogaeth sy'n lawer yn uwch na'r cyfartaledd hanesyddol, ac sydd wedi cynyddu 91,000 ers sefydlu'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae eich cwestiwn yn bwysig, oherwydd bydd ein buddsoddiad yn yr adeilad nodedig yng Nghyffordd Llandudno, sy'n newid dwylo ar hyn o bryd—yr wyf yn siŵr eich bod wedi ymweld ag ef, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn yr agoriad swyddogol gan y Prif Weinidog yn ddiweddarach eleni—yn darparu cyfleoedd pwysig yn y gogledd i gefnogi swyddi ac i wasanaethau cyhoeddus, fel y gŵyr y sector busnes lleol a'r sector cyhoeddus yn dda.

Leanne Wood: Ar ôl ffurfio Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar lefel y DU, gwyddom erbyn hyn, er gwaetha'r addewidion a wnaed i'r gwrthwyneb, y bydd toriadau yng nghyllidebau'r Cynulliad eleni, ac mae'n anochel y bydd y sector cyhoeddus yng

proportions. One small ray of light in all this gloom is the Public and Commercial Services Union's successful legal challenge to the UK Government's attempt to slash its members' redundancy terms. Given that the number of public sector workers is likely to be cut and that whatever employees are left are likely to face a pay freeze, if not pay cuts, what can the Welsh Government do to save the maximum number of public sector jobs and to ensure that those public servants who are on the highest wages, as well as publicly funded consultants, bear the brunt of these cuts so that the gap between the highest and the lowest-paid workers in Wales does not continue to grow?

Jane Hutt: We are very concerned about the impact of any budget brought forward in this financial year, 2010-11, not only on the economic recovery, but on public services. The efficiency and innovation board that I chair includes representatives from the Wales Trades Union Congress, and the First Minister is chairing the public sector workforce partnership council. To move forward on efficiency and innovation, and to be able to address the impact of the UK Government's cuts agenda—which is what it will be—requires a team Wales approach, in partnership with our colleagues in the trade union movement, and that is how we will tackle the issue.

Mick Bates: The recent deep rural localities report highlighted a general concern about the long-term sustainability of deep rural areas in Wales. Some reasons for this concern include a lack of focus by the Welsh Assembly Government and unrealistic budgets for local authorities. As evidence of this, in response to a report in 2008 from the Rural Development Sub-committee, chaired at the time by Alun Davies, the Welsh Local Government Association published a paper that recognised the case for a sparsity grant. The paper stated that the additional costs of delivering services over sparsely-populated areas had been neglected, and that there was

Nghymru'n mynd trwy gyfnod o drawsnewid anferthol. Un llygedyn bach o obaith yn y tywyllwch hwn yw her gyfreithiol lwyddiannus Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol i ymgais Llywodraeth y DU i dorri telerau diswyddo ei aelodau. O gofio bod nifer gweithwyr y sector cyhoeddus yn debygol o gael ei dorri, a bod unrhyw weithwyr sydd ar ôl yn debygol o weld rhewi eu cyflog, neu hyd yn oed ei dorri, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i achub cynifer o swyddi ag sy'n bosibl yn y sector cyhoeddus? A beth all ei wneud i sicrhau bod y gweision cyhoeddus hynny sydd ar y cyflogau uchaf, yn ogystal ag ymgynghorwyr a delir o arian cyhoeddus, yn derbyn y gwaethaf o'r toriadau hyn, fel na fydd y bwlch rhwng y gweithwyr sy'n cael eu talu fwyaf a'r gweithwyr sy'n cael eu talu leiaf yng Nghymru yn dal i dyfu?

Jane Hutt: Yr ydym yn pryderu'n fawr am yr effaith a gaiff unrhyw gyllideb a gyflwynir yn y flwyddyn ariannol hon, 2010-11 nid yn unig ar yr adferiad economaidd, ond ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi yr wyf yn ei gadeirio yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngres Undebau Llafur Cymru, ac mae'r Prif Weinidog yn cadeirio cyngor partneriaeth gweithlu'r sector preifat. Er mwyn gwneud cynnydd ar effeithlonrwydd ac arloesi, ac er mwyn gallu mynd i'r afael ag effaith agenda toriadau Llywodraeth y DU—a dyna a fydd yn digwydd—bydd angen dull gweithredu gan Gymru, mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y mudiad undebau llafur, a dyna sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r mater.

Mick Bates: Yr oedd yr adroddiad yn ddiweddar ar ardaloedd gwledig anghysbell yn tynnu sylw at bryder cyffredinol am gynaliadwyedd tymor hir ardaloedd gwledig anghysbell yng Nghymru. Mae rhai rhesymau dros y pryder hwn yn cynnwys diffyg ffocws ar ran Llywodraeth y Cynulliad a chyllidebau afrealistig ar gyfer awdurdodau lleol. Yn dystiolaeth o hyn, mewn ymateb i adroddiad yn 2008 gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig dan gadeiryddiaeth Alun Davies bryd hynny, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bapur yn cydnabod bod achos dros gael grant i ardaloedd tenau eu poblogaeth. Dyweedai'r papur fod y

a shortfall of £17 million per annum. In light of that report, will you commit as a priority to investigating ways that rurality can be reflected better in local government budget settlements to address the imbalance in the costs of delivering services in rural areas so that the additional costs do not fall on the council tax payer simply because of where they live?

Jane Hutt: I hope that you will be as concerned as we are about the possible impacts of a budget that, we understand, may be forthcoming in July of this year from the new Government. You can be assured that the impact of that budget on the 2010-11 budget that has been approved by the Assembly will be such that it will affect every aspect of our policies and the 'One Wales' programme of government. It will also have an impact on how we allocate our funds in terms of the needs of the communities that you represent.

Funding Allocation

Q7 Peter Black: What consideration does the Minister give to the needs of children in Wales when allocating the Welsh Assembly Government's budget? OAQ(3)1069(BB)

Jane Hutt: I am committed to ensuring that the needs and interests of children and young people remain at the heart of this Government's vision for a better Wales.

Peter Black: As you, along with several of your colleagues, have already shown an uncanny ability to predict the future with regard to what the new UK Government will do, perhaps you could also tell us what you are going to do about the fact that your Government, which is no stranger to cuts in public services, is, this year, cutting the amount of money allocated to capital spending on school buildings, especially given that you missed your target of making all schools fit for purpose by 2010—*[Interruption.]*

costau ychwanegol o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth wedi eu hesgeuluso, a bod diffyg o £17 miliwn bob blwyddyn. Yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw, a wnewch chi ymrwymo i roi blaenoriaeth i ymchwilio i ffyrdd i adlewyrchu natur wledig rhai ardaloedd yn well mewn setliadau cyllideb i lywodraeth leol, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, fel na fydd y costau ychwanegol yn disgyn ar y sawl sy'n talu'r dreth gyngor, dim ond oherwydd ble maent yn byw?

Jane Hutt: Gobeithio y byddwch yn poeni cymaint â ni am effeithiau posibl cyllideb a allai gael ei chyflwyno, fel y deallwn, ym mis Gorffennaf eleni gan y Llywodraeth newydd. Gallwch fod yn siŵr y bydd effaith y gyllideb honno ar y gyllideb ar gyfer 2010-11 sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad yn ddigon i effeithio ar bob agwedd ar ein polisiau a'r rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un'. Bydd hefyd yn cael effaith ar y modd yr ydym yn dyrannu ein cyllid o ran anghenion y cymunedau yr ydych yn eu cynrychioli.

Dyrannu Cyllid

C7 Peter Black: Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i anghenion plant yng Nghymru wrth ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1069(BB)

Jane Hutt: Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion a buddiannau plant a phobl ifanc yn parhau wrth wraidd gweledigaeth y Llywodraeth hon ar gyfer Cymru well.

Peter Black: Gan eich bod chi, ynghyd â nifer o'ch cydweithwyr, eisoes wedi dangos gallu rhyfedd i ragweld y dyfodol o safbwynt yr hyn y bydd Llywodraeth newydd y DU yn ei wneud, efallai y gallech hefyd ddweud wrthym beth y byddwch yn ei wneud am y ffaith fod eich Llywodraeth chi, sy'n ddigon cyfarwydd â thoriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn mynd ati eleni i dorri'r arian a gaiff ei ddyrannu ar gyfer gwariant cyfalaf ar adeiladau ysgolion, yn enwedig o gofio ichi fetu â chyrraedd eich targed i sicrhau bod pob ysgol yn addas at y diben erbyn 2010—*[Torri ar draws.]*

The Presiding Officer: Order. I wish to hear Peter Black.

Peter Black: Do you not think that that particular aspect of spending is very important for the future of our children? They should have a good education in buildings that are fit for purpose, but many of them are not.

Jane Hutt: I do not want to make you blush any further, but you are clearly not aware of the programme of government that your party has signed up to. I seem to remember that the programme of government that we signed up to when in coalition with the Liberal Democrats was in the headlines before we presented it to the wider public and the people whom we represent. The part of the deal that has come forward that we are most concerned about is the fact that there is an agreement between your party and the Conservative Party to have a budget in 2010-11. That goes back on what Vince Cable said clearly about the risk to the recovery and to public services.

2.00 p.m.

It is interesting that you make your point about investment in the twenty first century school capital programme allocation, because I can recall correspondence and scrutiny on this matter from my time as the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. The fact is that the City and County of Swansea Council, which is under Liberal Democrat administration, has not fully utilised the opportunities made available under the transitional funding arrangements. It is the responsibility of local government to access that funding under a partnership arrangement with the Welsh Assembly Government. I would have thought that, today, you would congratulate this Government and the Deputy Minister for Children on our plan to reduce child poverty and on our investment under that pioneering 'One Wales' commitment.

Helen Mary Jones: You may be aware that, following the Government's positive response to the report of the Communities and Culture Committee on domestic abuse,

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf am glywed Peter Black.

Peter Black: Oni chredwch fod yr agwedd benodol honno ar wariant yn bwysig iawn i ddyfodol ein plant? Dylent gael addysg dda mewn adeiladau sy'n addas at y diben, ond mae nifer o'r adeiladau hynny heb fod yn addas.

Jane Hutt: Nid wyf am wneud ichi wrido mwy, ond mae'n amlwg nad ydych yn ymwybodol o'r rhaglen lywodraethu y mae eich plaid wedi cytuno iddi. Yr wyf yn rhyw frith gofio bod y rhaglen lywodraethu a gytunwyd gennym pan aethom i glymblaid gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymddangos yn y penawdau cyn inni ei chyflwyno i'r cyhoedd a'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli. Y rhan o'r cytundeb sydd wedi'i ffurfio ac yr ydym yn pryderu fwyaf amdani yw bod eich plaid chi a'r Blaid Geidwadol wedi cytuno i gael cyllideb yn 2010-11. Mae hynny'n groes i'r hyn a ddywedodd Vince Cable yn glir am y risg i'r adferiad ac i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'n ddiddorol eich bod yn gwneud eich pwynt am fuddsoddi yn y dyraniad i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, oherwydd gallaf gofio gohebiaeth a gwaith craffu ar y mater hwn yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Y gwir amdani yw nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe, dan weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddarparwyd dan y trefniadau cyllido trosiannol. Llywodraeth leol sy'n gyfrifol am allu cael y cyllid hwnnw, dan gytundeb partneriaeth gyda Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn wedi meddwl y byddech, heddiw, yn llongyfarch y Llywodraeth hon a'r Dirprwy Weinidog dros Blant ar ein cynllun i leihau tlodi plant ac ar ein buddsoddiad dan yr ymrwymiad arloesol hwnnw yn 'Cymru'n Un'.

Helen Mary Jones: Efallai y byddwch yn ymwybodol, yn dilyn ymateb cadarnhaol y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gam-drin

an issue has arisen with regard to voluntary sector funding for children's work in refuges, which has now been accepted as a Government responsibility. Given the pressures that we have just been discussing in relation to the Welsh budget, I am sure that you will agree that it would be unfortunate if Welsh refuges were in future unable to access voluntary sector funding. In your capacity as the Minister with responsibility for the budget, could you have further discussions with your colleagues the Deputy Minister for Children and the Minister for Social Justice and Local Government to ensure that the Government's position in this regard is clarified, and voluntary organisations are able to continue funding children's work in refuges as part of their voluntary commitment?

Jane Hutt: I would certainly hope and expect that detailed questions on this would come forward from you to the Minister for Social Justice and Local Government, particularly in light of the fact that he has recently published 'The Right to be Safe', an integrated strategy to tackle all forms of violence. Part of that is providing support for victims and children, and the network of women's refuges is key to that provision.

Angela Burns: To what extent are you enabling the participation of children and young people in budget monitoring and setting? As you will be aware from your previous portfolio, this was recommendation 7 of the report by the Children and Young People Committee on children's budgeting, which we published in December 2009. That report went to a task and finish group, which was supposed to have reported in spring 2010, but we still have not heard anything on it. It seems to have been kicked into the long grass, which is a great shame, because it is important. What are you doing to ensure that children's voices are heard when it comes to budget setting?

Jane Hutt: I hope that, as the Minister for Budget and Business, I can put that right. As you have said, my commitment to children's budgeting started when I was Minister for

domestic, fod problem wedi codi i gael cyllid y sector gwirfoddol ar gyfer gwaith gyda phlant mewn llochesau. Mae erbyn hyn wedi'i dderbyn yn gyfrifoldeb y Llywodraeth. O gofio'r pwysau yr ydym newydd fod yn eu trafod o ran cyllideb Cymru, yr wyf yn siŵr y cytunwch y byddai'n anffodus pe bai llochesau yng Nghymru yn methu cael cyllid y sector gwirfoddol yn y dyfodol. Yn eich swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, a allech gael trafodaethau pellach gyda'ch cydweithwyr, y Dirprwy Weinidog dros Blant a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i sicrhau bod safbwynt y Llywodraeth ar hyn yn fwy eglur, a bod mudiadau gwirfoddol yn gallu parhau i ariannu gwaith gyda phlant mewn llochesau fel rhan o'u hymrwymiad gwirfoddol?

Jane Hutt: Byddwn yn sicr yn gobeithio ac yn disgwyl y byddech yn cyflwyno cwestiynau manwl ar hyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn ddiweddar, sy'n strategaeth integredig i fynd i'r afael â phob math o drais. Rhan o hynny yw darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant, ac mae'r rhwydwaith o lochesau i fenywod yn allweddol i'r ddarpariaeth honno.

Angela Burns: I ba raddau yr ydych yn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro a gosod y gyllideb? Fel y gwyddoch o'ch portffolio blaenorol, dyna oedd argymhelliad 7 yn adroddiad yr Isbwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyllidebu ar gyfer plant, a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2009. Aeth yr adroddiad hwnnw at grŵp gorchwyl a gorffen, ac yr oedd disgwyl iddo adrodd yn ôl ar ei waith yn ystod gwanwyn 2010. Ond nid ydym wedi clywed dim yn ei gylch o hyd. Ymddengys iddo gael ei ysgubo o'r neilltu, sy'n drueni mawr, oherwydd mae'n bwysig. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu clywed pan ddaw'n fater o osod cyllidebau?

Jane Hutt: Gobeithio y gallaf unioni hynny, fel y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb. Fel yr ydych wedi'i ddweud, dechreuodd fy ymrwymiad i gyllidebu ar gyfer plant pan

Children, Education, Lifelong Learning and Skills. We made a commitment under the UN Convention on the Rights of the Child, and we were at the forefront in addressing the issue of children's budgeting. Importantly, as you say, it is about how we ensure that children and young people influence the setting of budgets, and we will shortly be making proposals about improving budget forecasting and spend to ensure that they are linked to outcomes for children and young people. Participation by children and young people will be a part of that.

oeddwn yn Weinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Gwnaethom ymrwymiad dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yr oeddem yn arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â chyllidebu ar gyfer plant. Yr hyn sy'n bwysig, fel y dywedwch, yw ein bod yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar y modd y caiff cyllidebau eu gosod, a chyn hir byddwn yn gwneud cynigion ynghylch gwella rhagweld cyllidebau a gwariant, er mwyn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Bydd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn rhan o hynny.

Priorities

Q8 Mark Isherwood: What consideration does the Minister give to the Welsh Government's priorities when allocating the social justice and local government budget? OAQ(3)1050(BB)

Jane Hutt: During the budget process, I will meet with all portfolio Ministers to understand the pressures and priorities within their portfolios.

Mark Isherwood: A key component of the local government budget is the budget for schools and education. Whereas our manifesto pledged to protect winter fuel payments, for example, there are many things that your Welsh Government has failed to protect, including small schools. Your recent £2.5 million cut in small-school funding is leading to teacher cuts now, including at the small rural school attended by my granddaughter. Today, Plaid Cymru hosted the launch of an important report on the cost of small primary schools in Wales. 'Seeking Fairness in Rural Education' was commissioned by HYB and written by Cambridge Consultants. I know that the Welsh Government respects the work of Cambridge Consultants because it often commissions work from them. The report found that no analysis or evidence base had been provided for the cost of small-school closures in Wales, or for the potential resulting cost saving. Closing every small school of 90 pupils or fewer in Wales would only save 2 per cent in the budget, which

Blaenoriaethau

C8 Mark Isherwood: Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu'r gyllideb ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)1050(BB)

Jane Hutt: Yn ystod y broses o lunio'r gyllideb, byddaf yn cyfarfod â phob Gweinidog sydd â phortffolio er mwyn deall y pwysau a'r blaenoriaethau yn eu portffolios.

Mark Isherwood: Un elfen allweddol yng nghyllideb llywodraeth leol yw'r gyllideb ar gyfer ysgolion ac addysg. Lle'r oedd ein maniffesto ni wedi addo diogelu taliadau tanwydd gaeaf, er enghraifft, mae nifer o bethau y mae eich Llywodraeth chi yng Nghymru wedi methu â'u diogelu, gan gynnwys ysgolion bach. Mae eich toriad o £2.5 miliwn yn ddiweddar yn y cyllid i ysgolion bach yn arwain at dorri swyddi athrawon erbyn hyn, gan gynnwys yn yr ysgol fach wledig y mae fy wyres yn ei mynychu. Heddiw, lansiodd Plaid Cymru adroddiad pwysig ar gost ysgolion cynradd bach yng Nghymru. Comisiynwyd 'Seeking Fairness in Rural Education' gan Hyrwyddo Ysgolion Bach, ac fe'i hysgrifennwyd gan Cambridge Consultants. Gwn fod Llywodraeth Cymru'n parchu'r gwaith y mae Cambridge Consultants yn ei wneud oherwydd mae'n comisiynu gwaith ganddynt yn aml. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd dim gwaith dadansoddi na sylfaen dystiolaeth wedi'u darparu ar gost cau ysgolion bach yng Nghymru, nac ar yr arbed

would be more than offset by the increased travelling costs to the new schools. Will your Government give serious consideration to this report, as is intended, and respond objectively and factually to its key findings?

Jane Hutt: We will take that report seriously; I look forward to seeing it. The challenge for you and your party, and for Welsh local authorities, is to look at the importance of removing surplus places. If they are taking this forward responsibly, with the guidance and the capital funding that we are providing to incentivise that work, it will lead not only to greater efficiency, but also gains for pupils and an assurance that we have an appropriate pattern of provision with regard to size and location of schools in Wales.

David Lloyd: Pa drafodaethau ydych yn eu cynnal i flaenoriaethu ariannu triniaethau a phrosiectau sy'n mynd i'r afael â cham-drin alcohol?

Jane Hutt: That is clearly an important part of the discussions that I am having with regard to budgetary allocations for 2011-12 onwards. However, it is also about ensuring that the allocations that have been made, which support the budgets of the Minister for Health and Social Services and the Minister for Social Justice and Local Government, are maintained and supported.

costau posibl. Byddai cau pob ysgol fach sydd â 90 o ddisgyblion neu lai yng Nghymru yn arbed 2 y cant yn unig yn y gyllideb, a byddai'r costau teithio cynyddol i ysgolion newydd yn fwy na'r hyn a arbedid trwy gau ysgolion. A fydd eich Llywodraeth yn ystyried yr adroddiad hwn o ddifrif, fel y bwriedir, ac yn ymateb yn wrthrychol ac yn ffeithiol i'w brif ddarganfyddiadau?

Jane Hutt: Byddwn yn cymryd yr adroddiad hwnnw o ddifrif; edrychaf ymlaen at ei weld. Yr her i chi a'ch plaid, ac i awdurdodau lleol Cymru, yw edrych ar bwysigrwydd dileu lleoedd gwag. Os ânt â hyn ymlaen mewn modd cyfrifol, gyda'r arweiniad a'r cyllid cyfalaf yr ydym yn eu darparu i ysgogi'r gwaith hwnnw, bydd nid yn unig yn arwain at well effeithlonrwydd, ond bydd hefyd yn arwain at fanteision i ddisgyblion a sicrwydd bod gennym batrwm priodol o ddarpariaeth o ran maint a lleoliad ysgolion yng Nghymru.

David Lloyd: What discussions are you having to prioritise funding for treatments and projects to deal with alcohol misuse?

Jane Hutt: Mae hynny'n amlwg yn rhan bwysig o'r trafodaethau yr wyf yn eu cael ar ddyraniadau cyllidebol ar gyfer 2011-12 ymlaen. Fodd bynnag, mae a wnelo hefyd â sicrhau bod y dyraniadau sydd wedi'u gwneud, ac sy'n cefnogi cyllidebau'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn cael eu cynnal a'u cefnogi.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Priorities

Q1 Irene James: Will the Minister outline his priorities for the next six months? OAQ(3)1149(HER)

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): I am committed to fulfilling my 'One Wales' commitments, including the introduction of a new proposed Welsh language Measure, encouraging more

Blaenoriaethau

C1 Irene James: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1149(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Yr wyf wedi ymrwymo i gyflawni fy ymrwymadau yn 'Cymru'n Un', sy'n cynnwys cyflwyno Mesur arfaethedig newydd ynghylch yr iaith Gymraeg, hybu

physical activity for better health, increasing tourism by maximising the economic value of our heritage and modernising the public library network.

Irene James: Thank you for your response, Minister. Will you make one of your priorities the maintenance of local sports facilities? As we all know, it is the local clubs that use these facilities that provide the sporting stars of the future. What funding is available for local cricket teams, which, in my constituency, are experiencing extreme difficulties?

Alun Ffred Jones: Local sports facilities are the responsibility of local authorities or, in some cases, the local clubs themselves. Various funds can be accessed, such as Sportlot, although that has diminished over the past two years, mainly due to the effect of the 2012 Olympics. I am aware of the pressures on local clubs, and, in the coming years, we need to seek greater collaboration between local government and local clubs to try to ensure that not only do we maintain our facilities, but we improve them, too.

David Lloyd: Weinidog, o ran eich blaenoriaethau am y chwe mis nesaf, beth yw'r diweddaraf ynglŷn â thaith Mesur arfaethedig y Gymraeg drwy'r Cynulliad?

Alun Ffred Jones: Fel y gwyddoch, mae'r Mesur arfaethedig yn cael ei drafod gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2. Yr ydym wedi caniatáu rhagor o amser er mwyn i'r trafodaethau hynny gael eu cwblhau yn drwyadl. Nis oes rheswm i gredu na fyddwn yn gallu dod â'r Mesur arfaethedig gerbron o fewn yr amserlen a osodwyd, ond mae llawer o waith i'w wneud ac ystyriaethau cyn y gallwn wneud hynny'n ffurfiol.

2.10 p.m.

Nick Bourne: It is a matter of great pride for our nation when important national and international sporting events come to Wales, such as the Ryder Cup. They offer massive opportunities for tourism revenue, both

mwy o weithgarwch corfforol i sicrhau gwell iechyd, cynyddu twristiaeth drwy wneud y gorau o werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio'r rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus.

Irene James: Diolch am eich ymateb, Weinidog. A wnewch chi sicrhau mai un o'ch blaenoriaethau fydd cynnal a chadw cyfleusterau chwaraeon lleol? Fel y gwyddom i gyd, yn y clybiau lleol sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn y caiff sêr y dyfodol ym maes chwaraeon eu meithrin. Pa arian sydd ar gael i dimau criced lleol sydd, yn fy etholaeth i, yn cael anawsterau difrifol?

Alun Ffred Jones: Cyfrifoldeb awdurdodau lleol, neu mewn rhai achosion y clybiau lleol eu hunain, yw cyfleusterau chwaraeon lleol. Gellir cael cronfeydd amrywiol, megis Sportlot, er bod y gronfa honno wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, oherwydd effaith Gemau Olympaidd 2012 yn bennaf. Yr wyf yn ymwybodol o'r pwysau ar glybiau lleol, ac yn y blynyddoedd nesaf mae angen inni geisio hybu mwy o gydweithredu rhwng llywodraeth leol a chlybiau lleol er mwyn ceisio sicrhau ein bod nid yn unig yn cynnal a chadw ein cyfleusterau, ond hefyd yn eu gwella.

David Lloyd: Minister, with regard to your priorities for the next six months, can you give an update on the progress of the proposed Welsh language Measure through the Assembly?

Alun Ffred Jones: As you know, the proposed Measure is currently being dealt with by Legislation Committee No. 2. We have allowed more time for those discussions to be completed thoroughly. There is no reason to believe that we will not be able to complete the proposed Measure within the set timetable, but there is much work to be done and much to consider before we can make the legislation.

Nick Bourne: Mae'n destun balchder mawr i'n cenedl pan fydd digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol pwysig ym maes chwaraeon, megis Cwpan Ryder, yn dod i Gymru. Maent yn gyfleoedd enfawr i

immediately and for many years thereafter. What specifically are you planning around the Ryder Cup to ensure that Wales gets a lasting tourism benefit from that great event later this year?

Alun Ffred Jones: We want to ensure that the Ryder Cup event is successful. Detailed plans have been formulated and they are being acted upon to ensure that the infrastructure is in place and that everything will proceed in accordance with our wishes during that week. Plans are afoot to celebrate the Ryder Cup with an event at the Millennium Stadium. The plans are proceeding, although there have been a few glitches along the way. The event will also be a stage that we can use to promote Wales and its image. A marketing campaign will accompany the Ryder Cup, and that is in place. We are also actively involved to ensure that volunteers are in place on the day, as happened with the Ashes test in Cardiff, to ensure that the people who come to see the Ryder Cup have an enjoyable and positive experience.

Nick Bourne: That deals with the immediate aspects, but could you develop that to explain how you are hoping for a lasting legacy from tourism generated by the Ryder Cup? Could you couple that with something about the Olympics? We are all—at least I think it is all—proud of this country having the games in 2012. There will be some events in Wales, such as football, and there will be training camps and so on. Could you expand on what we are hoping will be a lasting legacy from many Olympic events and the Ryder Cup, and not just for the immediate handling of them, important though that is?

Alun Ffred Jones: I was referring to more than just the handling of it in the marketing campaigns that surround the Ryder Cup. On the legacy of the event itself, the important work that has been done to develop golf tourism is ongoing and it will continue after the Ryder Cup, and it has been successful in raising the numbers of people coming to

gynhyrchu refeniw twristiaeth, ar unwaith ac am flynyddoedd lawer wedyn. Beth yn benodol y bwriadwch ei wneud ynghylch Cwpan Ryder i sicrhau bod Cymru'n cael budd parhaus o dwristiaeth yn sgil y digwyddiad gwych hwnnw'n ddiweddarach eleni?

Alun Ffred Jones: Yr ydym am sicrhau y bydd digwyddiad y Cwpan Ryder yn llwyddiannus. Mae cynlluniau manwl wedi'u creu, a chânt eu gweithredu i sicrhau bod y seilwaith yn bod ac y bydd popeth yn mynd rhagddo fel y dymunwn yn ystod yr wythnos honno. Mae cynlluniau ar droed i ddatlu Cwpan Ryder â digwyddiad yn Stadiwm y Mileniwm. Mae'r cynlluniau'n datblygu, er i ambell rwystr godi ar hyd y ffordd. Bydd y digwyddiad hefyd yn llwyfan y gallwn ei ddefnyddio i hyrwyddo Cymru a'i delwedd. Bydd ymgyrch farchnata yn cyd-fynd â'r Cwpan Ryder, ac mae honno ar droed. Yr ydym hefyd wrthi'n cymryd camau i sicrhau bod gwirfoddolwyr ar gael ar y diwrnod, fel y digwyddodd ym mhrawf cyfres y Llundw yng Nghaerdydd, i sicrhau bod y bobl a fydd yn dod i weld y Cwpan Ryder yn cael profiad cadarnhaol a phleserus.

Nick Bourne: Mae hynny'n ymdrin â'r agweddau uniongyrchol, ond a allech ddatblygu eich ateb i esbonio sut y gobeithiwch sicrhau gwaddol parhaus yn sgil y dwristiaeth a gynhyrchir gan y Cwpan Ryder? A allech gyplysu hynny â rhywbeth am y Gemau Olympaidd? Yr ydym i gyd—o leiaf, credaf ein bod i gyd—yn falch y bydd y wlad hon yn cynnal y gemau yn 2012. Bydd rhai digwyddiadau yng Nghymru, megis pêldroed, a bydd gennym wersylloedd hyfforddi, ac yn y blaen. A allech ymhelaethu ar yr hyn a fydd, gobeithio, yn waddol parhaus o'r llu digwyddiadau Olympaidd a'r Cwpan Ryder, yn hytrach na sôn yn unig am y gwaith uniongyrchol o ymdrin â hwy, er mor bwysig yw hynny?

Alun Ffred Jones: Yr oeddwn yn cyfeirio at fwy na dim ond ymdrin â'r gwaith yn yr ymgyrchoedd marchnata sy'n ymwneud â'r Cwpan Ryder. O ran gwaddol y digwyddiad ei hun, mae'r gwaith pwysig sydd wedi'i wneud i ddatblygu twristiaeth golff yn parhau, a bydd yn parhau ar ôl y Cwpan Ryder, ac mae wedi bod yn llwyddiannus o

Wales to play golf. There is positive feedback from America and across the world about that campaign. On the Olympics, as you know, a new deal has been struck with the Millennium Stadium so that we will have some 12 to 15 games at the stadium itself. This in itself will have an immediate beneficial economic impact here in the south-east. In terms of the training camps, you are aware that a number of countries have already committed to coming to Wales in the months preceding the Olympics. I will write to you to set out all the activities that are ongoing either to engage with the events or to ensure a legacy. If you want to compare the two, the Ryder Cup is our Olympic Games, and we need to concentrate on maximising the impact of that event.

Tourism

Q2 Lorraine Barrett: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government support for tourism in Wales? OAQ(3)1132(HER)

Alun Ffred Jones: Visit Wales has been allocated over £13 million in 2010-11 to help to promote and develop tourism in Wales. Tourism businesses are eligible for support under Flexible Support for Business and new tourism projects are being developed with assistance from Cadw, and from strategic regeneration area and rural development plan funds.

Lorraine Barrett: As you know, tourists spend around £8 million a day on trips to Wales, amounting to about £3 billion a year. Some Government policies, such as introducing free entry to Cadw sites for pensioners and children, are a huge success for those living in Wales. There is also an opportunity to be grasped with cruise ships. Some of the smaller cruise ships come to Cardiff bay, but will you see what you can do to encourage and support bigger cruise ships to come to Wales? There is a huge opportunity for tourists to come here to spend money on overnight stays.

ran cynyddu nifer y bobl sy'n dod i Gymru i chwarae golff. Cafwyd adborth cadarnhaol o America ac o bob rhan o'r byd i'r ymgyrch honno. O ran y Gemau Olympaidd, fel y gwyddoch, tarwyd bargaen newydd gyda Stadiwm y Mileniwm fel y bydd oddeutu 12 i 15 o gemau yn y stadiwm. Bydd hynny ynddo'i hun yn cael effaith economaidd fuddiol ar unwaith yma yn y de-ddwyrain. O ran y gwerysilloedd hyfforddi, gwyddoch fod nifer o wledydd eisoes wedi ymrwymo i ddod i Gymru yn ystod y misoedd yn arwain at y Gemau Olympaidd. Byddaf yn ysgrifennu atoch i nodi'r holl weithgareddau sydd ar droed, naill ai i ymgysylltu â'r digwyddiadau neu i sicrhau gwaddol. Os ydych am gymharu'r ddau, y Cwpan Ryder yw ein Gemau Olympaidd ni, ac mae angen inni ganolbwyntio ar wneud y gorau o effaith y digwyddiad hwnnw.

Twristiaeth

C2 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i dwristiaeth yng Nghymru? OAQ(3)1132(HER)

Alun Ffred Jones: Dyrannwyd dros £13 miliwn i Croeso Cymru yn ystod 2010-11 i helpu hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru. Mae busnesau twristiaeth yn gymwys i gael cymorth dan nawdd Cymorth Hyblyg i Fusnes, ac mae prosiectau twristiaeth newydd yn cael eu datblygu gyda chymorth gan Cadw, ac o gronfeydd ardaloedd adfywio strategol a'r cynllun datblygu gwledig.

Lorraine Barrett: Fel y gwyddoch, mae twristiaid yn gwario oddeutu £8 miliwn y dydd ar deithiau i Gymru, sy'n dod i ryw £3 biliwn y flwyddyn. Mae rhai o bolisiau'r Llywodraeth, megis cyflwyno mynediad am ddim i bensynwyr a phlant i safleoedd Cadw, yn llwyddiant ysgubol bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae cyfle hefyd i'w fachu o ran llongau mordeithio. Mae rhai llongau mordeithio llai o faint yn dod i fae Caerdydd, ond a wnewch chi ystyried beth y gallwch ei wneud i annog a chynorthwyo llongau mordeithio mwy o faint i ddod i Gymru? Mae cyfle enfawr i dwristiaid ddod yma i wario arian wrth aros dros nos.

Alun Ffred Jones: There has been a lot of work ongoing in Holyhead, with the development of the port to encourage cruise ships to come into Holyhead. The figures are very encouraging in terms of the number of ships and the number of visitors who come ashore. As you rightly point out, the spend per head of the people who come in on cruise ships is higher than that of ordinary visitors. They are an important factor. I am not aware of other developments across Wales, so I will have to write to you on that matter. However, Holyhead is certainly seeing an increase, and there is a projected increase in visits over the coming years.

Andrew R.T. Davies: Building on the point made by the Member for Cardiff South and Penarth about cruise ships and bringing that spend into Wales, one of the critical goals for tourism is surely to try to break the triangle for high-spending tourists, who arrive in London, go to Stratford, visit Bath and then head back up the M4 to London. Many of the tourism operators who I speak to in Wales bemoan the fact that we persuade such a small percentage of those tourists to extend their stay to include Wales or to make Wales part of that visit. What action is the Assembly Government taking, on a joined-up basis with the tourism authorities across the United Kingdom, to convince tourists to consider Wales as a viable destination for a pleasurable stay in the United Kingdom and, above all, to spend some of their disposable income, which would help our economy so much?

Alun Ffred Jones: I can answer that only in terms of the work that is ongoing on making people aware that Wales exists. That is part of the campaigns that are being undertaken. One such campaign that is being run now is the Proper Holidays campaign, which aims to raise Wales's profile within the UK and internationally. We have to be careful here. Take the example of north Wales. Chester is on the route, as it were, for many international travellers. You will find that a number of them, and particularly Americans, will be travelling to or from Ireland, and they

Alun Ffred Jones: Mae llawer o waith wedi'i wneud yng Nghaerdydd, gyda datblygu'r porthladd i annog llongau mordeithio i ddod i Gaerdydd. Mae'r ffigurau'n galonogol iawn am nifer y llongau a nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'r lan. Fel yr oeddech yn nodi'n gywir ddigon, mae gwariant y pen gan y bobl sy'n cyrraedd ar longau mordeithio yn uwch na gwariant y pen ar gyfer ymwelwyr cyffredin. Maent yn ffactor pwysig. Ni wn am ddatblygiadau eraill ledled Cymru, felly, bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, mae'n wir fod Caerdydd'n gweld cynnydd, a rhagwelir y bydd nifer yr ymweliadau'n cynyddu yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Andrew R.T. Davies: I adeiladu ar y pwynt a wnaed gan yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am longau mordeithio, a dod â'r gwariant hwnnw i Gymru, rhaid mai un o'r nodau allweddol i dwristiaeth yw ceisio chwalu'r triongl i dwristiaid sy'n gwario llawer o arian, sy'n cyrraedd Llundain, yn mynd i Stratford, yn ymweld â Chaerfaddon ac yna'n teithio'n ôl i fyny'r M4 i Lundain. Mae llawer o'r gweithredwyr twristiaeth yr wyf yn siarad â hwy yng Nghymru yn cwyno ein bod yn perswadio canran mor fach o'r twristiaid hynny i ymestyn eu gwyliau i gynnwys Cymru, neu'n sicrhau bod Cymru yn rhan o'u hymweliad. Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd, ar y cyd ag awdurdodau twristiaeth ledled y Deyrnas Unedig, i ddarbwylllo twristiaid i ystyried Cymru'n gyrcfan ddichonadwy ar gyfer gwyliau plaserus yn y Deyrnas Unedig, ac yn anad dim, i wario rhywfaint o'u hincwm gwario yma, a fyddai'n helpu ein heconomi gymaint?

Alun Ffred Jones: Dim ond o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o fodolaeth Cymru y gallaf ateb y cwestiwn hwnnw. Mae hynny'n rhan o'r ymgyrchoedd sy'n mynd ymlaen. Un ymgyrch o'r fath sy'n digwydd ar hyn o bryd yw'r ymgyrch Gwyliau Go Iawn, sy'n ceisio codi proffil Cymru o fewn y DU ac yn rhyngwladol. Rhaid inni fod yn ofalus yma. Ystyriwch y gogledd, er enghraifft. Mae Caer ar y ffordd, fel petai, i nifer o deithwyr rhyngwladol. Fe welwch y bydd nifer ohonynt, Americanwyr yn enwedig, yn

travel through north Wales. Unfortunately, it is very difficult to get them to stop for any length of time. They will visit an attraction on the way, but they usually stay for only an hour or so and their spend is very low. So, getting tourists to come to Wales for a brief period and then leave is probably not worth the candle. You must attract them to stay in Wales, and for that to happen you need major attractions. You also need hotels that offer the sort of accommodation that they need. In that sense, there is a huge amount of work for us to do to ensure that Wales is on the map for that sort of tourist.

There are other sorts of tourist from Europe who have a greater understanding of the cultural attractions of Wales, and they are coming here, although not in increasing or sufficient numbers. However, our task is to make it easier to attract them. One of the elements of that is the development of Cardiff Airport, which you have mentioned on a number of occasions.

Gareth Jones: Gan ddilyn yr ateb a roesoch i Lorraine Barrett ynghylch y mordeithiau a phorthladd Caergybi, yr wyf yn derbyn y pwynt yr ydych wedi ei wneud mai un peth yw denu'r ymwelwyr hyn i ogledd Cymru, ond peth arall yw sicrhau eu bod yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol. Nid oes gennym fawr o ffigurau, hyd y gwn i, i egluro i ba raddau y mae hynny'n digwydd. Gwnaethoch gyfeirio at y ffaith fod gennych waith i'w wneud i sicrhau bod rhyw fath o strategaeth fel bod popeth yn gwau at ei gilydd. A ydych yn debygol o edrych ar hyn yn y dyfodol agos? Os ydych, a fydddech yn fodlon rhoi adroddiad byr i'r Senedd?

Alun Ffred Jones: Yr oedd cyfarfod o'r fforwm yng ngogledd Cymru ym mis Rhagfyr, os yr wyf yn cofio'n iawn, ac y mae datblygiadau o'r cyfarfod hwnnw. Dengys y ffigurau diweddaraf y bydd dwywaith cymaint o longau'n dod i Gaergybi yn 2010 nac a ddaeth yn 2009.

2.20 p.m.

Mae'r adroddiadau hefyd yn dangos bod y

teithio i Iwerddon neu oddi yno ac yn teithio drwy'r gogledd. Yn anffodus, mae'n anodd iawn eu darbwyllo i aros am gyfnod. Byddant yn ymweld ag atyniad ar y ffordd, ond am awr neu ddwy'n unig y byddant yn aros fel rheol, ac ychydig iawn y byddant yn ei wario. Felly, mae'n debyg nad yw cael twristiaid i ddod i Gymru am gyfnod byr cyn ymadael eto yn werth yr ymdrech. Rhaid ichi eu denu i aros yng Nghymru, ac er mwyn i hynny ddigwydd mae angen ichi gael atyniadau mawr. Mae angen hefyd ichi gael gwystai sy'n cynnig y math o lety y mae arnynt ei angen. Yn yr ystyr hwnnw, mae gennym lawer iawn o waith i'w wneud i sicrhau bod Cymru ar y map i'r math hwnnw o ymwelydd.

Mae yna fathau eraill o ymwelwyr o Ewrop sy'n deall atyniadau diwylliannol Cymru yn well, ac maent yn dod yma, er nad yw eu niferoedd yn cynyddu nac yn ddiagonol. Fodd bynnag, ein tasg ni yw ei gwneud yn haws i'w denu. Un o'r elfennau yn hynny yw datblygu Maes Awyr Caerdydd, yr ydych wedi sôn amdano droeon.

Gareth Jones: Following the reply that you gave to Lorraine Barrett regarding cruise ships and the port of Holyhead, I accept the point which you made that it is one thing to attract these visitors to north Wales, but it is another to ensure that they give the local economy a big boost. We have very few figures, as far as I know, to detail the extent to which that is happening. You referred to the fact that you have work to do to ensure that there is some kind of strategy in place so that everything is interwoven. Are you likely to look at that in the near future? If so, would you be willing to make a brief report to the Senedd?

Alun Ffred Jones: There was a meeting of the forum in north Wales in December, if my memory serves me, and there are developments from that meeting. The latest figures demonstrate that twice as many ships are to dock in Holyhead in 2010 as compared to 2009.

The reports also indicate that the ships are

llongau yn fwy, ac felly, bod mwy o bobl yn teithio arnynt. Mae'r ffigurau ar gyfer 2011 hefyd yn awgrymu y bydd cynnydd pellach. Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod y bobl a ddaw ar y llongau teithio hynny yn gwario hyd at £60 y pen ar gyfartaledd a bod hynny, ar hyn o bryd, yn 2010, yn cyfateb i gyfraniad o ryw £0.75 miliwn i economi'r gogledd-orllewin a gogledd Cymru gan eu bod yn teithio ar fysys i weld atyniadau ar hyd a lled y gogledd.

bigger and, therefore, that more people are travelling on them. The figures for 2011 also suggest that there will be further increases. It is currently estimated that the people who arrive on those cruise ships spend up to £60 per head on average and currently, in 2010, that corresponds to a contribution of about £0.75 million to the economy of north-west and north Wales because they travel on coaches to visit attractions across north Wales.

Twristiaeth

Tourism

C3 Paul Davies: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddenu twristiaid i'r gorllewin? OAQ(3)1140(HER)

Q3 Paul Davies: What steps is the Welsh Assembly Government taking to attract tourists to west Wales? OAQ(3)1140(HER)

Alun Ffred Jones: Yr ydym wedi dyrannu £700,000 i Bartneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru eleni ar gyfer hyrwyddo a datblygu ei blaenoriaethau o ran twristiaeth ranbarthol sydd yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cenedlaethol. Yr ydym hefyd yn helpu partneriaethau ardaloedd marchnata bae Aberteifi, sir Benfro, sir Gaerfyrddin a bae Abertawe.

Alun Ffred Jones: We have allocated £700,000 to the South West Wales Tourism Partnership this year for the promotion and development of its regional tourism priorities, which are aligned to our national priorities. We are also supporting the partnerships in the Cardigan bay, Pembrokeshire, Carmarthenshire and Swansea bay marketing areas.

Paul Davies: Fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, yr ydym oll yn ymwybodol o bwysigrwydd Cwpan Ryder i Gymru a bydd hyn yn gyfle inni farchnata Cymru a'i chyfleusterau arbennig i'r byd. Mae'n bwysig inni sicrhau bod pob cwr o Gymru yn elwa ar ddigwyddiadau megis Cwpan Ryder, a gobeithiaf y bydd fy etholaeth i yn elwa ar y cynnydd mewn twristiaid, er ei bod yn un o ardaloedd gorllewinol Cymru. Er mwyn i ardaloedd o'r fath elwa ar ddigwyddiadau o'r fath, mae'n hanfodol cael system drafnidiaeth integredig. O dan yr amgylchiadau, pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog â'r Dirprwy Brif Weinidog i sicrhau gwelliant yn y system drafnidiaeth er mwyn sicrhau ein bod yn denu cymaint â phosibl o dwristiaid i Gymru?

Paul Davies: As the leader of the opposition said, we are all aware of the importance of the Ryder Cup to Wales, and this will be an opportunity for us to market Wales and its special facilities to the world. It is important that we ensure that every corner of Wales benefits from events such as the Ryder Cup, and I hope my constituency will benefit from the increase in tourism, although it is in one of Wales's most western areas. For such areas to benefit from such events, an integrated transport system is essential. Under the circumstances, what discussions has the Minister had with the Deputy First Minister to ensure an improvement in the transport system in order to ensure that we attract as many tourists as possible to Wales?

Alun Ffred Jones: Gan gydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth i'r diwydiant ymwelwyr, ni fu unrhyw drafodaethau uniongyrchol diweddar rhyngof i a'r Dirprwy Brif Weinidog ar y mater penodol hwnnw, heblaw ein bod yn gwybod bod gwelliannau arfaethedig yn y cysylltiadau rheilffordd i'r

Alun Ffred Jones: In acknowledging the importance of transport to the tourism industry, there have been no recent direct discussions between the Deputy First Minister and me on that specific matter, apart from the fact that we know that improvements to the rail links to the west are

gorllewin a ddaw â manteision amlwg i'r rhan hwnnw o'r byd. O safbwynt Cwpan Ryder yn benodol—ac nid wyf am ailadrodd fy hun—fe wyddoch y gwnaed cynnydd sylweddol yn y nifer o ymwelwyr sy'n dod i Gymru i chwarae golff. Mae hynny yn gyffredin drwy Gymru gyfan lle bo cyrsiau golff. Mae'r de-orllewin wedi bod yn rhan o'r cynnydd hwnnw.

Rhodri Glyn Thomas: O ran denu twristiaeth i dde-orllewin Cymru byddwch yn ymwybodol bod nifer o erddi yn sir Gaerfyrddin sydd yn cael eu cydnabod yn fyd-eang o ran eu pwysigrwydd. Ceir Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru, Aberglasne, sy'n hunangynhaliol i raddau helaeth, ac y mae datblygiadau ym Mharc Dinefwr ac yn Nhŷ Newton. Erbyn hyn, y mae ceisiadau i geisio datblygu'r plasty yng Ngelli-aur. A ydych yn ymwybodol o unrhyw strategaeth i ddod â'r lleoliadau hyn at ei gilydd ac i'w marchnata fel mannau ar gyfer twristiaeth? A oes gobaith y byddwch chi, fel Gweinidog, a'ch adran yn barod i gydweithredu â'r awdurdod lleol a'r partneriaethau twristiaeth i sicrhau bod hynny'n digwydd?

Alun Ffred Jones: Mae hynny'n debygol iawn. Nid wyf yn ymwybodol o bartneriaeth ar hyn o bryd, ond y mae'r arian a ddaeth o Ewrop ar gyfer y prosiect marchnata digidol yn benodol yn rhoi cyfleoedd i atyniadau ddod at ei gilydd. Fe'u hanogir i ddod at ei gilydd er mwyn paratoi cynlluniau marchnata ar y cyd. Mae'r arian hwnnw yn benodol ar gyfer datblygu sgiliau, ac ar gyfer datblygu gwefannau ac ymgyrchoedd marchnata. Tybiaf mai'r rhwydwaith y cyfeiriasoch ato yw'r union fath o rwydwaith a allai elwa ar y cynllun marchnata digidol. Felly, os oes gennych unrhyw ddylanwad fel Aelod—er, yn sicr, y mae gennych ddylanwad—dylech ei ddefnyddio i annog perchnogion neu ymddiriedolwyr y safleoedd hyn i gydweithio er mwyn creu clwstwr, efallai, a fyddai'n ei gwneud yn llawer haws i farchnata ymhell er mwyn denu ymwelwyr.

Treftadaeth Ddiwydiannol

C4 Bethan Jenkins: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer treftadaeth

proposed, which will bring obvious benefits to that part of the world. On the Ryder Cup specifically—and I do not wish to repeat myself—you know that there has been a significant increase in the number of visitors who come to Wales to play golf. That is happening throughout Wales where there are golf courses. The south-west has been a part of that expansion.

Rhodri Glyn Thomas: On the issue of attracting tourism to south-west Wales, you will be aware that several gardens in Carmarthenshire are acknowledged across the world for their importance. There is the National Botanic Garden of Wales, which receives support from the Welsh Government, Aberglasne, which is mostly self-sufficient, and there are developments at Dinefwr Park and Newton House. By now, there are applications to develop the mansion house in Gelli-aur. Are you aware of any strategy to bring these locations together and to market them as tourist attractions? Is there any hope that you, as Minister, and your department would be willing to co-operate with the local authority and the tourism partnerships to ensure that that happens?

Alun Ffred Jones: That is very likely. I am not aware of a partnership at the moment, but the money from Europe for the digital marketing project specifically offers opportunities for attractions to come together. They are encouraged to come together to prepare joint marketing plans. That money is specifically for the development of skills, and the development of websites and marketing campaigns. I presume that the network to which you referred is exactly the kind of network that could benefit from the digital marketing plan. So, if you have any influence as a Member, which I am certain you do, you should use it to encourage the owners or trustees of these places to co-operate possibly to create a cluster, which would make it much easier to market them widely in order to attract visitors.

Industrial Heritage

Q4 Bethan Jenkins: Will the Minister make a statement on funding for industrial heritage

ddiwydiannol yng Nghymru? in Wales? OAQ(3)1138(HER)
 OAQ(3)1138(HER)

Alun Ffred Jones: Mae hanes diwydiannol Cymru yn elfen allweddol o'n treftadaeth. Darperir amddiffyniad statudol ar gyfer 1,000 o strwythurau diwydiannol. Mae nifer o grantiau Llywodraeth y Cynulliad ar gael, gan gynnwys rhai gan Cadw, y rhaglen Blaenau'r Cymoedd ar gyfer cadwraeth ac adfywio, a chan sefydliadau megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Bethan Jenkins: Weinidog, byddwch yn ymwybodol fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi gwahodd datblygwyr i dendro am safle Copperopolis yn y ddinas, ond mae'n rhagweld y bydd hyn yn cymryd peth amser. Yn y cyfamser, a all y Llywodraeth yng Nghymru gymryd unrhyw gamau i amddiffyn y Musgrave, sef peiriant hanesyddol sydd yr olaf o'i fath yn y byd, sydd ar safle gwaith copr Hafod yn ninas Abertawe?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn ymwybodol fod cyngor Abertawe wedi gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn y safle diwydiannol hynod o bwysig hwn ar gyrion y ddinas. Deallaf fod y gwaith copr yn dathlu ei ddauganmlwyddiant yn 2010. Fodd bynnag, gofynasoch yn benodol ynglŷn â'r peiriant hwnnw. Mater i berchnogion y safle yw gwneud cais am unrhyw gymorth, a byddai cais o'r fath yn cael ei ystyried yn llawn gan Cadw neu unrhyw gorff arall sydd â diddordeb mewn cynnal ein treftadaeth ddiwydiannol.

David Melding: Minister, do you agree that a strategy needs to identify our most significant industrial sites, and, in particular, that it has to try to convert them for alternative uses or make them effective tourist attractions? That is not easy, but if we were to concentrate our resources, we could at least preserve a cross-section of interesting industrial heritage sites, which people will visit. If these attractions or buildings do not have an active use today, it is very difficult to preserve them for the long-term future.

Alun Ffred Jones: I would agree. The

Alun Ffred Jones: Wales's industrial legacy is a key element in our heritage. Over 1,000 industrial structures have statutory protection. A number of Assembly Government grants is available, including from Cadw, the Heads of the Valleys programme for conservation and regeneration, and from organisations such as the Heritage Lottery Fund.

Bethan Jenkins: Minister, you will be aware that the City and County of Swansea has invited developers to tender for the Copperopolis site in the city, but it foresees that this will take some time. In the meantime, can the Government of Wales take any action to protect the Musgrave, a historical engine which is the last of its kind, on the Hafod copper works site in the city of Swansea?

Alun Ffred Jones: I am aware that Swansea council has invited declarations of interest in this very important industrial site on the outskirts of the city. I understand that the copper works is celebrating its two hundredth anniversary in 2010. However, you asked specifically about that engine. It is for the owners of the site to make an application for support, and such an application would be considered in full by Cadw or any other body interested in supporting our industrial heritage.

David Melding: Weinidog, a ydych yn cytuno bod angen i strategaeth glustnodi ein safleoedd diwydiannol pwysicaf, ac yn benodol ei bod yn rhaid iddi geisio'u haddasu i'w defnyddio fel arall neu eu troi'n atyniadau effeithiol i ymwelwyr? Nid yw hynny'n hawdd, ond pe baem yn canolbwyntio'n hadnoddau gallem o leiaf gadw croestoriad o safleoedd o ddiddordeb treftadaeth ddiwydiannol y bydd pobl yn ymweld â hwy. Os nad yw'r atyniadau neu'r adeiladau hyn wrthi'n cael eu defnyddio heddiw, mae'n anodd iawn eu cadw ar gyfer y dyfodol hirdymor.

Alun Ffred Jones: Byddwn yn cytuno. Mae

experience of Blaenavon suggests that we can make a success of such sites. Although Big Pit comes under the aegis of National Museum Wales, whereas the ironworks comes under the aegis of Cadw, they do work together and there is no reason why that could not be replicated elsewhere. I fully agree that concentrating on the better sites is the only way forward. If you consider the history of the Blaenavon ironworks, it has taken many years for that to be brought to a situation in which it could be regarded as a visitor attraction. In fact, a great deal more work needs to be done there in order to maximise its impact on the town and the surrounding area. Big Pit seems to have a built-in advantage in that respect. Therefore, I agree with what you say, but identifying those sites and making sure that we have the resources to develop them is a huge challenge, especially given the pressing financial situation in which we will find ourselves for the next three or four years.

Adeiladau Hanesyddol

C5 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(3)1147(HER)

Alun Ffred Jones: Mae gwarchod adeiladau hanesyddol yn flaenoriaeth yn fy natganiad strategol ar yr amgylchedd hanesyddol. Maent yn cael eu diogelu gan ddyodiadau statudol a grantiau a gynigir gan Lywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill ar gyfer cynlluniau adfer neu adfywio, yn aml gan ddarparu manteision o ran adfywio a gwneud lles i'r gymuned. Mae gan awdurdodau lleol bwerau ar gyfer adeiladau rhestredig yn eu hardal.

2.30 p.m.

Eleanor Burnham: Pa fath o fonitro sy'n digwydd i sicrhau bod ein adeiladau hanesyddol yn cael arolygon strwythurol cyson?

Alun Ffred Jones: Mae arolygon yn digwydd yn gyson ar hyd a lled Cymru, yn enwedig pan fydd awdurdodau lleol yn dwyn adeiladau i sylw Cadw, sydd â swyddogion penodol ar gyfer y math hwn o waith. Mae

profiad Blaenafon yn awgrymu y gallwn sicrhau llwyddiant ar gyfer safleoedd o'r fath. Er bod y Pwll Mawr dan nawdd Amgueddfa Cymru a'r gwaith haearn dan nawdd Cadw, maent yn cydweithio â'i gilydd, ac nid oes rheswm pam na ellid ailadrodd hynny rywle arall. Yr wyf yn cytuno'n llwyr mai canolbwyntio ar y safleoedd gwell yw'r unig ffordd ymlaen. Os ystyriwch hanes gwaith haearn Blaenafon, cymerodd flynyddoedd lawer i greu sefyllfa lle gellid ei ystyried yn atyniad i ymwelwyr. Mewn gwirionedd, mae angen gwneud llawer iawn o waith yno i wneud y gorau o'i effaith ar y dref a'r ardal gyfagos. Ymddengys fod gan y Pwll Mawr fantais gynhenid yn hynny o beth. Yr wyf yn cytuno â'r hyn yr ydych yn ei ddweud, felly, ond mae clustnodi'r safleoedd hynny a sicrhau bod gennym yr adnoddau i'w datblygu yn her enfawr, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol enbyd y byddwn ynnddi am y tair neu bedair blynedd nesaf.

Historic Buildings

Q5 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the protection of historic buildings in Wales? OAQ(3)1147(HER)

Alun Ffred Jones: Protection of historic buildings is a priority in my historic environment strategic statement. They are safeguarded by statutory designation and grants offered by the Assembly Government and other partners for restoration or conservation schemes, often with regeneration or community benefit. Local authorities have powers over listed buildings in their areas.

Eleanor Burnham: What kind of monitoring is undertaken to ensure that our historic buildings undergo regular structural surveys?

Alun Ffred Jones: Surveys take place regularly throughout Wales, especially when local authorities refer buildings to Cadw, which has dedicated officers for that kind of work. Cadw is able to offer grants and advice

Cadw yn gallu cynnig grantiau a chyngor i berchnogion yr adeiladau hyn. Mae 30,000 o adeiladau o bob math wedi'u gwarchod drwy eu rhestru, ond nid yw rhestru ynddo'i hun yn gwarchod adeilad. Mae'r her y cyfeiriwyd ati eisoes i geisio cael defnydd cynaliadwy i'r adeiladau hyn yn un aruthrol. Nid yw adfer yr adeilad ynddo'i hun yn ddigon, fel y gwyddom, oherwydd os yw'r adeilad yn aros yn wag, bydd yn dirywio unwaith eto. Dyna'r her inni i gyd, ac mae Cadw yn awyddus i gydweithio â phartneriaid a grwpiau lleol sy'n awyddus ac yn barod i gymryd y cyfrifoldeb am y safleoedd hyn.

Eleanor Burnham: Os yw grantiau ar gael, byddwn yn ddiolchgar dros ben am eich cefnogaeth a'ch cyngor, gan fod llawer o'n adeiladau hanesyddol, sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol ac yn lleol, fel y dywedaso, wedi dirywio. Esiampl o hyn yw gorsaf amddiffyn pyllau glo gogledd Cymru yn Wrecsam. Hyd y deallaf, mae'r adeilad yn gadarn yn strwythurol ond mae wedi'i benodi i gael ei ddimchwel, sydd yn bechod ym marn y bobl sydd wedi bod yn fy lobïo, oherwydd bod potensial i gael safle treftadaeth yno yn y dyfodol. A ydych yn cyd-weld y dylai adeiladau fel hyn gael statws rhestredig, ac a ydych yn gallu rhoi cefnogaeth a chyngor imi i'w rhoi i'r grwpiau sydd wedi bod yn fy lobïo?

Alun Ffred Jones: Gan eich bod wedi gofyn am adeilad penodol, rhaid imi ysgrifennu atoch gan nad oes gennyf wybodaeth arbennig am yr adeilad hwnnw, er fy mod yn credu bod y diweddar Tom Ellis wedi ysgrifennu amdano mewn cylchgrawn yn ystod y misoedd diwethaf yn tynnu sylw at ei arwyddocâd hanesyddol. Felly, byddaf yn cysylltu â chi gyda'r ateb hwnnw.

Chris Franks: Minister, what recent discussions have you had regarding the Penarth pier project? I am grateful that you took the trouble to visit the site some time ago. Will you discuss with Vale of Glamorgan Council what further support could be provided for this pavilion scheme? The project would benefit the local community and tourism. Could a study be undertaken regarding the job opportunities for the area if the project goes ahead? Further, there is a great deal of support in the

to the owners of these buildings. A total of 30,000 buildings have been protected by being afforded listed status, but listing alone does not protect a building. The challenge already mentioned of trying to find a sustainable use for these buildings is immense. Restoration alone is not enough, as we know, because the building will deteriorate again if allowed to stand empty. That is the challenge to each and every one of us, and Cadw is keen to work with partners and local groups that are ready and willing to take responsibility for these sites.

Eleanor Burnham: If grants are available, I should be very grateful for your support and advice, given that many of our historic buildings, which are significant both culturally and locally, as you said, have deteriorated. An example of this is the north Wales mines rescue station in Wrexham. As I understand it, the building is structurally sound, but it has been designated for demolition, which is a shame in the view of those who have been lobbying me, because there is potential for a heritage site there in the future. Do you agree that such buildings should be afforded listed status, and can you give me advice and support which I can pass on to the groups that have been lobbying me?

Alun Ffred Jones: Given that you have asked about a specific building, I will have to write to you, because I have no specific knowledge of that building, although I believe that the late Tom Ellis wrote about it in a journal in recent months, drawing attention to its historical significance. Therefore, I shall contact with you with that reply.

Chris Franks: Weinidog, pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael yn ddiweddar am brosiect pier Penarth? Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ymdrechu i ymweld â'r safle ychydig amser yn ôl. A wnewch chi drafod gyda Chyngor Bro Morgannwg pa gymorth pellach y gellid ei ddarparu ar gyfer y cynllun hwn sy'n ymwneud â'r pafiliwn? Byddai'r prosiect yn fuddiol i'r gymuned leol ac i dwristiaeth. A ellid gwneud astudiaeth o'r cyfleoedd gwaith i'r ardal pe bai'r prosiect yn mynd rhagddo? Yn ogystal, mae llawer iawn

town of Barry for the creation of a town museum. Can you offer support for that project?

Alun Ffred Jones: Penarth Arts and Crafts Ltd achieved a round 1 award of £99,000 of development funding from the Heritage Lottery Fund for the Penarth pier pavilion project in 2009. It is currently undertaking a period of development work before submitting a round 2 application, which is expected in the autumn. There is little more that I can say at the moment regarding that scheme.

I am aware that there is movement in Barry to create a local town museum, as there is not one at the moment. I have recently had several letters regarding the proposal. My officials in CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales have been in contact with the local authority about a feasibility study.

Darren Millar: Minister, you will be aware that some demolition work has commenced on the Plas Dulas historic site in Llanddulas in my constituency, a site that I have fought for and campaigned to protect. I regret very much the decision that was taken by Cadw not to list that property. What are your plans to review the listing process in Wales? What guidance could you issue to local government, in conjunction with the Minister for local government, to give local authorities a role in protecting historic buildings of local, rather than national, interest, which is currently the case with the national listing programme?

Alun Ffred Jones: Technically, there is nothing to stop local government from taking responsibility for any building that is in a state of disrepair, but there is ongoing work to review our processes regarding listing. When that is announced, we will no doubt have a robust debate about it to see whether there are improvements or actions that can be taken that may assist situations such as that to which you referred. I know that you campaigned vigorously for it and I commend you for doing so, but, inevitably, not every campaign will be successful.

o gefnogaeth yn nhref y Barri i greu amgueddfa i'r dref. A allwch gynnig cefnogaeth i'r prosiect hwnnw?

Alun Ffred Jones: Enillodd Penarth Arts and Crafts Ltd ddyfarniad rownd 1, sef £99,000 o gyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ar gyfer prosiect pafiliwn pier Penarth yn 2009. Ar hyn o bryd, mae'n ymgymryd â chyfnod o waith datblygu cyn cyflwyno cais rownd 2, a ddisgwylir yn yr hydref. Ni allaf ddweud llawer mwy ar hyn o bryd am y cynllun hwnnw.

Gwn fod awydd yn y Barri i greu amgueddfa leol i'r dref, am nad oes un yno ar hyn o bryd. Cefais nifer o lythyrau'n ddiweddar am y cynnig. Mae fy swyddogion yn CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ynghylch astudiaeth ddichonoldeb.

Darren Millar: Weinidog, byddwch yn gwybod bod rhywfaint o waith dymchwel wedi dechrau ar safle hanesyddol Plas Dulas yn Llanddulas yn fy etholaeth, safle yr wyf wedi brwydro drosto ac wedi ymgyrchu i'w ddiogelu. Yr wyf yn gresynu'n fawr at benderfyniad Cadw i beidio â rhestru'r eiddo hwnnw. Beth yw eich cynlluniau i adolygu'r broses restru yng Nghymru? Pa arweiniad y gallech ei gyhoeddi i lywodraeth leol, ar y cyd â'r Gweinidog dros lywodraeth leol, i roi rôl i awdurdodau lleol wrth ddiogelu adeiladau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol yn hytrach na chenedlaethol, oherwydd mae iddynt rôl ar hyn o bryd yn y rhaglen restru genedlaethol?

Alun Ffred Jones: Yn dechnegol, nid oes dim i rwystro llywodraeth leol rhag cymryd cyfrifoldeb am unrhyw adeilad sydd mewn cyflwr gwael, ond mae gwaith ar droed i adolygu ein prosesau ynghylch rhestru. Pan gyhoeddir yr adolygiad, mae'n siŵr y cawn ddadl gadarn arno i weld a oes camau gweithredu y gellir eu cymryd neu welliannau y gellir eu gwneud ac a allai helpu sefyllfaoedd tebyg i'r un y cyfeiriech ati. Gwn ichi ymgyrchu'n frwd dros y safle dan sylw, ac yr wyf yn eich canmol am wneud hynny, ond mae'n anochel na fydd pob ymgyrch yn llwyddiannus.

National Eisteddfod of Wales

Q6 William Graham: Will the Minister make a statement on the 2010 National Eisteddfod of Wales? OAQ(3)1136(HER)

Alun Ffred Jones: This year will be the first time since 1958 that the National Eisteddfod of Wales has been held in Ebbw Vale. I have been very encouraged by how positively the people of Blaenau Gwent have reacted to the eisteddfod, and I am confident that this year's will be very successful.

William Graham: Thank you very much for your answer, Minister, but you will be aware of today's news that unemployment in Wales now stands at 133,000, which underlines the importance of maximising the economic and social opportunities offered by signature events, such as this year's eisteddfod. How is the Assembly Government's major events unit working with organisers to ensure the greatest possible use and presence of local businesses and employers on the *maes*, so that the anticipated 160,000 visitors leave with an awareness of the skills and potential of people and businesses in Ebbw Vale and the Heads of the Valleys?

Alun Ffred Jones: As you know, our major events strategy is out for consultation, and one of the priorities in that strategy is to maximise the economic impact of any event that receives support. The document is thorough and well thought out, and it seeks to ensure that all events supported by public money bring a benefit to the people living where those events are held and further abroad. I understand that the national eisteddfod estimates that the value so far of contracts set locally is approximately £350,000, and I am delighted to learn that the eisteddfod has already brought an economic boost to the area, not to mention the promotion that it has given the Welsh language and culture. I have visited the site and it is a dramatic site, in many ways, as you well know. I have no doubt that the people who visit will leave with a positive image and experience of Ebbw Vale.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

C6 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2010? OAQ(3)1136(HER)

Alun Ffred Jones: Eleni fydd y tro cyntaf er 1958 i Eisteddfod Genedlaethol Cymru gael ei chynnal yng Nglynebwy. Fe'm calonogwyd yn fawr gan ymateb cadarnhaol pobl Blaenau Gwent i'r eisteddfod, ac yr wyf yn hyderus y bydd yr eisteddfod eleni'n llwyddiannus iawn.

William Graham: Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog, ond byddwch yn ymwybodol o'r newyddion heddiw, sef bod diweithdra yng Nghymru bellach yn 133,000, sy'n tanlinellu pwysigrwydd gwneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd a chymdeithasol a gynigir gan ddigwyddiadau unigryw, megis yr eisteddfod eleni. Sut mae uned digwyddiadau mawr Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r trefnwyr i sicrhau bod busnesau a chyflogwyr lleol yn bresennol ar y maes ac yn cael eu defnyddio gymaint ag sy'n bosibl, er mwyn i'r 160,000 o ymwelwyr a ddisgwylir yn gadael gydag ymwybyddiaeth o'r sgiliau a'r potensial sydd gan bobl a busnesau Glynebwy a Blaenau'r Cymoedd?

Alun Ffred Jones: Fel y gwyddoch, mae ein strategaeth ar ddigwyddiadau mawr yn destun ymgynghoriad, ac un o'r blaenoriaethau yn y strategaeth yw gwneud y gorau o effaith economaidd unrhyw ddigwyddiad sy'n cael cymorth. Mae'r ddogfen yn un drylwyr sydd wedi'i hystyried yn ofalus, ac mae'n ceisio sicrhau bod pob digwyddiad a gefnogir gan arian cyhoeddus yn esgor ar fudd i drigolion yr ardaloedd lle cynhelir y digwyddiadau hynny, a thu hwnt. Deallaf fod yr eisteddfod genedlaethol yn amcangyfrif bod gwerth y contractau a osodwyd yn lleol hyd yn hyn oddeutu £350,000, ac yr wyf yn falch clywed bod yr eisteddfod eisoes wedi rhoi hwb economaidd i'r ardal, heb sôn am hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Yr wyf wedi ymweld â'r safle, ac mae'n safle dramatig mewn llawer ffordd, fel y gwyddoch yn iawn. Nid oes amheuaeth gennyf na fydd yr ymwelwyr yn gadael gyda delwedd a

phrofiad cadarnhaol o Lynebwy.

Bethan Jenkins: Yn eisteddfod y llynedd, bu imi siarad â gweithwyr ieuenctid a oedd yn ceisio cael gostyngiad ar eu tocyn i'r maes, ond nid oedd un ar gael iddynt. O ystyried y gwaith caled y mae gweithwyr ieuenctid yn ei wneud yn y gymuned, er nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg, a oes modd rhoi rhyw ostyngiad iddynt, fel eu bod yn gallu cael mynd i eisteddfod Blaenau Gwent a gweld diwylliant nad ydynt eto wedi cael profiad ohono?

Alun Ffred Jones: Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r eisteddfod wedi gofyn i ni sicrhau mynediad i'r maes am ddim am un diwrnod. Caniatawyd hynny, ac mae'r cynllun wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus—er na ddywedaf yn 'rhy' lwyddiannus. Mae hynny wedi'i gyfyngu i bobl Blaenau Gwent, felly mae 100 croeso i weithwyr ieuenctid a phawb arall o'r ardal fanteisio ar y cynnig hwnnw. Mawr obeithiaf y bydd y profiad hwnnw o'r maes yn eu hannog i ddychwelyd.

2.40 p.m.

Nid wyf yn credu ei fod yn ymarferol rhoi mynediad am ddim i grwpiau penodol o bobl, er gwaethaf y dadleuon ac mor haeddiannol y maent, ond mae'r cynllun mynediad am ddim ym Mlaenau Gwent yn sicr wedi profi yn un rhyfeddol o boblogaidd, a chredaf fod hynny'n argoeli'n dda iawn i'r eisteddfod.

Sporting Events

Q7 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on how the Welsh Government is promoting sporting events in Wales? OAQ(3)1134(HER)

Alun Ffred Jones: Wales has attracted and hosted a number of major sporting events, including the 1999 Rugby World Cup and the 2009 Ashes series test match, and it will host the 2010 Ryder Cup. On 7 April, we launched our major events strategy for consultation, in which we set out how we plan to build on that success over the next 10 years.

Bethan Jenkins: At last year's eisteddfod, I spoke to youth workers who were trying to secure a discount on their ticket for the *maes*, but no discounts were available. Given the hard work which youth workers do in the community, even though most do not speak Welsh, would it be possible to secure a discount for them, so that they can attend the Blaenau Gwent eisteddfod to get a taste of a culture which they have not previously experienced?

Alun Ffred Jones: The Welsh Language Board and the eisteddfod have asked us to secure free access to the *maes* for one day. That has been allowed, and the scheme has been very successful—although I will not say 'too' successful. That has been restricted to the people of Blaenau Gwent, so there is a warm welcome for any youth workers or anyone else from the area to take advantage of that offer. I sincerely hope that that experience of the *maes* will encourage them to return.

I do not believe that it is practical to offer free entry to specific groups of people, despite the arguments and however deserving they are of it. However, the free entry scheme in Blaenau Gwent has certainly proved to be extremely popular, and I believe it augurs well for the eisteddfod.

Digwyddiadau Chwaraeon

C7 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)1134(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Cymru wedi denu a chynnal nifer o ddigwyddiadau mawr ym maes chwaraeon, gan gynnwys Cwpan Rygbi'r Byd yn 1999 a gêm brawf cyfres y Llundw yn 2009, a bydd yn cynnal y Cwpan Ryder yn 2010. Ar 7 Ebrill lanswyd ein strategaeth digwyddiadau mawr i ymgynghori yn ei chylch, ac ynnddi yr ydym yn egluro sut y bwriadwn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw yn ystod y 10 mlynedd

nesaf.

Mark Isherwood: Following your announcement of the 10-year plan last month to promote Wales as a destination for sporting, musical and cultural events, I received an e-mail from a constituent in north Wales, who said—although I will not read it all out—that

‘as a resident of north Wales I trust that you will endeavour to ensure that these mega-events are not simply restricted to south Wales. I would like the north to get its fair share of any signature events that the Assembly Government is endeavouring to bring into the country.’

What assurances can you provide to my constituent?

Alun Ffred Jones: If you read the major events strategy document, you will see that one of its aims is to ensure that all parts of Wales receive benefits from this sort of investment from the public purse. That is very important. South-east Wales—and Cardiff specifically—has all sorts of advantages that mean that significant events will come to this part of the world. Some of those events can only go to a city such as Cardiff, given its advantages. However, having said that, it is important that we, as a Government, serve all parts of Wales, which is why the strategy makes it plain that we aim to develop and support events in all parts of Wales. As it happens, there will be a launch later today of the Faenol Festival, which will be held in Bangor, and, in a week and a half’s time, the Big Weekend will also be held in the Faenol, with support from the BBC, and Cyngor Gwynedd also playing its part. It has already had beneficial effects, such as the number of hits on the website for north-west Wales and north Wales in general. In fact, the figures are dramatic, and I hope to be able to report on them to the Assembly at a later date, when they have all been collated.

Helen Mary Jones: Weinidog, wrth adeiladu ar y llwyddiant yr ydym wedi’i gael hyd yn hyn o ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr

Mark Isherwood: Yn dilyn cyhoeddi’r cynllun 10 mlynedd fis diwethaf i hyrwyddo Cymru fel cychfan ar gyfer digwyddiadau ym maes chwaraeon a digwyddiadau cerddorol a diwylliannol, cefais neges e-bost gan etholwr yn y gogledd, a ddywedodd—nid wyf am ddarllen y cyfan allan—

fel un o drigolion y gogledd hyderaf y byddwch yn ymdrechu i sicrhau na fydd y digwyddiadau mawr hyn wedi’u cyfyngu i’r de yn unig. Hoffwn weld y gogledd yn cael cyfran deg o unrhyw ddigwyddiadau unigryw y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i’w denu i’r wlad.

Pa sicrwydd y gallwch ei roi i’r hetholwr?

Alun Ffred Jones: O ddarllen dogfen y strategaeth ar ddigwyddiadau mawr, fe welwch mai un o’i nodau yw sicrhau bod pob rhan o Gymru’n elwa o’r math hwn o fuddsoddiad o bwrs y wlad. Mae hynny’n bwysig iawn. Mae gan y de-ddwyrain—a Chaerdydd yn benodol—bob math o fanteision sy’n golygu y bydd digwyddiadau mawr yn dod i’r rhan hon o’r byd. Dim ond i ddinas fel Caerdydd, o ystyried ei manteision, y gall rhai o’r digwyddiadau hynny fynd. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae’n bwysig ein bod ni, fel Llywodraeth, yn gwasanaethu pob rhan o Gymru, a dyna pam y mae’r strategaeth yn nodi’n glir ein bod yn bwriadu datblygu a chefnogi digwyddiadau ym mhob rhan o Gymru. Fel y mae’n digwydd, bydd gŵyl y Faenol, a gynhelir ym Mangor, yn cael ei lansio’n ddiweddarach heddiw, ac ymhen wythnos a hanner cynhelir y Penwythnos Mawr yn y Faenol hefyd, gyda chymorth gan y BBC, ac mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gwneud ei ran. Gwelwyd effeithiau buddiol hynny eisoes, megis nifer y trawiadau ar y wefan ar gyfer y gogledd-orllewin a’r gogledd yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, mae’r ffigurau’n ddramatig, a gobeithio y bydd modd imi adrodd yn ôl arnynt i’r Cynulliad yn ddiweddarach pan fyddant i gyd wedi’u casglu.

Helen Mary Jones: Minister, building on our success to date in attracting major sporting events to Wales, how can the

i Gymru, sut y gall y Llywodraeth sicrhau bod y bobl sy'n dod i'r math hwn o ddigwyddiad hefyd yn cael y cyfle i ddysgu am bethau fel y cae rasio newydd yn Ffos Las? Gallech ddychmygu y bydd rhai o'r *cliente* sy'n dod i Gwpan Ryder efallai â diddordeb mewn mynd i Ffos Las yn y dyfodol. I ba raddau yr ydych, fel Llywodraeth, yn gallu hybu ymwybyddiaeth pobl o'r atyniadau a'r digwyddiadau hynny, er mwyn i'r bobl sy'n dod mewn niferoedd mawr i bethau fel gêm brawf y Llundw a Chwpan Ryder ddysgu mwy am y pethau eraill sydd gennym i'w cynnig?

Alun Ffred Jones: Credaf fod honno'n her i ni fel Llywodraeth, ac mae Croeso Cymru yn ymwybodol o hynny. Dylem ddefnyddio pob dull posibl o hyrwyddo atyniadau eraill, ac nid wyf yn credu ein bod ar hyn o bryd wedi gwneud hynny mewn ffordd digon systematig, hyd yn oed o fewn safleoedd sydd o dan ofal uniongyrchol, neu anuniongyrchol, y Llywodraeth, ac yn sicr o fewn y digwyddiadau hynny. Fodd bynnag, os edrychwch ar y strategaeth, gwelwch ein bod yn awyddus i hybu ymwybyddiaeth ymwelwyr o'u lleoliad, o'r diwylliant a'r iaith ac o'r ffaith eu bod mewn lle arbennig. Mae hwnnw ynddo'i hun yn ffordd o hyrwyddo ein delwedd ni. O safbwynt yr atyniadau y gwnaethoch gyfeirio atynt, byddaf yn codi'r mater gyda fy swyddogion.

Brynle Williams: I am pleased to hear that the Faenol festival is going ahead. However, I wrote to you several weeks ago about another festival that is establishing itself in north Wales—Gŵyl Gobaith. I was rather disappointed by your reply that there was no funding available. I asked you whether you were in discussions with Gŵyl Gobaith; you said that you were not. Yet Gŵyl Gobaith is equally worthy of support, and is a major festival in north Wales, running over three days. Is there any way that it can be helped? As you said, the Faenol festival is going ahead. I have asked you previously for help on the Faenol festival, and money was apparently allocated to it, but I have been told that no money is available for Gŵyl Gobaith.

Alun Ffred Jones: I should make it clear that no Government funding has been

Government ensure that those attending these events are also able to learn about places such as the new racecourse at Ffos Las? You could imagine that some of the clientele attending the Ryder Cup would perhaps be interested in visiting Ffos Las at some point in the future. To what extent are you, as a Government, able to raise people's awareness of such attractions and events, so that those who come in large numbers to events such as the Ashes series test match and the Ryder Cup can learn more about the other things we have to offer?

Alun Ffred Jones: That is a challenge for us as a Government, and Visit Wales is well aware of that. We should use every tool at our disposal to promote other attractions, and I do not believe we have yet done so systematically enough, even in sites over which the Government has direct, or indirect, control, and certainly in those events. However, if you look at the strategy, you will see that we are keen to promote visitor awareness of their surroundings, of the culture and the language and of the fact that they are in a special place. That, in itself, is a way of promoting our image. As for the attractions to which you referred, I will raise the matter with my officials.

Brynle Williams: Yr wyf yn falch clywed bod gŵyl y Faenol yn mynd rhagddi. Fodd bynnag, ysgrifennais atoch wythnosau lawer yn ôl am ŵyl arall sy'n ymsefydlu yn y gogledd—Gŵyl Gobaith. Yr oeddwn braidd yn siomedig â'ch ymateb nad oedd cyllid ar gael. Gofynnais ichi a oeddech yn cael trafodaethau gyda Gŵyl Gobaith; dywedasoch nad oeddech. Eto i gyd, mae Gŵyl Gobaith yr un mor deilwng o gefnogaeth, ac mae'n ŵyl fawr yn y gogledd a gynhelir dros dridiau. A oes unrhyw ffordd y gellir ei helpu? Fel y dywedasoch, mae gŵyl y Faenol yn mynd rhagddi. Yr wyf wedi gofyn o'r blaen ichi am gymorth o ran gŵyl y Faenol, a dyrannwyd arian iddi yn ôl pob golwg, ond dywedwyd wrthyf nad oes arian ar gael ar gyfer Gŵyl Gobaith.

Alun Ffred Jones: Dylwn wneud yn glir nad yw gŵyl y Faenol wedi cael addewid o ddim

committed to the Faenol festival as yet; discussions are ongoing. With regard to Gŵyl Gobaith, I am quite happy to bring my officials' attention to your request, but you would not expect me to make any commitments here today. All events that apply for public support are treated equally and equitably according to our strategy. I am certain that, if any discussions have taken place, they would have taken place with my officials, and I will ask them for a report on those discussions.

Digital Switchover

Q8 Irene James: Will the Minister make a statement on the digital switchover in Wales? OAQ(3)1150(HER)

Alun Ffred Jones: The digital switchover was successfully completed in Wales on 31 March 2010. Wales has become the first all-digital nation. It was a project led by Digital UK, a not-for-profit organisation funded by the UK Government and public service broadcasters.

Irene James: Since the digital switchover, many of my constituents, like others, are using Freeview. However, they are unable to receive as many channels as residents in Cardiff and Newport. What discussions have you had to resolve this situation?

Alun Ffred Jones: That particular problem depends on whether they are getting their signal through a relay or through a main mast. We are aware of that situation, but there is nothing that we can do as a Government, because it is not a devolved matter, and it reflects a commercial decision as to the number of stations that are broadcast. If you are in a relay area, satellite is the best option—either Sky or the one-off payment service Freesat. That is the position, and will continue to be so, unless a commercial decision is taken to upgrade the relay station. That is based on the decision that has been taken by the UK Government.

Nick Ramsay: I want to ask you about the digital radio signal in Wales. I am not sure whether you have had any representations on this, but I certainly have via my post bag over

cyllid gan y Llywodraeth hyd yn hyn; mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt. O ran Gŵyl Gobaith, yr wyf yn ddigon bodlon tynnu sylw fy swyddogion at eich cais, ond ni fydddech yn disgwyl imi wneud dim ymrwymadau yma heddiw. Caiff pob digwyddiad sy'n gwneud cais am gymorth cyhoeddus ei trin yn gyfartal ac yn deg yn unol â'n strategaeth. Os bu unrhyw drafodaethau, yr wyf yn sicr y byddai fy swyddogion wedi bod yn rhan ohonynt, a gofynnaf iddynt am adroddiad am y trafodaethau hynny.

Newid i'r Digidol

C8 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newid i'r digidol yng Nghymru? OAQ(3)1150(HER)

Alun Ffred Jones: Cwblhawyd y newid i'r digidol yn llwyddiannus yng Nghymru ar 31 Mawrth 2010. Cymru yw'r wlad gyntaf i fod yn gyfan gwbl ddigidol. Yr oedd yn brosiect a arweiniwyd gan Digital UK, sefydliad di-elw sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU a darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Irene James: Ers y newid i'r digidol, mae nifer o'm hetholwyr, fel y mae pobl eraill, yn defnyddio Freeview. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu cael cymaint o sianeli â thrigolion Caerdydd a Chasnewydd. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael i ddatrys y sefyllfa hon?

Alun Ffred Jones: Mae'r broblem benodol honno'n dibynnu ar y cwestiwn a ydynt yn cael eu signal drwy drosglwyddydd ategol ynteu drwy brif fast. Yr ydym yn ymwybodol o'r sefyllfa honno, ond nid oes dim y gallwn ei wneud fel Llywodraeth, oherwydd nid yw'n fater datganoledig, ac mae'n adlewyrchu penderfyniad masnachol ar nifer y gorsafoedd a ddarllidir. Os ydych yn ardal trosglwyddydd ategol, lloeren yw'r dewis gorau—naill ai Sky neu Freesat, sy'n wasanaeth talu unwaith. Dyna'r sefyllfa, a dyna fydd y sefyllfa oni wneir penderfyniad masnachol i uwchraddio'r orsaf ategol. Mae hynny'n seiliedig ar y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Nick Ramsay: Yr oeddwn am eich holi ynghylch y signal radio digidol yng Nghymru. Nid wyf yn siŵr a ydych wedi cael unrhyw sylwadau ar hynny, ond yn bendant

the last few weeks. Since the digital switchover, a number of parts of Wales, particularly rural Wales, have had problems with the signal where, previously, people could receive at least a weak signal, but now cannot get anything. I have had one constituency enquiry from Llanarth, near Abergavenny, where this has happened. Have you had any representations on this, or had any discussions with Digital UK about rectifying these problems?

yr wyf fi mewn llythyrau yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Ers y newid i'r digidol, mae llawer rhan o Gymru, yn enwedig ardaloedd gwledig Cymru, wedi cael problemau gyda'r signal mewn mannau lle gallai pobl o leiaf gael signal gwan gynt ond lle na allant gael signal o gwbl yn awr. Cefais un ymholiad gan etholwr yn Llan-arth, ger y Fenni, lle mae hynny wedi digwydd. A ydych wedi cael unrhyw sylwadau ar y mater, neu wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Digital UK ynghylch unioni'r problemau hyn?

2.50 p.m.

Alun Ffred Jones: We were given assurances that, where there was previously a signal, it would remain following switchover. However, it is true that, if there was a weak signal previously, it does not transfer automatically. There are areas where the experience that you describe has happened. As I said, this is not a devolved matter. I have had discussions with Digital UK with regard to the process, but the fact remains that, unless a decision is taken to upgrade the relay transmitters, this situation will remain as it is, unless central Government decides to allocate specific funds for that.

Alun Ffred Jones: Fe'n sicrhawyd y byddai pob man lle'r oedd signal gynt yn parhau i gael signal ar ôl y newid i'r digidol. Fodd bynnag, os oedd y signal yn wan gynt, mae'n wir na fydd yn trosglwyddo'n awtomatig. Mae yna ardaloedd lle mae'r profiad a ddisgrifiwyd gennych wedi digwydd. Fel y dywedais, nid yw hwn yn fater datganoledig. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Digital UK am y broses, ond erys y ffaith, oni phenderfynir uwchraddio'r trosglwyddyddion ategol, bydd y sefyllfa'n parhau fel y mae oni fydd y Llywodraeth ganolog yn penderfynu dyrannu cyllid penodol ar ei chyfer.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ateb cwestiynau.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for answering questions.

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

Visits by School Groups

Ymweliadau Grwpiau Ysgolion

Q1 Darren Millar: Will the Commissioner make a statement on visits by school groups to the National Assembly for Wales? OAQ(3)0043(AC)

C1 Darren Millar: A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am ymweliadau gan grwpiau ysgolion â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ(3)0043(AC))

The Commissioner for Assembly Resources (William Graham): Thank you for your question, Darren. To achieve our goal of effectively communicating the work of the Assembly to young people and their teachers, we have a dynamic education team that delivers a high-quality programme of presentations, visits and activities for young people across the whole of Wales. One strand of the education strategy is to encourage school and college groups to come to the Assembly's youth debating chamber. The

Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad (William Graham): Diolch am eich cwestiwn, Darren. Er mwyn cyflawni ein nod o gyfleu gwaith y Cynulliad i bobl ifanc a'u hathrawon, mae gennym dîm addysg deinamig sy'n darparu rhaglen o gyflwyniadau, ymweliadau a gweithgareddau o safon uchel i bobl ifanc ledled Cymru. Un elfen yn y strategaeth addysg yw annog ysgolion a cholegau i ddod i siambr drafod ieuenctid y Cynulliad. Mae Siambr Hywel yn destun edmygedd ymysg deddfwrfeydd eraill,

Siambr Hywel teaching facility is the envy of most legislatures, and enables the delivery of a first-class education service in a dedicated debating chamber.

Over 7,000 children and young people benefit each year from taking part in the Assembly's education visits programme. Many more enjoy educational events in Siambr Hywel, such as this week's young eco summit. Visits that take place on business days receive a full curricular support programme, which involves meeting Assembly Members and observing Assembly proceedings. For such visits, travel costs are subsidised. Over 200 groups have undertaken educational visits since September 2009.

Darren Millar: I congratulate the Commission on helping to facilitate the educational opportunities that arise from the establishment of the National Assembly—in our constituencies and here in the National Assembly for Wales.

I understand, Commissioner, that the travel subsidy available to schools is only available during Assembly term times. Given that educational visits to the National Assembly could still be within a school term time and could still be valuable and enriching for pupils, even when Assembly Members are not sitting, will you consider, with your fellow Commissioners, the extension of that travel subsidy to include school groups outside of the normal Assembly timetable, but within the school-term timetable?

William Graham: The issue of school groups visiting during recesses was considered as part of the education strategy for the 2010 academic year. That is not to say that these policies cannot be visited from time to time, and I am sure that officials will listen to your question today and take it on board.

The purpose of the travel subsidy is to support schools that attend for curriculum-related visits. School groups that book for general visits, normally as part of a wider programme of activities, are not eligible for

ac mae'n ein galluogi i gyflwyno gwasanaeth addysg o'r radd flaenaf mewn siambr drafod bwrpasol.

Bydd dros 7,000 o blant a phobl ifanc yn cael budd o gymryd rhan yn rhaglen ymweliadau addysg y Cynulliad bob blwyddyn. Mae llawer mwy'n mwynhau digwyddiadau addysgol yn Siambr Hywel, gan gynnwys uwchgynhadledd eco ieuentid yr wythnos hon. Caiff grwpiau sy'n ymweld ar ddiwrnodau busnes gynnig rhaglen gwricwlaidd lawn, sy'n cynnwys cyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad a gweld trafodion y Cynulliad. Rhoddir cymhorthdal tuag at gostau teithio ymweliadau felly. Mae dros 200 o grwpiau wedi bod ar ymweliadau addysgol er mis Medi 2009.

Darren Millar: Yr wyf yn llongyfarch y Comisiwn ar helpu hwyluso'r cyfleoedd addysgol sy'n codi o sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol—yn ein hetholaethau ac yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Deallaf, Gomisiynydd, mai'r unig bryd y bydd y cymhorthdal teithio ar gael i ysgolion yw yn ystod tymhorau'r Cynulliad. O gofio y gallai ymweliadau addysgol â'r Cynulliad Cenedlaethol barhau yn ystod tymor ysgol, ac y gallent barhau'n werthfawr ac yn fuddiol i ddisgyblion, hyd yn oed pan na fydd Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod, a wnewch chi ystyried, gyda'ch cyd-Gomisiynwyr, ymestyn y cymhorthdal teithio hwnnw i gynnwys grwpiau ysgolion sy'n ymweld y tu allan i amserlen arferol y Cynulliad, ond o fewn amserlen tymhorau ysgol?

William Graham: Ystyriwyd grwpiau ysgolion sy'n ymweld yn ystod toriadau'r Cynulliad fel rhan o'r strategaeth addysg am y flwyddyn academaidd 2010. Nid yw hynny'n golygu na ellir ailystyried y polisiau hyn o bryd i'w gilydd, ac yr wyf yn siŵr y bydd swyddogion yn gwrando ar eich cwestiwn heddiw ac yn ei ystyried.

Diben y cymhorthdal teithio yw cynorthwyo ysgolion sy'n dod ar ymweliadau'n ymwneud â'r cwricwlwm. Nid yw grwpiau ysgolion sy'n trefnu ymweliadau cyffredinol, fel rheol fel rhan o raglen ehangach o weithgareddau,

travel subsidy. However, they are, of course, given a tour. The provision of a travel subsidy for non-educational groups was initially considered as part of the education strategy, but it was decided that only those groups that had booked a full curriculum-related activity would be eligible. We offer schools and colleges undertaking curriculum-related visits a travel subsidy to Cardiff bay, which amounts to a very generous subsidy of approximately £30,000 per annum.

yn gymwys i gael cymhorthdal teithio. Fodd bynnag, maent wrth gwrs yn cael taith o gwmpas yr adeilad. I ddechrau ystyriwyd darparu cymhorthdal teithio ar gyfer grwpiau an-addysgol fel rhan o'r strategaeth addysg, ond penderfynwyd mai dim ond y grwpiau hynny a oedd wedi trefnu gweithgaredd llawn yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a fyddai'n gymwys. Yr ydym yn cynnig cymhorthdal teithio i fae Caerdydd i ysgolion a cholegau ar ymweliadau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, ac mae'n gymhorthdal hael iawn o ryw £30,000 y flwyddyn.

Dadl Ceidwadwyr Cymru Welsh Conservatives Debate

Ymgyrch Byw'n Annibynnol NAWR! yng Nghymru The Independent Living NOW! Campaign for Wales

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Mark Isherwood: I move that

Mark Isherwood: Cynigiad fod

the National Assembly for Wales:

Cynlluniad Cenedlaethol Cymru:

supports the Disability Wales Independent Living NOW! Campaign for Wales. (NDM4472)

yn cefnogi ymgyrch Anabledd Cymru Byw'n Annibynnol NAWR! yng Nghymru. (NDM4472)

A fortnight ago, I spoke at the Disability Wales independent living conference, which launched the independent living campaign for Wales. That aims to raise awareness and understanding of what independent living means for disabled people in Wales, and calls for a national strategy for independent living. All parties here support the social model of disability, but this campaign seeks specific action to take us from aspiration and agreement to delivery. It seeks cross-party support, so I urge the Welsh Government to withdraw what is, effectively, a neutralising amendment.

Bythefnos yn ôl bûm yn siarad yn y gynhadledd byw'n annibynnol gan Anabledd Cymru, lle lanswyd yr ymgyrch byw'n annibynnol yng Nghymru. Nod yr ymgyrch yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae byw'n annibynnol yn ei olygu i bobl anabl yng Nghymru, ac mae'n galw am strategaeth genedlaethol ar gyfer byw'n annibynnol. Mae pob plaid yma'n cefnogi'r model cymdeithasol o anabledd, ond mae'r ymgyrch hon yn galw am gamau penodol i droi'r cytundeb a'r uchelgais yn weithredu. Mae'n ceisio cefnogaeth drawsbleidiol, felly, anogaf Lywodraeth Cymru i dynnu'n ôl ei gwelliant sydd, i bob pwrpas, yn dirymu'r cynnig.

As the campaign states, independent living enables disabled people to achieve their own goals and live their own lives in the way that they choose for themselves. It offers practical solutions for removing the barriers to equality and social inclusion that disable them,

Fel y mae'r ymgyrch yn ei ddweud, mae byw'n annibynnol yn galluogi pobl anabl i gyflawni eu nodau eu hunain a byw eu bywyd eu hunain fel y dewisant drostynt eu hunain. Mae'n cynnig atebion ymarferol i ddileu'r rhwystrau i gydraddoldeb a

tackling the many issues that prevent them from having the same choices, opportunities, access and control that non-disabled people have. Dignity and justice includes having choices of where, what, when, who with and how you live your life. The best approach that everyone should take to disability equality is to remember the phrase 'No decisions made about us without us'.

Last November I led an opposition debate on direct payments, timed to coincide with Multiple Sclerosis Cymru's partnership day, on supporting individuals to live their lives. Our motion supported independent living at home, reducing inappropriate admissions to hospital and expanding the direct payments scheme, which allows people to control their own care budgets. Personalisation means thinking about care and support services in an entirely different way; transforming care services and putting people first. The traditional service-led approach has often meant that people have not received the right help at the right time and have been unable to shape the kind of support that they need. Local authorities have been able to offer direct payments since 1996. Additional UK legislation and Welsh regulations have since developed and expanded direct payments. However, out of 150,000 people receiving support from Welsh local authorities, fewer than 2,000 were receiving a direct payment in March 2009. England plans to offer everyone who receives social care support a personal budget by March 2011. In Wales, disabled adults are no longer satisfied for their care to be planned for them in a way that their parents might have accepted. They are concerned, however, that, if they choose to use direct payments, they lose support from local authorities.

The MS Society Cymru has, therefore, called for a made-in-Wales model of personalisation, which both maximises individual choice and provides support and

chynhwysiant cymdeithasol sy'n eu hanalluogi, gan fynd i'r afael â'r problemau niferus sy'n eu hatal rhag cael yr un dewisiadau, yr un cyfleoedd, yr un mynediad a'r un rheolaeth ag sydd gan bobl nad ydynt yn anabl. Mae urddas a chyfiawnder yn cynnwys cael dewisiadau ble a sut i fyw eich bywyd, pryd a chyda phwy. Yr agwedd orau y dylai pawb ei mabwysiadu at gydraddoldeb i bobl anabl yw cofio'r ymadrodd 'Ni ddylai'r un penderfyniad amdanom gael ei wneud hebom'.

Fis Tachwedd diwethaf arweiniais ddadl wrthblaid ar daliadau uniongyrchol, a amserwyd i gyd-daro â diwrnod partneriaeth Multiple Sclerosis Cymru, ar gynorthwyo unigolion i fyw eu bywyd. Yr oedd ein cynnig yn cefnogi byw'n annibynnol gartref, gan leihau nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty yn amhriodol, ac yn ehangu'r cynllun taliadau uniongyrchol sy'n caniatáu i bobl reoli eu cyllidebau gofal eu hunain. Mae teilwra gwasanaethau'n golygu meddwl yn hollol wahanol am wasanaethau gofal a chymorth, gan drawsnewid gwasanaethau gofal a rhoi pobl yn gyntaf. Yn aml mae'r dull gweithredu traddodiadol, a arweinir gan y gwasanaeth, wedi golygu nad yw pobl wedi cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, ac wedi methu dylanwadu ar y math o gymorth y mae arnynt ei angen. Er 1996 mae awdurdodau lleol wedi gallu cynnig taliadau uniongyrchol. Ers hynny mae deddfwriaeth ychwanegol yn y DU a rheoliadau yng Nghymru wedi datblygu ac ehangu taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2009, o'r 150,000 o bobl a gâi gymorth gan awdurdodau lleol yng Nghymru yr oedd llai na 2,000 yn cael taliad uniongyrchol. Erbyn mis Mawrth 2011 mae Lloegr yn bwriadu cynnig cyllideb bersonol i bawb sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol. Bellach, nid yw oedolion anabl yng Nghymru yn fodlon i'w gofal gael ei gynllunio ar eu cyfer mewn modd y byddai eu rhieni efallai wedi'i dderbyn. Fodd bynnag, maent yn pryderu y byddant yn colli cymorth gan awdurdodau lleol os dewisant ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Felly, mae Cymdeithas MS Cymru wedi galw am fodel teilwra gwasanaethau, penodol i Gymru, sy'n darparu cymaint o ddewis ag sy'n bosibl i'r unigolyn ac yn darparu

advice for people who do not want to manage their own budget. Local authorities should, therefore, actively support individuals to use direct payments. They have a legal obligation to offer them, and there needs to be a consistent level of support across the 22 local authorities. The English version of In Control was born in 2003 and In Control Scotland was launched in 2007. Wrexham was the first local authority in Wales to link into In Control, allowing people to use their individualised budgets to deliver the services that they required in a format decided by them. Without Government action, there is little incentive for local authorities to actively increase the number of people using direct payments. Unfortunately, the Welsh Government parties spoke against our motion, confusing choice with compulsion and personalisation with privatisation. I responded by stating that the Welsh Government must ask why only 1.5 per cent of those currently in receipt of care services in Wales are in receipt of direct payments and that the Welsh Government must live up to the statement in the 'One Wales' agreement that all citizens are empowered to determine their own lives. Those of us, including the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, who attended the Wales care awards last October saw models of best practice from the private, voluntary and public sectors. Of course, there is also bad practice in all sectors, and all of us want to see that stamped out.

I thanked the Deputy Minister for acknowledging that direct payments give more choice to service users, for agreeing with the citizen-centred approach to service delivery and planning, and for recognising that local authorities provide a safety net. I regret that our motion was defeated. Nine days later, I chaired the MS Society Conference in north Wales, on evolving services. I was told that people do not just want choice, they want control, and that Cheshire alone has as many direct payment recipients as the whole of Wales. After our debate on direct payments, Disability Wales contacted me to express its disappointment

cymorth a chyngor i bobl nad ydynt am reoli eu cyllideb eu hunain. Felly, dylai awdurdodau lleol roi pob cymorth i unigolion ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae arnynt rwymedigaeth gyfreithiol i'w cynnig, ac mae angen lefel gyson o gymorth ar draws y 22 awdurdod lleol. Daeth fersiwn Lloegr o In Control i fodolaeth yn 2003, a lansiwyd In Control Scotland yn 2007. Wrexham oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i greu cysylltiad ag In Control, gan ganiatáu i bobl ddefnyddio'u cyllidebau unigol a phersonol i sicrhau'r gwasanaethau yr oedd arnynt eu hangen ar ffurf o'u dewis hwy. Heb gamau gweithredu gan y Llywodraeth, prin iawn yw'r cymhelliant i awdurdodau lleol fynd ati'n i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol. Yn anffodus, siaradodd y pleidiau sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn erbyn ein cynnig, gan ddrysu rhwng dewis a gorfodaeth a rhwng teilwra gwasanaethau a'u preifateiddio. Ymatebais trwy ddweud ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn pam mai 1.5 y cant yn unig o'r rheini a gaiff wasanaethau gofal yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n cael taliadau uniongyrchol, a'i bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wireddu'r datganiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un' fod gan bob dinesydd y grym i benderfynu natur ei fywyd ei hun. Gwelodd y rheini ohonom a fu yn seremoni wobrwyo gofal Cymru fis Hydref diwethaf, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, fodolau o arfer gorau o'r sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus. Wrth gwrs, mae yna arfer gwael hefyd ym mhob sector, ac yr ydym i gyd am weld hynny'n cael ei ddileu.

Diolchais i'r Dirprwy Weinidog am gydnabod bod taliadau uniongyrchol yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr gwasanaethau, am gytuno â'r dull o ddarparu a chynllunio gwasanaethau, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac am gydnabod bod awdurdodau lleol yn darparu rhwyd ddiogelwch. Yr wyf yn gresynu i'n cynnig gael ei drechu. Naw diwrnod yn ddiweddarach yr oeddwn yn cadeirio cynhadledd y Gymdeithas MS yn y gogledd ar ddatblygu gwasanaethau. Dywedwyd wrthyf nad dewis yw'r unig beth y mae pobl am ei gael: maent hefyd am gael rheolaeth, ac mae gan Swydd Gaer yn unig gynifer â Chymru gyfan o bobl sy'n cael

with the outcome. It is represented on the steering group of the Wales Alliance for Citizen Directed Support, formerly known as In Control Cymru, and plays an active role in the Welsh Government's direct payments overview group. It has encouraged local authorities to take a more strategic approach in order to increase direct payment uptake. However, it believes that local authority ambivalence, not service user choice, has limited the take up in Wales. The steering group is committed to developing a version of self-directed support that is appropriate to Wales, encouraging local innovation rather than the top-down approach adopted in England.

There are encouraging signs. Three more local authorities have recently joined the seven long-standing members who have received support to get projects up and running. However, Wrexham and Flintshire remain the only local authorities with service users actually receiving personal budgets, although several others are making good progress.

3.00 p.m.

On 18 March, I chaired a panel debate at the Mind Cymru personalisation seminar in Wrexham entitled 'My Life, My Choice, My Plan—How Can We Make Citizen-Directed Support Work in Wales?' We heard that this was about cultural change and transformation—about power, choice, control and inclusion—with those who oppose transformation or express scepticism needing their mindset changing. We need to build a groundswell for change in order to deliver fairness, dignity, respect and autonomy. We heard that we discriminate if we do not allow people to take risks; that it is okay to make a mistake; that we need equality for physical and mental health; that we must remove barriers and overcome assumptions and stereotypes; and that delivery on the disability equality duty must be measured by outcomes rather than processes. I was pleased to learn that the Deputy Minister had asked

taliadau uniongyrchol. Ar ôl ein dadl ar daliadau uniongyrchol, cysylltodd Anabledd Cymru â mi i fynegi ei siom am y canlyniad. Caiff Anabledd Cymru ei gynrychioli ar grŵp llywio Cynghair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion, a elwid gynt yn In Control Cymru. Mae iddo ran weithredol yn y grŵp trosolwg o daliadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Mae wedi annog awdurdodau lleol i weithredu'n fwy strategol i gynyddu nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, cred mai petruster awdurdodau lleol, nid dewis defnyddwyr gwasanaethau, sydd wedi cyfyngu'r nifer sy'n cael taliadau uniongyrchol yng Nghymru. Mae'r grŵp llywio wedi ymrwymo i ddatblygu math o gymorth hunan-gyfeiriedig sy'n briodol i Gymru, gan annog arloesedd lleol yn hytrach na'r dull o'r brig i lawr sydd wedi'i fabwysiadu yn Lloegr.

Mae yna arwyddion calonogol. Yn ddiweddar ymunodd tri awdurdod lleol arall â'r saith sy'n aelodau ers amser ac sydd wedi cael cymorth i sefydlu prosiectau a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, Wrecsam a Sir y Fflint yw'r unig awdurdodau lleol o hyd sydd â defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael cyllidebau personol mewn gwirionedd, er bod llawer un arall yn gwneud cynnydd da.

Ar 18 Mawrth, cadeiriais ddadl panel yn seminar Mind Cymru yn Wrecsam ar deilwra gwasanaethau, dan y teitl 'Fy Mywyd I, Fy Newis I, Fy Nghynllun I—Sut mae gwneud i Gymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion weithio yng Nghymru?' Clywsom fod hynny'n golygu trawsnewid a newid diwylliant—yn golygu grym, dewis, rheolaeth a chynhwysiant—a bod angen newid meddylfryd y sawl sy'n gwrthwynebu trawsnewid neu sy'n mynegi amheuaeth. Mae angen inni greu ymchwydd o gefnogaeth o blaid newid er mwyn sicrhau tegwch, urddas, parch ac ymreolaeth. Clywsom ein bod yn gwahaniaethu os nad ydym yn caniatáu i bobl gymryd risgiau; ei bod yn iawn gwneud camgymeriad; bod arnom angen cydraddoldeb ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol; ei bod yn rhaid inni ddileu rhwystrau a goresgyn rhagdybiaethau a stereoteipiau; a'i bod yn rhaid mesur yr hyn a

for a report on the seminar, with its recommendations, to be sent to her.

In March, I also attended a round-table discussion event with the College of Occupational Therapists, the Chartered Society of Physiotherapy, Age Concern Gwent, the Wales Council for Voluntary Action and Cross Roads Care. The discussion centred on the need to involve the voluntary sector—and particularly those who provide services for individuals and those who care for them—in the development of primary care services across Wales. They consider that, in the current financial climate, the more we can provide the right skills by the right people in the right places and at the right time, the better. They champion a new approach, involving person-led support, service user-led services and community-led services, bringing together the independent third sector and the public sector, with the citizen and the community at the centre, offering mutual support that complements other services and reduces demand on them.

They fear that the move to community care will be more expensive, when it need not be if we change the way that we do things by developing a mutual service delivery model. By liberating the voluntary sector in Wales and giving it a place in strategic planning and delivery, they and we can develop person-centred services based on outcomes rather than outputs. As they said, we need smart money, not more money, recognising that it is not your budget, but ‘ours’. As Scope Cymru states:

‘Local authorities do not always know what is best for an individual disabled person, but that person and their family do’.

This issue is not about party politics; it is about responding to a growing groundswell of demand for independent living and about delivering real citizen-centred Government in deed as well as in word. Disability charities

gyflawnir o ran y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl yn ôl canlyniadau yn hytrach na phrosesau. Yr oeddwn yn falch clywed bod y Dirprwy Weinidog wedi gofyn am adroddiad ar y seminar a’i argymhellion.

Ym mis Mawrth bûm hefyd mewn trafodaeth ford gron gyda Choleg y Therapyddion Galwedigaethol, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Age Concern Gwent, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Cross Roads Care. Canolbwyntiai’r drafodaeth ar yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol—ac yn enwedig y rheini sy’n darparu gwasanaethau i unigolion a’r sawl sy’n gofalu amdanynt—wrth ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ar draws Cymru. Eu barn, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, yw gorau po fwyaf y gallwn ddarparu’r sgiliau iawn gan y bobl iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Maent yn hybu dull gweithredu newydd, sy’n cynnwys cymorth yn cael ei arwain gan yr unigolyn, gwasanaethau’n cael eu harwain gan y defnyddwyr gwasanaeth, a gwasanaethau’n cael eu harwain gan y gymuned. Mae hyn yn tynnu’r trydydd sector annibynnol a’r sector cyhoeddus ynghyd, a’r dinesydd a’r gymuned yn y canol, i gynnig cydgefnogaeth sy’n ategu gwasanaethau eraill ac sy’n lleihau’r galw arnynt.

Ofnant y bydd y newid i ofal cymunedol yn fwy costus, pan nad oes angen iddo fod os newidiwn y ffordd yr ydym yn gwneud pethau trwy ddatblygu model o gydgyflwyno gwasanaethau. Trwy ryddhau’r sector gwirfoddol yng Nghymru a rhoi lle iddo mewn gwaith cynllunio a darparu strategol, gallwn ni a hwythau ddatblygu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi’u seilio ar ganlyniadau yn hytrach nag allbwn. Fel yr oeddent yn ei ddweud, nid angen mwy o arian sydd arnom ond arian clyfar, gan gydnabod nad eich cyllideb chi ydyw ond ein cyllideb ‘ni’. Fel y dywed Scope Cymru:

Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwybod beth sydd orau i unigolyn anabl, ond mae’r unigolyn a’i deulu’n gwybod.

Nid gwleidyddiaeth bleidiol yw hyn; mae’n golygu ymateb i ymchwydd cynyddol o alw am fyw’n annibynnol, a sicrhau Llywodraeth sy’n canolbwyntio’n wirioneddol ar y dinesydd mewn gweithred yn ogystal ag

and disabled people, with their families, are looking to this Assembly today to support the Independent Living NOW! Campaign for Wales.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. After ‘supports the’ insert ‘principles of’. After ‘campaign for Wales’ insert:

and recognises the positive contribution the campaign will make in advancing the social model of disability which has been adopted by the Welsh Assembly Government.

Helen Mary Jones: I am glad that the Conservatives have chosen to bring forward a debate on this important issue. However, given what they are planning to do to the public finances of our nations, a great deal of what Mark Isherwood has said, although I do not doubt his personal commitment for a moment—[*Interruption.*] It may very well be the first day, and if David Melding wants to make an intervention he is very welcome, but we can do the sums.

The Presiding Officer: Order. I thought that we had established a precedent during the period running up to the UK general election that it was inappropriate to make reference to the potential effects of a change of Government on this place. It seems to me that that is precisely what is being done today.

Helen Mary Jones: I am grateful to you, Presiding Officer. I will not pursue that line any further, but I think that people know exactly what I mean. A great deal of what Mark Isherwood has asked for will cost money. It will not necessarily cost more money, but it certainly will not cost less money, and those are resources that we may very well simply not have in our nation.

However, to come back to the main issue on the agenda, it is right to look at this as an equality issue. It is right to look at it in the context of the social model of disability that we have all signed up to. However, it is easy to sign up to a model that clearly sets out that the problem is not the person’s impairment but the way that society does not allow them

mewn gair. Mae elusennau anabledd a phobl anabl, a’u teuluoedd, yn disgwyl i’r Cynulliad hwn heddiw gefnogi’r Ymgyrch Byw’n Annibynnol NAWR! yng Nghymru.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Ar ôl ‘yn cefnogi’, rhoi ‘egwyddorion’. Ar ôl ‘yng Nghymru’, rhoi:

ac yn cydnabod y cyfraniad da y bydd yr ymgyrch yn ei wneud o ran hyrwyddo’r model cymdeithasol o anabledd sydd wedi’i fabwysiadu gan Lywodraeth y Cynulliad.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch bod y Ceidwadwyr wedi dewis dod â dadl gerbron ar y mater pwysig hwn. Fodd bynnag, o ystyried yr hyn y maent yn bwriadu’i wneud i gyllid cyhoeddus ein gwledydd, bydd llawer iawn o’r hyn y mae Mark Isherwood wedi’i ddweud, er nad wyf yn amau ei ymrwymiad personol am eiliad—[*Torri ar draws.*] Hwyrach mai hwn yw’r diwrnod cyntaf, ac os yw David Melding am ymyrryd, mae croeso cynnes iddo wneud hynny, ond gallwn ni wneud y symiau.

Y Llywydd: Trefn. Yr oeddwn yn meddwl inni sefydlu cynsail yn ystod y cyfnod hyd at etholiad cyffredinol y DU ei bod yn amhriodol cyfeirio at effeithiau posibl newid yn y Llywodraeth ar y lle hwn. Ymddengys i mi mai dyna’n union sy’n digwydd.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Lywydd. Ni ddywedaf ddim mwy am hynny, ond credaf fod pobl yn deall yn iawn yr hyn yr wyf yn ei olygu. Bydd llawer iawn o’r hyn y mae Mark Isherwood wedi gofyn amdano yn costio arian. Ni fydd yn costio mwy o arian o reidrwydd, ond yn sicr ni fydd yn costio llai, ac mae’n bosibl iawn na fydd yr adnoddau hynny gennym yn ein gwlad.

Fodd bynnag, i ddychwelyd at y prif fater ar yr agenda, mae’n iawn edrych ar hyn fel mater yn ymwneud â chydarddoldeb. Mae’n iawn edrych arno yng nghyd-destun y model cymdeithasol o anabledd y mae pob un ohonom wedi ymrwymo iddo. Fodd bynnag, mae’n hawdd ymrwymo i fodol sy’n gosod allan yn glir nad nam yr unigolyn yw’r

to live a full life as a result of that impairment. We only have to look at some of the horrific tales that we have heard in recent years of the bullying and harassment of disabled people to see how far we have to go in convincing all our fellow citizens of this equality agenda. In that regard, I think that the commitment in the campaign to the collection of stories, and to telling the good stories—the success stories of disabled people living independently and making huge contributions—as well as the bad stories, will play an important part.

I agree with much of what Mark Isherwood said, and I do not intend to reiterate it. I look forward to the production of a manifesto out of this campaign. That will provide a challenge for us all going into the next Assembly elections and beyond, because many of the issues that affect the ability of disabled people to live independently are not devolved, such as benefits issues, and will present challenges for us all in difficult times. We should all look forward to responding to those challenges that will come out of disabled people's movements. Again, I welcome the commitment in the campaign to develop stronger co-operation between those organisations. That will be of great assistance to us in the political community. The more those organisations can speak with one voice, the more effectively we will be able to respond.

I wish to mention direct payments. While I agree fully that local authorities should provide much more support and much more consistent support for people to take up that option and to choose to plan their own care, we have to take some care in this regard. I heard all that Mark Isherwood had to say, but I have spent a lot of time in the last year with carers and carers' organisations, and a great many tell me that the people whom they care for are elderly and do not want the trouble and difficulty of employing their own carers, for example, but want a good basic standard of care, with consistency in the carers coming in to see them. They say that they want that care provided by the local authority, because it is their perception that the local authority

problem, ond y modd y mae cymdeithas yn ei rwystro rhag byw bywyd llawn o ganlyniad i'r nam hwnnw. Dim ond inni edrych ar rai o'r hanesion arswydus yr ydym wedi'u clywed dros y blynyddoedd diwethaf am achosion o fwlio pobl anabl ac aflonyddu arnynt, fe welwn pa mor bell y mae'n rhaid inni fynd i argyhoeddi pob un o'n cyddinasyddion o'r agenda gydraddoldeb hon. Yn y cyswllt hwnnw, credaf y bydd yr ymrwymiad yn yr ymgyrch i gasglu hanesion, ac i adrodd am yr hanesion da—yr hanesion o lwyddiant am bobl anabl yn byw'n annibynnol ac yn gwneud cyfraniad enfawr—yn ogystal â'r hanesion gwael, yn chwarae rhan bwysig.

Cytunaf â llawer o'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood, ac nid wyf yn bwriadu ei ailadrodd. Edrychaf ymlaen at weld cynhyrchu maniffesto ar sail yr ymgyrch hon. Bydd hwnnw'n her i bob un ohonom wrth inni wynebu etholiadau nesaf y Cynulliad a thu hwnt, oherwydd mae nifer o'r materion sy'n effeithio ar allu pobl anabl i fyw'n annibynnol yn faterion sydd heb eu datganoli, megis budd-daliadau, a byddant yn her inni i gyd mewn cyfnod anodd. Dylem i gyd edrych ymlaen at ymateb i'r heriau hynny a fydd yn codi o fudiadau pobl anabl. Unwaith eto, croesawaf yr ymrwymiad yn yr ymgyrch i ddatblygu cydweithio cadarnach rhwng y sefydliadau dan sylw. Bydd hynny o gymorth mawr i ni yn y gymuned wleidyddol. Po fwyaf y gall y sefydliadau hynny siarad ag un llais, y mwyaf effeithiol y gallwn ni ymateb.

Hoffwn grybwyll taliadau uniongyrchol. Er fy mod yn cytuno'n llwyr y dylai awdurdodau lleol ddarparu llawer mwy o gymorth, a chymorth llawer mwy cyson i bobl allu manteisio ar y dewis hwnnw a dewis cynllunio'u gofal eu hunain, rhaid inni fod yn ofalus ynghylch hyn. Clywais bopeth a oedd gan Mark Isherwood i'w ddweud, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr wyf wedi treulio llawer o amser gyda gofalwyr a sefydliadau gofalwyr, ac mae llawer iawn ohonynt yn dweud wrthyf fod y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn oedrannus ac nad ydynt am fynd drwy'r drafferth a'r anhawster o gyflogi eu gofalwyr eu hunain, er enghraifft. Yn hytrach, maent am gael gofal sydd o safon sylfaenol dda, a chysondeb o

provides better terms and conditions for its staff than agencies can, which means better training and greater consistency in staff. Therefore, I subscribe fully to the suggestion that we should make the option of direct payments much more easily available and, certainly, that there should be better services. There are some very good services to support the provision of direct payments and to support people acting as employers, but there are other counties where provision is more patchy. However, it must be a choice, and disabled people—in particular, perhaps, those who have become disabled later in life—must be able to rely on a good basic safety net of public services available to support them in living independently.

It is a challenge that our new social services strategy, which the Minister is working on, will have to address, because there is a balance to be achieved there and, in hard times, there may be difficult choices to make.

I hope that the Government will consider developing a national strategy, as the campaign requests, because the issues range across such a broad range of portfolios, including housing, health, education, social services, and transport, so, it needs to sit—as it clearly does, given the Minister who will respond—fully within the equality portfolio, and we need to ensure that all portfolios respond to this campaign effectively and properly. My own view is that a national strategy would be enormously beneficial in taking us towards that, but I will be interested to see what the Minister has to say.

I welcome this debate and offer our support to the campaign. I very much hope that we can build upon the positive work that has taken place, and put right at the heart of it—and Mark Isherwood is right in this—seeing the disabled person as a person first and foremost, who might need some support, but who is certainly not, as too many people still

ran y gofawyr sy'n dod i'w gweld. Dywedant eu bod am i'r gofal hwnnw gael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol, am eu bod yn credu bod yr awdurdod lleol yn darparu gwell telerau ac amodau i'w staff nag a all asiantaethau, sy'n golygu gwell hyfforddiant a mwy o gysondeb o ran y staff. Felly, cytunaf yn llwyr â'r awgrym y dylem sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn ddewis sydd ar gael yn haws o lawer, a chytunaf yn bendant y dylid cael gwasanaethau gwell. Mae yna rai gwasanaethau da iawn i gefnogi ddarparu taliadau uniongyrchol a chynorthwyo pobl sy'n gweithredu fel cyflogwyr, ond mae siroedd eraill lle mae'r ddarpariaeth yn fwy anghyson. Fodd bynnag, rhaid mai dewis ydyw, a rhaid i bobl anabl—yn enwedig y rheini sydd wedi dod yn anabl yn hwyrach yn eu bywyd efallai—allu dibynnu ar rwyd ddiogelwch sylfaenol dda o wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol.

Mae'n her y bydd yn rhaid i'n strategaeth newydd ar wasanaethau cymdeithasol y mae'r Gweinidog yn gweithio arni fynd i'r afael â hi, oherwydd rhaid cael cydbwysedd yn hynny, ac mewn adeg anodd gall fod dewisiadau anodd i'w gwneud.

Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ystyried datblygu strategaeth genedlaethol, fel y mae'r ymgyrch yn gofyn, oherwydd mae'r materion dan sylw'n ymestyn dros ystod mor eang o bortffolios, gan gynnwys tai, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Felly, mae angen iddi berthyn yn llawn i'r portffolio cydraddoldeb—ac mae'n amlwg ei bod, o ystyried y Gweinidog a fydd yn ymateb—ac mae angen inni sicrhau bod pob portffolio'n ymateb yn briodol ac yn effeithiol i'r ymgyrch. Yn fy marn i, byddai strategaeth genedlaethol yn fuddiol tu hwnt i'n symud tuag at hynny, ond bydd gennyf ddiddordeb gweld yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud.

Croesawaf y ddadl hon a chynigaf ein cefnogaeth i'r ymgyrch. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y gallwn adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd wedi digwydd, ac y gallwn roi wrth wraidd y gwaith hwnnw—ac mae Mark Isherwood yn iawn yn hynny—yr angen yn anad dim i weld unigolyn anabl fel unigolyn a allai fod angen rhywfaint o

think, a problem.

Paul Davies: I am pleased to have the opportunity to take part in this debate. As we know, this campaign will enable disabled people to achieve their goals and to live their lives as they choose. As Mark Isherwood said, it will offer practical solutions to removing the barriers to social inclusion, including in health, social care, housing, education, employment, transport and access to the environment. It is important to have a strategy in place to support disabled people, and I hope that the Minister will explain today what the Government's strategy is to promote independent living for disabled people, because I asked for a statement on this very issue a few weeks ago.

Having had the privilege of hosting an event for Disability Wales to launch its report on its Streets Ahead campaign last year, which highlighted some of the issues that disabled people face in accessing high-street services and shops, I have no doubt that its independent living campaign will be a huge success. I believe that the campaign has been effective in drawing attention to the difficulties faced by disabled people daily, and in giving disabled people a platform for their voices to be heard.

3.10 p.m.

I note the 12 pillars of independent living, and I support fully the need to produce a wide range of services for disabled people, to ensure that they avoid social exclusion and can participate in our society on an equal basis.

In my contribution today I would like to highlight housing in particular and the regulatory disability standards that need to be met when building new properties. It is vital that the Welsh Assembly Government recognises provisions for disabled people when considering planning issues, and that it works closely with disability organisations to make sure that provisions are adequate. A constituent has recently brought to my attention the fact that some new properties in

gymorth arno, ond yn sicr nad yw'n broblem, fel y mae gormod o bobl yn dal i gredu.

Paul Davies: Yr wyf yn falch cael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Fel y gwyddom, bydd yr ymgyrch hon yn galluogi pobl anabl i gyrraedd eu nod a byw eu bywyd fel y dymunant. Fel y dywedodd Mark Isherwood, bydd yn cynnig atebion ymarferol i ddileu'r rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth, trafnidiaeth, a mynediad i'r amgylchedd. Mae'n bwysig cael strategaeth i gefnogi pobl anabl, a gobeithio y bydd y Gweinidog yn egluro heddiw beth yw strategaeth y Llywodraeth ar hybu byw'n annibynnol i bobl anabl, oherwydd gofynnais am ddatganiad ar yr union fater hwnnw ychydig wythnosau'n ôl.

Ar ôl cael y fraint o gynnal digwyddiad ar gyfer Anabledd Cymru i lansio'i adroddiad ar ei ymgyrch Sôn am Strydoedd y llynedd, a oedd yn tynnu sylw at rai o'r problemau sy'n wynebu pobl anabl wrth geisio defnyddio gwasanaethau a siopau ar y stryd fawr. Yr wyf yn siŵr y bydd ei ymgyrch ar fyw'n annibynnol yn llwyddiant ysgubol. Credaf fod yr ymgyrch wedi bod yn effeithiol i dynnu sylw at yr anawsterau sy'n wynebu pobl anabl bob dydd, ac i roi llwyfan i bobl anabl er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.

Nodaf y 12 piler ar gyfer byw'n annibynnol, a chefnogaf yn llawn yr angen i gynhyrchu ystod eang o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu hallgau'n gymdeithasol a'u bod yn gallu cymryd rhan ar sail gyfartal yn ein cymdeithas.

Yn fy nghyfraniad heddiw, hoffwn dynnu sylw'n benodol at dai, a'r safonau rheoleiddio y mae'n rhaid eu cyrraedd o safbwynt anabledd wrth adeiladu eiddo newydd. Mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad gydnabod darpariaethau ar gyfer pobl anabl wrth ystyried materion cynllunio, a gweithio'n agos gyda sefydliadau anabledd i sicrhau bod y darpariaethau'n ddigonol. Yn ddiweddar cefais wybod gan etholwr nad yw rhai enghreifftiau o eiddo newydd yn fy ardal

my area do not meet regulatory disability standards. That is unacceptable. It was also noted that many disabled people are unaware of their rights with regard to housing, and that local authorities are not following the appropriate guidance issued by the Welsh Assembly Government. Given that this seems to be the case, perhaps the Minister will be kind enough to tell us in his response what the Welsh Assembly Government is doing to ensure that local authorities adhere to the correct guidance, so that all new properties meet regulatory disability standards.

I also support the independent living scheme, which allows people to receive direct payments from local authorities. This scheme will allow people to choose and pay for the care that they need, as opposed to having to meet rigid criteria for support payments. We are talking about disabled adults who are, rightly, unhappy about the current situation and who are looking to have more of an input into the services that they receive and how they receive them. These people, surely, have the right to make these choices, and it is imperative that these choices are available to disabled people.

I believe that the Welsh Assembly Government needs to further prioritise independent living in Wales and to work more closely with local authorities and the third sector to ensure that these services respond to disabled people's needs and take into account their opinions of those services.

I had the privilege of hosting an event for the Disability Law Service in March in the Senedd. The service was launching a report on legal advice and information services for disabled people in Wales. The report recommends that there should be an integrated referral system, allowing for the easy transfer of information about clients between organisations. The report also highlights the need for a campaign to promote disabled people's rights. Perhaps the Minister will outline in his response how the Assembly Government is promoting advocacy for disabled people, so that they have access to the right information when

i'n cyrraedd y safonau rheoleiddio o safbwynt anabledd. Nid yw hynny'n dderbyniol. Nodwyd hefyd fod nifer o bobl anabl nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau o safbwynt tai, ac nad yw awdurdodau lleol yn dilyn y canllawiau priodol a gyhoeddwr gan Lywodraeth y Cynulliad. Gan ei bod yn ymddangos bod hyn yn wir, hwyrach y byddai'r Gweinidog yn fodlon dweud wrthym, yn ei ymateb, beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at y canllawiau cywir, er mwyn i bob eiddo newydd gyrraedd safonau rheoleiddio o safbwynt anabledd.

Yr wyf hefyd yn cefnogi'r cynllun byw'n annibynnol, sy'n caniatáu i bobl gael taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Bydd y cynllun hwn yn caniatáu i bobl ddewis y gofal y mae arnynt ei angen ac i dalu amdano, yn hytrach na gorfod bodloni meini prawf llym ar gyfer taliadau cymorth. Yr ydym yn sôn am oedolion anabl sydd, yn gywir ddigon, yn anhapus â'r sefyllfa bresennol ac yn awyddus i gael mwy o gyfle i fynegi barn am y gwasanaethau a gânt a'r modd y maent yn eu cael. Rhaid bod gan y bobl dan sylw yr hawl i wneud y dewisiadau hyn, ac mae'n hollbwysig i'r dewisiadau hyn fod ar gael i bobl anabl.

Credaf fod angen i Lywodraeth y Cynulliad roi mwy o flaenoriaeth i fyw'n annibynnol yng Nghymru, ac i weithio'n agosach gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn ymateb i anghenion pobl anabl ac yn ystyried eu barn am y gwasanaethau hynny.

Cefais y fraint o gynnal digwyddiad ar gyfer y Gwasanaeth Cyfraith Anabledd yn y Senedd ym mis Mawrth. Yr oedd y gwasanaeth yn lansio adroddiad ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol i bobl anabl yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid cael system gyfeirio integredig, gan ganiatáu i wybodaeth am gleientiaid gael ei throsglwyddo'n rhwydd rhwng sefydliadau. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ymgyrch i hybu hawliau pobl anabl. Hwyrach y bydd y Gweinidog yn amlinellu yn ei ymateb sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn hybu eiriolaeth ar gyfer pobl anabl, fel y gallant

looking at issues such as housing, health and education, and will detail how he plans to improve services to ensure that these citizens are being put first.

I understand that centres for independent living have been developed to enable disabled people to campaign for the right to independent living and to work towards service improvements. They are an effective way of providing information on a whole range of issues to disabled people, through a forum that is controlled and managed by disabled people. I very much hope that such centres will play a key role in supporting disabled people. It is essential that we continue to champion the rights, equality and independence of all disabled people, so that we create a truly fair society for all.

Eleanor Burnham: I am delighted to be taking part in the Welsh Conservatives debate—maybe for more than one reason, who knows? I will leave that to your judgment.

In my early career I managed homecare, and many of the people who received that care were disabled. I would like to think that things have moved on since then, and that we can show that we are a much more caring society. Despite the fact that we will be subject to cuts from another place, I am sure that we can question the Government on how it will do its best. After all, the cuts were not implemented by the Liberal Democrats, but by the Labour Party. There is an ongoing national strategy on independent living, and I hope that we can all do our utmost to support this worthy campaign, because some of the key facts are quite stark. In Wales, 33 per cent of disabled working-age adults live in poverty. That has increased from 30 per cent in the mid-1990s. Only half the disabled people of working age are in work, compared with 80 per cent for non-disabled people. Over 77 per cent of disabled people who responded to the survey said that they worried about their finances often, very often, or always. That is sad. I could go on, as there are many other statistics, but I do not have time to discuss them today.

gael y wybodaeth iawn wrth ystyried materion megis tai, iechyd ac addysg. Hwyrach hefyd y bydd yn rhoi manylion am y modd y mae'n bwriadu gwella gwasanaethau i sicrhau mai'r dinasyddion hyn sy'n dod yn gyntaf.

Yr wyf ar ddeall bod canolfannau ar gyfer byw'n annibynnol wedi'u datblygu i alluogi pobl anabl i ymgyrchu dros yr hawl i fyw'n annibynnol ac i weithio tuag at wella gwasanaethau. Maent yn fodd effeithiol i ddarparu gwybodaeth i bobl anabl am ystod eang o faterion, drwy fforwm sy'n cael ei reoli a'i redeg gan bobl anabl. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd gan ganolfannau o'r fath rôl allweddol wrth gefnogi pobl anabl. Mae'n hanfodol inni barhau i hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pawb sy'n anabl, er mwyn creu cymdeithas sy'n wirioneddol deg i bawb.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn falch iawn cael cymryd rhan yn nadl Ceidwadwyr Cymru—am fwy nag un rheswm efallai, pwy a wŷr? Cewch chi farnu.

Yn gynnar yn fy ngyrfa bŵm yn rheoli gofal yn y cartref, ac yr oedd llawer o'r bobl a gâi'r gofal hwnnw yn anabl. Hoffwn feddwl bod pethau wedi symud ymlaen ers hynny, ac y gallwn ddangos ein bod yn gymdeithas fwy gofalgar o lawer. Er gwaetha'r ffaith y byddwn yn dioddef toriadau o fan arall, yr wyf yn siŵr y gallwn holi'r Llywodraeth am y modd y bydd yn gwneud ei gorau. Wedi'r cyfan, nid y Democratiaid Rhyddfrydol a gyflwynodd y toriadau, ond y Blaid Lafur. Mae yna strategaeth genedlaethol gyfredol ar fyw'n annibynnol, a gobeithio y gallwn wneud ein gorau glas i gefnogi'r ymgyrch werth chweil hon, oherwydd mae rhai o'r ffeithiau allweddol yn eithaf trist. Yng Nghymru mae 33 y cant o oedolion anabl o oedran gweithio yn byw mewn tloidi. Mae hynny wedi codi o 30 y cant ganol yr 1990au. Dim ond hanner y bobl anabl o oedran gweithio sydd mewn gwaith, o'u cymharu ag 80 y cant o bobl nad ydynt yn anabl. Dywedodd dros 77 y cant o bobl anabl a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn poeni am eu sefyllfa ariannol yn aml, yn aml iawn, neu drwy'r amser. Mae hynny'n drist. Gallwn barhau, gan fod llawer o ystadegau eraill, ond

nid oes gennyf amser i'w trafod heddiw.

I welcome this debate and the opportunity to raise awareness of disability issues in Wales, and I thank the Conservatives for tabling the debate. Independent living is a key component of giving disabled people control over their own lives and their futures. I am the equality spokesperson for my party, and some of the testimony that we hear in the Committee on Equality of Opportunity makes for salutary listening.

This e-petition was opened on 23 April, calling for the national strategy for independent living, which we fully support. It is important that we all acknowledge and recognise the importance of this campaign, because one way in which independent living can be increased is by creating more choice. Direct payments offer that choice, but, currently, Scope's statistics tell us that although 82,000 people receive local authority care in Wales, fewer than 2,000 receive direct payments. That is something that desperately needs to be improved.

There is also a need for more research into how information, advice and advocacy services are meeting the needs of disabled people. It is appropriate that this gap in research be filled as soon as possible. A successful call for a national strategy would lead to the sort of consultation and evidence gathering that could provide effective and efficient provision, particularly in light of the economic situation.

Independent living does not mean abandoning disabled people; in fact, it should mean quite the opposite: choice, opportunity, and support where this is needed. It is encouraging that the social model of disability is being debated in the campaign. Having a disability should not mean that people are excluded or marginalised in our society. We are a much more caring society. However, many in the charity sector say that, despite warm words on the issue, there is a lack of action. Wales still lags significantly behind on this important issue. It is not an issue of central leadership, although we should have that. Local authority input is important, because some are worried about

Croesawaf y ddadl hon a'r cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion anabledd yng Nghymru, ac yr wyf yn diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl. Mae byw'n annibynnol yn elfen allweddol i roi rheolaeth i bobl anabl dros eu bywyd a'u dyfodol. Fi yw llefarydd fy mhlaidd ar gydraddoldeb, ac mae'n fuddiol gwranddo ar ychydig o'r dystiolaeth a glywn yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Agorwyd yr e-ddeiseb hon, sy'n galw am y strategaeth genedlaethol ar fyw'n annibynnol, ar 23 Ebrill ac yr ydym yn ei chefnogi'n llawn. Mae'n bwysig inni i gyd gydnabod a sylweddoli pwysigrwydd yr ymgyrch hon, oherwydd un ffordd o gynyddu gallu pobl i fyw'n annibynnol yw creu mwy o ddewis. Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig y dewis hwnnw, ond ar hyn o bryd dengys ystadegau Scope fod llai na 2,000 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol, er bod 82,000 o bobl yn cael gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth y mae dirfawr angen ei wella.

Mae angen mwy o ymchwil hefyd i'r modd y mae gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth yn diwallu anghenion pobl anabl. Mae'n briodol i'r bwlch hwn mewn ymchwil gael ei lenwi cyn gynted ag sy'n bosibl. Byddai cais llwyddiannus am strategaeth genedlaethol yn arwain at y math o waith ymgynghori a chasglu tystiolaeth a allai gynnig darpariaeth effeithiol ac effeithlon, yn enwedig o gofio'r sefyllfa economaidd.

Nid yw byw'n annibynnol yn golygu troi cefn ar bobl anabl; yn wir, dylai olygu'r gwrthwyneb yn llwyr: dewis, cyfle, a chymorth lle mae eu hangen. Mae'n galonogol fod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei drafod yn yr ymgyrch. Ni ddylai'r ffaith fod gan bobl anabledd olygu eu bod yn cael eu hallgáu o'n cymdeithas neu eu gwthio i'r cyrion. Yr ydym yn gymdeithas fwy gofalgaf o lawer. Fodd bynnag, mae llawer yn y sector elusennol yn dweud bod yna ddiffyg gweithredu er gwaetha'r geiriau cynnes. Mae Cymru ar ei hôl hi'n sylweddol o hyd yn y mater pwysig hwn. Nid mater o arweinyddiaeth ganolog ydyw, er y dylem gael hynny. Mae cyfraniad awdurdodau lleol

having to close facilities if those who receive direct payments, for example, choose not to use facilities such as the day centres that are currently provided. There is therefore grave danger that many people will be severely disadvantaged.

I urge the Minister to help to clarify how this petition calling for a strategy will be answered. There is no overarching vision of how to make independent living a reality for disabled people. That is what we call on the Welsh Assembly Government to clarify.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak in this debate. I commend the comments of our spokesman, Mark Isherwood, on this, which encapsulated many of the positions taken by the Conservative Party in Wales regarding the ability to respect and to promote an individual's strength and role in our society irrespective of disability, or the ability of the individual to live a full and, as some people might class it, a normal life. As policy makers and resource providers, we should be able to break down as many barriers as possible so that people feel that they are contributing to society, they have self-esteem, and they have pride in the role that they are able to play in their community.

3.20 p.m.

Some simple measures could be taken to alleviate many of the obstacles that many disabled people feel incapacitates them, such as access to transport. Significant measures, such as direct payments—which have been touched upon by many speakers this afternoon—could be put in place to empower individuals and their families. We have led the debate on that, and various Government Ministers have responded, particularly the Deputy Minister, although I understand that the Minister for Social Justice and Local Government will respond today. There is something amiss when so few people in Wales choose to take up the direct payment option that would empower them to be in control of commissioning the services that they require, although I fully accept Helen Mary Jones's point that it must not be a

yn bwysig, oherwydd mae rhai'n pryderu am orfod cau cyfleusterau os na fydd y rheini sy'n cael taliadau uniongyrchol, er enghraifft, yn dewis defnyddio cyfleusterau megis y canolfannau dydd a ddarperir ar hyn o bryd. Mae yna berygl mawr, felly, y bydd llawer o bobl dan anfantais ddifrifol.

Yr wyf yn annog y Gweinidog i helpu egluro sut y bydd y ddeiseb hon, sy'n galw am strategaeth, yn cael ei hateb. Nid oes gweledigaeth gyffredin ynghylch sut i wneud byw'n annibynnol yn realiti i bobl anabl. Dyna'r ydym yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i'w egluro.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Yr wyf yn cymeradwyo sylwadau ein llefarydd, Mark Isherwood, sydd wedi crynhoi nifer o safbwyntiau'r Blaid Geidwadol yng Nghymru ar y gallu i barchu a hybu cryfder unigolyn a'i rôl yn ein cymdeithas, waeth beth fo'i anabled neu ei allu i fyw bywyd llawn, a'r hyn y byddai rhai pobl yn ei alw'n fywyd normal. Fel gwneuthurwyr polisi a darparwyr adnoddau, dylem allu dileu cynifer o'r rhwystrau ag sy'n bosibl, fel y bydd pobl yn teimlo'u bod yn cyfrannu i gymdeithas, bod ganddynt hunan-barch, a bod ganddynt falchder yn y rôl y maent yn gallu'i chyflawni yn eu cymuned.

Gellid cymryd rhai camau syml i leihau nifer o'r rhwystrau y mae nifer o bobl anabl yn teimlo'u bod yn eu hanalluogi, megis gallu defnyddio cludiant. Gellid rhoi mesurau sylweddol ar waith, megis taliadau uniongyrchol—mae llawer o siaradwyr wedi cyfeirio atynt y prynhawn yma—i rymuso unigolion a'u teuluoedd. Yr ydym wedi arwain y ddadl ar hynny, ac mae amryw Weinidogion o'r Llywodraeth wedi ymateb, yn enwedig y Dirprwy Weinidog, er fy mod ar ddeall mai'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol fydd yn ymateb heddiw. Mae rhywbeth o'i le pan fydd cyn lleied o bobl yng Nghymru yn dewis manteisio ar y taliadau uniongyrchol a fyddai'n eu grymuso i reoli comisiynu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Er hynny yr wyf yn derbyn pwynt Helen Mary

universal option, and we would not subscribe to that. What we would subscribe to is the option of choice, because certain people would not want to go down the route of direct payments. However, when you hear that more people in Cheshire are accessing direct payments than do so in the whole of Wales, you must ask where the Government is going wrong in promoting them and making them accessible.

Transport is also an important tool to empower disabled people, and Guide Dogs for the Blind has lobbied for people with sight impairment to be able to access buses and make best use of route planners and timetables by having a voice recognition facility in bus shelters, rather than digital displays. The digital displays in many bus shelters are irrelevant to someone whose sight is impaired, and they are a major block to people's ability to use certain modes of transport to get to a job, to participate in a community project or to engage in a leisure activity. I hope that the Minister will come forward with ideas that the Government has taken on board, because I have raised the issue with the two First Ministers to have held that office since I became an Assembly Member, and also with the Minister for transport. I do not doubt their commitment to working with the various transport consortia across Wales and local authorities to provide such facilities, but sadly, to date, there seems to be no universal programme across Wales. We do not see that in the capital city's bus shelters and bus routes, despite it appearing a relatively simple means of allowing people with visual impairment to use the transport options available to them. If people can use viable transport options, employment opportunities will open up.

Many people with disabilities, as I saw when I visited Remploy in Aberdare, welcome the opportunity to be productive, and I commend the work that goes on in Remploy. I recently held a meeting with the Minister for Business and Budget about the fine work that Remploy does in South Wales Central, and the services

Jones yn llawn, sef na ddylai hwn fod yn ddewis i bawb, ac ni fyddem yn cefnogi hynny. Yr hyn y byddem yn ei gefnogi fyddai cael dewis, oherwydd ni fyddai rhai pobl am fynd ar drywydd taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, pan glywch fod mwy o bobl yn Swydd Gaer nag yng Nghymru gyfan yn cael taliadau uniongyrchol, rhaid gofyn beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o'i le o ran eu hybu a sicrhau eu bod ar gael yn hwylus.

Mae cludiant hefyd yn arf pwysig i rymuso pobl anabl, ac mae Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion wedi llobio dros sicrhau bod pobl sydd â nam ar eu golwg yn gallu cael mynediad i fysiau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cynllunio teithiau ac amserlenni, trwy gael cyfleuster adnabod llais mewn arosfannau bysiau, yn hytrach na sgriniau arddangos digidol. Nid yw'r sgriniau arddangos digidol sydd mewn llawer o arosfannau bysiau'n berthnasol i bobl sydd â nam ar eu golwg, ac maent yn rhwystr mawr i allu pobl i ddefnyddio rhai dulliau o deithio er mwyn cael swydd, cymryd rhan mewn prosiect cymunedol neu gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn cynnig syniadau y mae'r Llywodraeth wedi'u hystyried, oherwydd yr wyf wedi codi'r mater gyda'r ddau sydd wedi bod yn Brif Weinidogion ers imi ddod yn Aelod o'r Cynulliad, a chyda'r Gweinidog dros drafndiaeth hefyd. Nid wyf yn amau eu hymrwymiad i weithio gyda'r gwahanol gonsortia trafndiaeth ledled Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau o'r fath, ond yn anffodus, hyd yma, ymddengys na cheir yr un rhaglen gyffredin ar draws Cymru. Nid ydym yn gweld hynny yn arosfannau bysiau ac ar hyd llwybrau bysiau'r brifddinas, er ei bod yn ymddangos yn ffordd gymharol syml o ganiatáu i bobl sydd â nam ar eu golwg ddefnyddio'r opsiynau trafndiaeth sydd ar gael iddynt. Os gall pobl ddefnyddio opsiynau ymarferol o ran trafndiaeth, bydd cyfleoedd cyflogaeth yn ymddangos iddynt.

Mae llawer o bobl ag anableddau yn croesawu'r cyfle i fod yn gynhyrchol, fel y gwelais pan ymwelais â Remploy yn Aberdâr, ac yr wyf yn cymeradwyo'r gwaith sy'n digwydd yn Remploy. Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ynghylch y gwaith da y mae

that many of those employees could provide to the public and private sector. However, it is about having a joined-up approach so that people can access transport, work opportunities and the ability to raise their income, which would increase the improvement outcomes in their lives and help them to be productive partners in our communities. Many people with a disability find that they want to be in that position.

The final and critical plank is education. The Enterprise and Learning Committee recently undertook a detailed review into post-18 education opportunities for students with disabilities. I would welcome it if the Minister could tell us in his response what work he has undertaken with his colleague, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, to take forward the key recommendations of that report. I had the pleasure of visiting and working with parents in Craig-y-Parc School in Pentyrch to bring forward a petition to the Petitions Committee. Some key, evidence-based recommendations will, hopefully, provide the education opportunities that will make a massive impact on children's post-18 education.

So, I hope the Minister will address my key points under the three tenets of education, employment, and transport and community participation.

Lorraine Barrett: Thank you for the opportunity to contribute to the debate. I am sure that the Minister will give a lot of information about the positive things that the Welsh Assembly Government has done to make life that much easier for people with disabilities.

I want to discuss two issues. One is to do with direct payments, on which I agree with Helen Mary Jones. While it is right that those who want to have direct payments are able to choose how they live their lives and who supports them, I remember a case a few years ago concerning a constituent of mine with a severe learning disability who had her own money to look after, but she gave it away to charities. They were wonderful causes, but she was not paying her bills. She had no idea

Remploy yn ei wneud yng Nghanol De Cymru, a'r gwasanaethau y gallai nifer o'r gweithwyr hynny eu darparu i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Fodd bynnag, mae'n golygu cael dull gweithredu cydgysylltiedig, fel y gall pobl ddefnyddio cludiant, cyfleoedd gwaith a'r gallu i godi eu hincwm, a fyddai'n cynyddu'r canlyniadau o ran gwella'u, ac yn eu helpu i fod yn bartneriaid cynhyrchiol yn ein cymunedau. Mae nifer o bobl ag anabledd yn gweld eu bod am fod yn y sefyllfa honno.

Addysg yw'r elfen olaf a hollbwysig. Yn ddiweddar cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Dysgu adolygiad manwl o gyfleoedd addysg ôl-18 i fyfyrwyr ag anableddau. Byddwn yn falch pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym, yn ei ymateb, pa waith y mae wedi'i wneud gyda'i gydweithiwr, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, i weithredu argymhellion allweddol yr adroddiad hwnnw. Cefais y pleser o ymweld â rhieni Ysgol Craig-y-Parc ym Mhen-tyrch a gweithio gyda hwy i gyflwyno deiseb i'r Pwyllgor Deisebau. Gobeithio y bydd rhai argymhellion allweddol, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn darparu'r cyfleoedd addysg a fydd yn cael effaith enfawr ar addysg ôl-18 plant.

Gobeithio, felly, y bydd y Gweinidog yn ymateb i'm pwyntiau allweddol dan y tri phennawd, sef addysg, cyflogaeth a chludiant, a chyfranogiad cymunedol.

Lorraine Barrett: Diolch am y cyfle i gyfrannu i'r ddadl. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi llawer o wybodaeth am y pethau cadarnhaol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cyflawni i wneud bywyd gymaint â hynny'n haws i bobl ag anableddau.

Yr wyf am drafod dau fater. Mae'r naill yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol, a chytunaf â Helen Mary Jones ar hynny. Er ei bod yn iawn i'r rheini sy'n dymuno cael taliadau uniongyrchol allu dewis sut i fyw eu bywyd a dewis pwy sy'n eu cynorthwyo, cofiaf am achos, ychydig flynyddoedd yn ôl, ynghylch un o'm hetholwyr a oedd ag anabledd dysgu difrifol. Yr oedd ganddi ei harian ei hun i ofalu amdano, ond fe'i rhoddodd i elusennau. Yr oeddent yn

of how to manage her budgets, so social services had to step in and control her money to ensure that she could remain in her own home. That may be an extreme example, but we need to tread carefully to ensure that people can look after themselves.

The other issue that I want to highlight is a situation that I would not want to see happen to people again. Scope is a good charity that I do a lot of work with, and I go to a lot of its conferences and take part in its workshops, where we have good fun while learning from each other about the challenges that we all face in life, whether we have a disability or not. A few years ago, Scope suddenly, and without any consultation, closed its support homes. At the one in Cyncoed, there were 11 residents. It was very upsetting at the time. I am not making a political point, but the local authority here in Cardiff was expected to re-house 11 people who had learning disabilities and physical disabilities almost immediately, and it was really hard. One of my constituents has only recently been accepted by Cardiff's social services. For all these years, he has been under Cheltenham's service services, and for that reason, he did not have regular access to a social worker, because a social worker had to come from Cheltenham. He was unable to access facilities in Cardiff to undertake training or take up job opportunities, because he was still under Cheltenham. The matter became very legalistic, and I became frustrated and wrote many letters to Cardiff council. I never blamed the council, because it was in a position where it had to take these people on without any forward planning; it had just happened that way. My constituent, and his friends who had been in the Cyncoed support home with him, felt vulnerable and alone and they did not know which way to go. It was very frustrating. I want to put that on the table, because it should not happen to vulnerable people in our communities. He should not have had to wait four or five years, or however long it was, to be able to feel independent and to receive the support from his local authority that, thankfully, he now gets. However, a few of those people are currently living in temporary

achosion teilwng iawn, ond nid oedd yn talu ei biliau. Nid oedd ganddi syniad sut i reoli ei chyllidebau, felly, bu'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd a rheoli ei harian er mwyn sicrhau y gallai barhau yn ei chartref ei hun. Hwyrach fod honno'n enghraifft eithafol, ond mae angen inni droedio'n ofalus er mwyn sicrhau y gall pobl ofalu amdanynt eu hunain.

Y mater arall yr wyf am dynnu sylw ato yw sefyllfa na fyddwn am ei gweld yn digwydd i bobl eto. Mae Scope yn elusen dda ac yr wyf yn gwneud llawer o waith gyda hi. Byddaf yn mynd i nifer o'i chynadleddau ac yn cymryd rhan yn ei gweithdai, lle'r ydym yn cael llawer o hwyl wrth ddysgu gan ein gilydd am yr heriau yr ydym bob un yn eu hwynebu mewn bywyd, ni waeth a oes gennym anabledd ai peidio. Ychydig flynyddoedd yn ôl, caeodd Scope ei chartrefi cymorth yn sydyn heb ymgynghori o gwbl. Yr oedd 11 o bobl yn byw yn y cartref yn Cyncoed. Yr oedd yn ddigwyddiad a achosodd ofid mawr ar y pryd. Nid gwneud pwynt gwleidyddol yr wyf, ond yr oedd disgwyl i'r awdurdod lleol yma yng Nghaerdydd ailgartrefu 11 o bobl ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol, yn syth bron, ac yr oedd yn anodd iawn. Dim ond yn ddiweddar y cafodd un o'm hetholwyr ei dderbyn gan wasanaethau cymdeithasol Caerdydd. Am yr holl flynyddoedd hyn, bu dan ofal gwasanaethau cymdeithasol Cheltenham, ac am y rheswm hwnnw ni châi weld gweithiwr cymdeithasol yn rheolaidd am fod gweithiwr cymdeithasol yn gorfod dod o Cheltenham. Ni allai gael cyfleusterau yng Nghaerdydd er mwyn cael hyfforddiant neu gymryd cyfleoedd gwaith am ei fod yn dal dan ofal Cheltenham. Daeth y mater yn un deddfol iawn, euthum i deimlo'n rhwystredig iawn ac ysgrifennais nifer o lythyrau at gyngor Caerdydd. Ni welais fai ar y cyngor erioed, oherwydd yr oedd mewn sefyllfa lle bu'n rhaid iddo gymryd y bobl hyn heb flaengynllunio o gwbl; fêl hynny y digwyddodd pethau. Yr oedd fy etholwr, a'i gyfeillion a fu'n byw yng nghartref cymorth Cyncoed gydag ef, yn teimlo'n ddiameddifyn ac yn unig, ac ni wyddent pa ffordd i droi. Yr oedd yn brofiad a achosodd rwystredigaeth fawr. Yr wyf am sôn am hynny oherwydd ni ddylai ddigwydd i bobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau. Ni ddylai fy etholwr fod wedi gorfod aros pedair neu bum mlynedd,

accommodation, even after all this time.

Jonathan Morgan: I welcome this debate this afternoon. It is important that we revisit what is being done to support disabled people to lead more independent lives. Much of this afternoon's debate has focused on the financial considerations and, in particular, how direct payments can help to empower people to take more control over their daily lives. However, one of the greatest expressions of independence that we have is the freedom to enjoy what is around us, namely the ability to go to work, to visit friends and family and to enjoy what our towns and cities have to offer. For many people, and for many disabled people, the accessibility of public transport is one of the greatest challenges. Upgrading our public transport infrastructure, particularly our railway stations, needs to be part of the package of measures to help disabled people to live more independent lives.

A study undertaken by Multiple Sclerosis Society Cymru, for instance, has found that only 45 per cent of railway stations in Wales provide access for people in wheelchairs or access to the train itself. In my constituency, a number of railway stations are inaccessible to people who are disabled. They are pretty bad for anyone who might have a slight problem walking, for an older person who may be infirm, or even for a young mum with a pram—goodness help her if she has a pram and a whole load of shopping as well. However, for anyone who is disabled, trying to get over some of the railway bridges, which are only accessible by sets of steps, to get onto the right platform, is an absolute impossibility.

3.30 p.m.

I would point anybody who knows the northern part of Cardiff to the railway station in Llandaff North, which is an absolute

neu pa gyfnod bynnag y bu'n aros, i allu teimlo'n annibynnol a chael y gefnogaeth gan ei awdurdod lleol y mae'n ei chael erbyn hyn, diolch byth. Fodd bynnag, mae rhai o'r bobl dan sylw yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd, hyd yn oed ar ôl yr holl amser.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn croesawu'r ddadl hon y prynhawn yma. Mae'n bwysig inni ailystyried yr hyn sy'n cael ei wneud i gynorthwyo pobl anabl i fyw bywyd mwy annibynnol. Mae llawer o'r ddadl y prynhawn yma wedi canolbwyntio ar yr ystyriaethau ariannol, ac yn benodol ar y modd y gall taliadau uniongyrchol helpu grymuso pobl i reoli eu bywyd pob dydd i raddau mwy helaeth. Fodd bynnag, un o'r arwyddion mwyaf sydd gennym o annibyniaeth yw'r rhyddid i fwynhau'r hyn sydd o'n hamgylch, sef y gallu i fynd i'r gwaith, ymweld â theulu a ffrindiau, a mwynhau'r hyn sydd gan ein trefi a'n dinasoedd i'w gynnig. I lawer o bobl, ac i lawer o bobl anabl, un o'r heriau mwyaf yw gallu defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae angen sicrhau bod uwchraddio ein seilwaith cludiant cyhoeddus, yn enwedig ein gorsafoedd rheilffyrdd, yn rhan o becyn o fesurau i helpu pobl anabl i fyw bywyd mwy annibynnol.

Er enghraifft, mae astudiaeth a wnaed gan Gymdeithas Multiple Sclerosis Cymru wedi darganfod mai 45 y cant yn unig o orsafoedd rheilffyrdd Cymru sy'n darparu mynediad i bobl mewn cadeiriau olwyn, neu fynediad i'r trêni ei hun. Yn fy etholaeth i, ni all pobl sy'n anabl gael mynediad o gwbl i nifer o orsafoedd rheilffyrdd. Maent yn ddigon gwael i unrhyw un sydd efallai'n cael ychydig anhawster cerdded, neu i unigolyn hŷn sydd efallai'n fethedig, neu hyd yn oed i fam ifanc gyda phram—druan ohoni os oes ganddi bram a llwyth o siopa hefyd. Fodd bynnag, i unrhyw un sy'n anabl mae ceisio croesi rhai o'r pontydd dros ein rheilffyrdd, nad oes modd eu cyrraedd heb ddringo set o risiau, i gyrraedd y plattform cywir yn gwbl amhosibl.

Byddwn yn cyfeirio unrhyw un sy'n gyfarwydd â rhan ogleddol Caerdydd at orsaf reilffordd Ystum Taf, sy'n gwbl warthus.

disgrace. It is a sizeable railway station that serves the communities of Llandaff North and the southern part of Whitchurch. However, if you are disabled, you would not be able to get onto the correct platform to get into the centre of town. You can get onto the right platform to get to the Valleys, but you could not get onto the right platform to get into the centre of Cardiff. That is an appalling situation that many people face, not just here in Cardiff, but elsewhere in Wales, where disabled people are simply unable to access our railway stations.

I raised this issue with the Deputy First Minister on 3 March and, in our exchange, I pointed to a UK Government fund—apparently valued at around £300 million—that has been set aside to revamp smaller railway stations. The fund requires the railway operators and other interested parties to bid for money to be drawn down to revamp those railway stations, and I understand that the Assembly Government could help with this process. In the past few years, only £400,000 of that money has been allocated to upgrade small stations in Wales. When I raised this with the Deputy First Minister, he said this

‘I have, however, agreed to look, with a number of disability groups, at ways in which we can assist, one of which will be to draw down some of that funding....I accept that this is an important issue, and I will give it as much attention as I can.’

I think that we need to do better. We need to be identifying, with those organisations that are responsible for the stations, which ones require urgent upgrades and which ones need upgrades so that they comply with the relevant disability legislation. We would be doing a huge service to the people of Wales—to those who are disabled and to others who struggle to access railway stations—if we were to find a way of drawing down money to support the improvements that the stations need. There is no reason, Minister, why we cannot make progress. I believe that it is quite cruel not to reform our smaller railway stations. We should not be

Mae'n orsaf reilffordd gweddol fawr sy'n gwasanaethu cymunedau Ystum Taf a rhan ddeheuol yr Eglwys Newydd. Fodd bynnag, os ydych yn anabl, ni fydddech yn gallu cyrraedd y platfform cywir i fynd i ganol y ddinas. Gallwch gyrraedd y platfform iawn i fynd i'r Cymoedd, ond ni allech gyrraedd y platfform iawn i gyrraedd canol Caerdydd. Mae'n sefyllfa ofnadwy sy'n wynebu llawer o bobl, nid yn unig yma yng Nghaerdydd, ond mewn mannau eraill yng Nghymru lle na all pobl anabl gyrraedd ein gorsafoedd rheilffordd o gwbl.

Codais y mater hwn gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ar 3 Mawrth, ac fel rhan o'r drafodaeth rhyngom cyfeiriais at gronfa sydd gan Lywodraeth y DU—mae'n debyg ei bod yn werth oddeutu £300 miliwn—sydd wedi'i neilltuo i ailwampio gorsafoedd rheilffordd llai o faint. Dan y gronfa hon rhaid i weithredwyr rheilffyrdd, a phobl eraill sydd â diddordeb, wneud cais am gael defnyddio arian i ailwampio'r gorsafoedd rheilffordd hynny, a deallaf y gallai Llywodraeth y Cynulliad helpu gyda'r broses. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, £400,000 yn unig o'r arian hwnnw sydd wedi'i ddyrannu i uwchraddio gorsafoedd llai o faint yng Nghymru. Pan godais y mater gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, dyma a ddywedodd

‘Fodd bynnag, yr wyf wedi cytuno i edrych, gyda nifer o grwpiau anabledd, ar ffyrdd y gallwn gynorthwyo, ac un o'r ffyrdd hynny fydd defnyddio rhywfaint o'r cyllid dan sylw... Derbyniaf fod hwn yn fater pwysig, a byddaf yn rhoi cymaint o sylw ag y gallaf iddo.’

Credaf fod angen inni wneud yn well na hynny. Mae angen inni nodi, gyda'r sefydliadau sy'n gyfrifol am y gorsafoedd, pa rai y mae angen eu huwchraddio ar frys a pha rai y mae angen eu huwchraddio er mwyn iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar anabledd. Byddem yn gwneud cymwynas fawr â phobl Cymru—â phobl sy'n anabl ac â phobl eraill sy'n cael trafferth defnyddio gorsafoedd rheilffordd—pe baem yn cael hyd i ffordd i gael gafael ar arian i gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol yn y gorsafoedd. Nid oes dim rheswm, Weinidog, pam na allwn wneud cynnydd. Credaf ei bod yn greulon iawn peidio â gwella ein

consigning disabled people to leading less fulfilled lives because of our failure to make public transport more accessible.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): Thank you, Presiding Officer, for the opportunity to present the response on behalf of the Government.

I, along with other Members, welcome the opportunity to publicly support the principles of the campaign. I will say at the outset that it is apparent from the contributions of many Members that the debate cuts across all of the Assembly's portfolios. Although I will be able to respond to most of the points made, it may be more appropriate for other Ministers to respond to some of the issues raised and I will take up those issues with them directly, following this debate.

Independent living is about understanding the barriers that disabled people face in their everyday lives, and it is about tackling those barriers head on. Disabled people should have the same opportunities and choices as non-disabled people and have control of their lives. The purpose of the Government amendment before you today is to recognise the work that has already been done by disability groups in Wales in the promotion, understanding and advancement of the social model of disability. In 2002, the Welsh Assembly Government adopted the social model of disability as the foundation of its work on disability, and the model aims to encourage society to consider the concept of disability in a different way. The basis for this model is not the disabled person's impairment, but how society reacts to it. Disabled people have the right to access the same services, information and resources as non-disabled people.

The Welsh Assembly Government has worked, and continues to work, with Disability Wales and other disability groups to promote the social model of disability. Changing attitudes and behaviours through awareness of the social model will help to remedy many of the issues that face disabled people. There are many social, institutional and environmental barriers that prevent

gorsafodd rheilffordd llai o faint. Ni ddylem fod yn gorfodi pobl anabl i fyw bywyd llai boddhaus oherwydd ein methiant ni i wneud cludiant cyhoeddus yn fwy hwylus.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch, Lywydd, am y cyfle i gyflwyno'r ymateb ar ran y Llywodraeth.

Yr wyf fi, ynghyd ag Aelodau eraill, yn croesawu'r cyfle i gefnogi egwyddorion yr ymgyrch yn gyhoeddus. Hoffwn ddweud ar y dechrau ei bod yn amlwg, o gyfraniadau nifer o Aelodau, fod y ddadl yn berthnasol i bob portffolio yn y Cynulliad. Er y gallaf ymateb i'r rhan fwyaf o'r pwyntiau a wnaed, efallai y bydd yn fwy priodol i Weinidogion eraill ymateb i rai o'r materion a godwyd, a byddaf yn trafod y materion hynny gyda hwy'n uniongyrchol, ar ôl y ddadl hon.

Mae byw'n annibynnol yn golygu deall y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn eu bywyd pob dydd, ac mae'n golygu mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny'n uniongyrchol. Dylai pobl anabl gael yr un cyfleoedd a'r un dewisiadau â phobl nad ydynt yn anabl, a dylent allu rheoli eu bywyd. Diben gwelliant y Llywodraeth sydd ger eich bron heddiw yw cydnabod y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan grwpiau anabledd yng Nghymru i hybu a hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd a chael pobl i'w ddeall. Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth y Cynulliad y model cymdeithasol o anabledd fel i'w gwaith ar anabledd, a nod y model yw annog cymdeithas i ystyried y cysyniad o anabledd mewn ffordd wahanol. Nid nam yr unigolyn anabl yw'r sylfaen ar gyfer y model hwnnw, ond y modd y mae cymdeithas yn ymateb i'r nam. Mae gan bobl anabl yr hawl i allu cael yr un gwasanaethau, yr un wybodaeth a'r un adnoddau â phobl nad ydynt yn anabl.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gydag Anabledd Cymru a grwpiau anabledd eraill i hybu'r model cymdeithasol o anabledd, ac mae'n parhau i wneud hynny. Bydd newid agweddau ac ymddygiad trwy ymwybyddiaeth o'r model cymdeithasol yn helpu unioni nifer o'r problemau sy'n wynebu pobl anabl. Mae yna nifer o rwystrau cymdeithasol, sefydliadol ac amgylcheddol

disabled people from participating fully in our society on an equal basis, and independent living is about finding practical solutions to remove some of those barriers.

Helen Mary asked about the national strategy for independent living. Independent living features in many of our policies and strategies across the Welsh Assembly Government, and I would be keen to explore work that brings that together so that we can build on that. I hope that answers your question.

Most Members who spoke touched on direct payments and, again, that issue falls within another portfolio. However, I will say that, wherever possible, we are trying to extend the principle that people should be able to take their own decisions. I accept what Lorraine and Helen Mary said about a fallback position whereby local authorities can deliver these services in case of need and the importance of looking at each case individually. I certainly aspire to extend that principle.

Paul raised the issue of standards of housing. Our aim is to build 6,500 new affordable homes in Wales to meet housing need. Those houses are being built to attain a lifetime standard, so that people will not have to move out of their property if there is a change in their circumstances, physical or otherwise. There are also funding streams like the social housing grant and the physical adaptation grant. We have provided for the disabled facilities grant through local authorities, which is worth about £35 million in 2008-09, to take necessary improvements forward.

The Welsh Assembly Government has also part-funded Disability Wales's Words to Wales project, which promotes understanding and knowledge of the barriers faced by disabled people in everyday life through poetry and performance. Two creative writing workshops were held in different parts of Wales, involving disabled people with a range of impairments. The information

sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan yn llawn ac yn gyfartal yn ein cymdeithas, ac mae a wnelo byw'n annibynnol â dod o hyd i atebion ymarferol i ddileu rhai o'r rhwystrau hynny.

Yr oedd Helen Mary yn holi am y strategaeth genedlaethol ar gyfer byw'n annibynnol. Mae byw'n annibynnol yn cael sylw yn llawer o'n polisiau a'n strategaethau ar draws Llywodraeth y Cynulliad, a byddwn yn awyddus i archwilio gwaith sy'n dwyn hynny ynghyd, fel y gallwn adeiladu arno. Gobeithio bod hynny'n ateb eich cwestiwn.

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o Aelodau a siaradodd at daliadau uniongyrchol, ac unwaith eto mae'r mater hwnnw'n perthyn i bortffolio arall. Fodd bynnag, yr wyf am ddweud ein bod, ble bynnag y mae'n bosibl, yn ceisio ymestyn yr egwyddor y dylai pobl allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Derbyniaf yr hyn a ddywedodd Lorraine a Helen Mary ynghylch cael sefyllfa i syrthio'n ôl arni, lle gall awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn os oes angen, a phwysigrwydd edrych ar bob achos yn unigol. Fy nod, yn sicr, yw ymestyn yr egwyddor honno.

Cyfeiriodd Paul at safonau tai. Ein nod yw adeiladu 6,500 o dai fforddiadwy newydd yng Nghymru i ddiwallu angen o ran tai. Caiff y tai hynny eu hadeiladu i gyrraedd safon gydol oes, fel na fydd yn rhaid i bobl symud allan o'u heiddo os bydd eu hamgylchiadau corfforol neu eu hamgylchiadau eraill yn newid. Mae yna ffrydiau ariannu hefyd, megis y grant tai cymdeithasol a'r grant addasiadau ffisegol. Yr ydym wedi darparu ar gyfer y grant cyfleusterau i'r anabl, a oedd yn werth oddeutu £35 miliwn yn 2008-09, trwy awdurdodau lleol er mwyn gwneud gwelliannau angenrheidiol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhan-ariannu prosiect Anabledd Cymru, sef Geiriau i Gymru, sy'n defnyddio barddoniaeth a pherfformio i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn eu bywyd pob dydd. Cynhaliwyd dau weithdy ysgrifennu creadigol mewn gwahanol rannau o Gymru, a oedd yn cynnwys pobl anabl ag

gathered during these workshops highlighted the real-life experiences of disabled people in Wales. The stories told through this project can promote the social model of disability, shifting the focus from theoretical understanding to real-life construction and consideration.

There is much more to be done. I am delighted that the Equality Act 2010, which received Royal Assent in April of this year, will give stronger rights to disabled people as well as enhancing the rights of other groups. It will provide an opportunity to simplify and streamline the law and to focus on equality outcomes. It will also enable the Welsh Assembly Government to bring forward specific equality duties for public sector organisations, giving us the levers to make a positive difference to the lives of people in Wales. That may also answer some of the questions on the local government issues that Members raised earlier.

It is not acceptable in a modern democratic society for people to still be unable to enter shops because of poor building design and store layout. Disability Wales's Streets Ahead campaign, which Paul Davies was involved with, aimed to achieve inclusive access to local high street shops and services for disabled people across Wales. It was initiated following a survey of members that asked which issues concerned them most in the broad area of access to high street shopping, when the barriers to access shops, amenities and other services on the high street emerged as the priority issue.

Disabled people should not live in fear of losing their livelihoods because of the outdated, stereotyped prejudices that remain in some small sections of society. The emphasis has to be on what people can achieve rather than on what they can not. We must look at the barriers that society puts in their way. The creation of a truly equal society should be the objective for all of us. That is why it is important to raise awareness of independent living and how it can contribute to enabling disabled people to

ystod o wahanol namau. Yr oedd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y gweithdai hyn yn tynnu sylw at brofiadau go iawn pobl anabl yng Nghymru. Gall yr hanesion a adroddwyd trwy'r prosiect hwn hybu'r model cymdeithasol o anabledd, gan symud y ffocws o ddeall y ddamcaniaeth i greu ac ystyried y model yn y byd go iawn.

Mae llawer mwy i'w wneud. Yr wyf yn falch iawn y bydd Deddf Cydraddoldeb 2010, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill eleni, yn rhoi hawliau cryfach i bobl anabl yn ogystal â gwella hawliau grwpiau eraill. Bydd yn gyfle i symleiddio a mireinio'r gyfraith ac i ganolbwyntio ar ganlyniadau cydraddoldeb. Bydd hefyd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan roi inni'r grymoedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru. Efallai y bydd hynny hefyd yn ateb rhai o'r cwestiynau am y materion llywodraeth leol a godwyd yn gynharach gan Aelodau.

Nid yw'n dderbyniol, mewn cymdeithas ddemocrataidd fodern, fod pobl yn methu o hyd â mynd i mewn i siopau oherwydd bod cynllun yr adeilad a threfn y siop yn wael. Nod ymgyrch Anabledd Cymru, Sôn am Strydoedd, y bu Paul Davies yn ymwneud â hi oedd sicrhau mynediad cynhwysol i siopau a gwasanaethau lleol ar y stryd fawr i bobl anabl ledled Cymru. Dechreuwyd yr ymgyrch yn sgil arolwg o aelodau, a ofynnodd pa faterion a oedd yn eu pryderu fwyaf o ran mynediad yn gyffredinol i siopau'r stryd fawr. Gwelwyd mai'r brif broblem oedd y rhwystrau o ran gallu mynd i mewn i siopau, cyfleusterau a gwasanaethau eraill ar y stryd fawr.

Ni ddylai pobl anabl fyw gan ofni colli eu bywoliaeth oherwydd y rhagfarnau hen ffasiwn ar sail stereoteipiau sy'n dal i fodoli mewn rhai rhannau bach o gymdeithas. Rhaid pwysleisio'r hyn y gall pobl ei gyflawni yn hytrach na'r hyn na allant ei gyflawni. Rhaid inni edrych ar y rhwystrau y mae cymdeithas yn eu hachosi iddynt. Dylai creu cymdeithas wirioneddol gyfartal fod yn nod inni i gyd. Dyna pam mae'n bwysig cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch byw'n annibynnol, a sut y gall gyfrannu at alluogi pobl anabl i

reach their full potential.

The publication of the first Welsh Ministers' report on implementation of the disability equality duty has enabled us to identify where the Welsh Assembly Government and public sector are in relation to delivering equality for disabled people. Progress has been made and, in September 2009, the Welsh Assembly Government established the sensory loss steering and reference group to identify the issues experienced by people with a range of sensory loss when accessing healthcare.

3.40 p.m.

The Disabled Children Matter Wales campaign, which is based around the Welsh Assembly Government's seven core aims for children and young people, has raised issues about improving the life chances and equal opportunities of our disabled children and young people. Huw Lewis, the Deputy Minister for Children, has pledged to work across the Assembly Government to improve services to support disabled children and their families.

Andrew R.T. Davies raised issues around education. Leighton Andrews, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, and I have discussed these issues, and I know that he has established, or is in the process of establishing, a task and finish group with regard to additional learning needs.

The independent living campaign is about identifying action that seeks to remove the barriers that prevent disabled people from participating fully in our society. It is about achieving a fair and just society for all our citizens in Wales, to improve equality of outcome for all and to ensure that people have the opportunity to reach their full potential. The Welsh Assembly Government and I fully support those aims. I urge Members to support the amendments to the motion today and to recognise the positive contribution that Disability Wales's Independent Living NOW! campaign will make in advancing the social model of disability in Wales.

gyrraedd eu potensial llawn.

Mae cyhoeddi adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru ar weithredu'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl wedi ein galluogi i weld ble mae Llywodraeth y Cynulliad a'r sector cyhoeddus arni o ran sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl. Mae cynnydd wedi'i wneud, ac ym mis Medi 2009 sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad y grŵp llywio a chyfeirio ar gyfer pobl sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw, er mwyn nodi'r problemau a gaiff pobl sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw i wahanol raddau, wrth geisio cael gofal iechyd.

Mae'r ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru, sy'n seiliedig ar saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, wedi codi materion ynghylch gwella cyfle cyfartal i'n plant a'n pobl ifanc anabl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, wedi addo gweithio ar draws Llywodraeth y Cynulliad i wella gwasanaethau i gynorthwyo plant anabl a'u teuluoedd.

Cododd Andrew R.T. Davies faterion yn ymwneud ag addysg. Mae Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a minnau wedi trafod y materion hyn, a gwn ei fod wedi sefydlu, neu ei fod wrthi'n sefydlu, grŵp gorchwyl a gorffen ar anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ymgyrch ar fyw'n annibynnol yn golygu nodi camau gweithredu sy'n ceisio dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan yn llawn yn ein cymdeithas. Mae a wnelo â sicrhau cymdeithas deg a chyfiawn i'n holl ddinasyddion yng Nghymru, gwella cydraddoldeb o ran canlyniadau i bawb, a sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial llawn. Mae Llywodraeth y Cynulliad a minnau'n cefnogi'r nodau hynny'n llwyr. Anogaf Aelodau i gefnogi'r gwelliannau i'r cynnig heddiw ac i gydnabod y cyfraniad cadarnhaol y bydd ymgyrch Anabledd Cymru, Byw'n Annibynnol NAWR!, yn ei wneud i hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd

yng Nghymru.

Mark Isherwood: I thank all those who contributed to what I consider to be a consensual and generally positive debate. Helen Mary started by stating that she supported most of what I said. I always get a pleasant tingle when Helen tells me that she supports most of what I have said. [*Laughter.*]

Helen Mary Jones: Do not get too used to it. [*Laughter.*]

Mark Isherwood: Party politics aside, when I had round-table meetings and meetings with other organisations, those in attendance all recognised that, whatever the outcome of the general election would be, the financial climate was going to be tight. Therefore, as they said, we need smart money, not more money. I will not get into the party politics of this today, because I do not want to this to become party political. We must move from an era in which success was measured by how much money we spent, to an era in which success is measured by how well it is spent.

As Helen Mary said, the social model of disability has a long way to go, but the campaign has the great advantage of having the opportunity to tell success stories of people who have managed to live more independently because of personalisation and direct payments. As she said, we need direct co-operation between organisations. In referring to direct payments, Helen said that she heard what I had to say, but I must emphasise that it was not what I had to say: in each instance I was quoting what the organisations representing and working with disabled people had to say. As she said, we must subscribe to making direct payments more easily available as an option, but there must be a choice. As I and many other speakers have said, this is not about compulsion or exposing the most vulnerable people to situations that would not meet their needs. As Helen Mary and the Minister said, we must continue to provide a good safety net of public services for everyone who needs

Mark Isherwood: Diolch i bawb a gyfrannodd at ddadl sydd, yn fy marn i, wedi bod yn ddadl gydsyniol a chadarnhaol yn gyffredinol. Dechreuodd Helen Mary drwy ddweud ei bod yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r hyn a ddywedais. Byddaf bob amser yn teimlo rhyw ias bleserus pan fydd Helen yn dweud wrthyf ei bod yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r hyn yr wyf wedi'i ddweud. [*Chwerthin.*]

Helen Mary Jones: Peidiwch â dechrau dod yn gyfarwydd â hynny. [*Chwerthin.*]

Mark Isherwood: I roi gwleidyddiaeth bleidiol o'r neilltu, pan gefais gyfarfodydd o gwmpas y bwrdd a chyfarfodydd gyda sefydliadau eraill, yr oedd pawb a oedd yn bresennol yn cydnabod, waeth beth fyddai canlyniad yr etholiad cyffredinol, y byddai'r hinsawdd ariannol yn dynn. Felly, fel y dywedwyd, nid mwy o arian y mae arnom ei angen, ond arian clyfar. Nid wyf am fynd â hwn i faes gwleidyddiaeth bleidiol heddiw, oherwydd nid wyf am i wleidyddiaeth bleidiol fod yn rhan ohono. Rhaid inni symud o gyfnod lle câi llwyddiant ei fesur yn ôl faint o arian yr oeddem yn ei wario, i gyfnod lle caiff llwyddiant ei fesur yn ôl pa mor dda y caiff ei wario.

Fel y dywedodd Helen Mary, mae llawer o waith i'w wneud eto o ran y model cymdeithasol o anabledd, ond mantais fawr yr ymgyrch yw cael y cyfle i adrodd hanesion am lwyddiant pobl sydd wedi llwyddo i fyw'n fwy annibynnol oherwydd teilwra gwasanaethau a thaliadau uniongyrchol. Fel y dywedodd, mae angen i sefydliadau gydweithio'n uniongyrchol â'i gilydd. Wrth gyfeirio at daliadau uniongyrchol, dywedodd Helen iddi glywed yr hyn a oedd gennyf i'w ddweud, ond rhaid imi bwysleisio nad fi oedd yn dweud y pethau hynny: ym mhob achos, yr oeddwn yn dyfynnu'r hyn a oedd gan y sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl ac sy'n gweithio gyda hwy i'w ddweud. Fel y dywedodd, rhaid inni gytuno i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn ddewis sydd ar gael yn haws, ond rhaid cael dewis. Fel y dywedais i a nifer o siaradwyr eraill, nid yw hyn yn golygu gorfodaeth neu roi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn sefyllfaoedd na fyddai'n diwallu eu hanghenion. Fel y

them. As she said, we support a national strategy, which is what the campaigners are asking for. Given the support shown, we trust that Plaid Cymru will be supporting our motion.

Paul Davies rightly referred to removing barriers to inclusion and the campaign that draws attention to the barriers faced by disabled people. He also highlighted the importance of housing and planning issues, where some local authorities and planning committees were not meeting Welsh Government guidance and regulatory disability standards. A constituent of mine recently applied for permission for disability adaptations to their house, which was refused. My constituent was then refused a planning application for a rural exception site, even though my understanding of Welsh Government guidance is that, as a local person, my constituent should have any disability needs met.

As Eleanor said, independent living is the key component for giving disabled people control. Andrew R.T. Davies spoke of the need to promote the individual's role in society, irrespective of disability. He highlighted the transport barriers facing disabled people and the fine work of Remploy in south Wales. Having visited Remploy in Wrexham, I must also add to that the fine work that is being done in north Wales. Andrew also spoke about education opportunities for disabled students. Lorraine spoke about the right to choice, while protecting vulnerable people. That is exactly what this is about. She also raised issues relating to cross-border support when people move. Jon Morgan referred to transport and the important role of updating railway stations to help disabled people to live independent lives.

I am delighted that the Minister announced that the Welsh Government publicly supports the principles of the campaign, which will advance the social model of disability,

dywedodd Helen Mary a'r Gweinidog, rhaid inni barhau i ddarparu rhwyd ddiogelwch dda o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer pawb y mae arnynt eu hangen. Fel y dywedodd, yr ydym yn cefnogi strategaeth genedlaethol, sef yr hyn y mae'r ymgyrchwyr yn gofyn amdano. O ystyried y gefnogaeth a ddangoswyd, hyderwn y bydd Plaid Cymru'n cefnogi ein cynnig.

Yr oedd Paul Davies yn iawn i gyfeirio at ddileu'r rhwystrau rhag cynhwysiant a'r ymgyrch sy'n tynnu sylw at y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd materion tai a chynllunio, lle nad oedd rhai awdurdodau lleol a phwyllgorau cynllunio'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynlluniad a safonau rheoleiddio o safbwynt anabledd. Yn ddiweddar, gwnaeth un o'm hetholwyr gais am ganiatâd i wneud addasiadau yn ei gartref oherwydd anabledd, a gwrthodwyd y cais. Yna, gwrthodwyd cais cynllunio gan fy etholwr am safle eithriedig gwledig, ond os wyf wedi deall canllawiau Llywodraeth Cymru yn iawn, dylai fy etholwr, fel rhywun o'r ardal leol, gael yr hyn y mae arnoi'i angen i ddiwallu ei anghenion oherwydd ei anabledd.

Fel y dywedodd Eleanor, byw'n annibynnol yw'r allwedd i roi rheolaeth i bobl anabl. Siaradodd Andrew R.T. Davies am yr angen i hybu rôl yr unigolyn mewn cymdeithas, waeth beth fo'i anabledd. Tynnodd sylw at y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl o ran cludiant a'r gwaith da y mae Remploy yn ei wneud yn y de. Ar ôl ymweld â Remploy yn Wrecsam, rhaid i mi hefyd ychwanegu at hynny y gwaith da sy'n cael ei wneud yn y gogledd. Soniodd Andrew hefyd am gyfleoedd addysg i fyfyrwyr anabl. Soniodd Lorraine am yr hawl i ddewis, gan amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Dyna'n union y mae'n ei olygu. Cyfeiriodd hefyd at faterion yn ymwneud â chymorth trawsffiniol pan fydd pobl yn symud. Cyfeiriodd Jon Morgan at gludiant a rôl bwysig moderneiddio gorsafoedd rheilffyrdd, i helpu pobl anabl i fyw bywyd annibynnol.

Yr wyf yn falch iawn fod y Gweinidog wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddorion yr ymgyrch hon yn gyhoeddus, a fydd yn hyrwyddo'r model cymdeithasol o

removing barriers to access and inclusion for all. As he said, the emphasis should be on what people can achieve, rather than on what they cannot. I have been told by the charities and disability organisations that choice over direct payments is the key to independent living, personalisation and control. However, independent living is about so much more than that.

I will finish by thanking everyone for their contributions, and, from what I have heard, I hope that there will be unanimous support for today's motion, as that would send out a powerful message to all those who hope and trust that we will show our collective support that we are listening and that we stand together with them.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (William Graham) i'r Gadair am 3.46 p.m.
The Temporary Deputy Presiding (William Graham) took the Chair at 3.46 p.m.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Gwario Arian Cyhoeddus yn Effeithiol Efficient Public Spending

The Temporary Deputy Presiding Officer: The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Alun Cairns.

Kirsty Williams: I move that

the National Assembly for Wales:

anabledd gan ddileu rhwystrau rhag mynediad a chynhwysiant i bawb. Fel y dywedodd, dylid pwysleisio'r hyn y gall pobl ei gyflawni yn hytrach na'r hyn na allant ei gyflawni. Mae elusennau a sefydliadau anabledd wedi dweud wrthyf mai cael dewis ynghylch taliadau uniongyrchol yw'r allwedd i fyw'n annibynnol, teilwra gwasanaethau a chael rheolaeth. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu byw'n annibynnol â llawer mwy na hynny.

Hoffwn orffen trwy ddiolch i bawb am eu cyfraniadau, ac o'r hyn a glywais gobeithio y bydd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig heddiw, oherwydd byddai hynny'n anfon neges bwerus i bawb sy'n gobeithio ac yn hyderu y byddwn yn dangos ein cydgefngogaeth, ein bod wrthi'n gwranddo ac yn sefyll ochr yn ochr â hwy.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, the vote will be deferred until voting time.

Kirsty Williams: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

believes that every pound of public money spent in Wales must be spent as effectively as possible and so calls on the Welsh Assembly Government to bring forward plans to investigate waste in its spending. (NDM4474)

I begin by saying that we will be opposing the Government's amendment 1 this afternoon and supporting amendment 2, which I suspect will be the last one that we see tabled in the name of Alun Cairns. For those who are concerned about our ex-colleague's welfare, I can report that he was alive and well and seemed to be adjusting very well to his new environment when I bumped into him yesterday evening.

Following the near collapse of the banking system and the subsequent credit crunch and recession, no serious politician or economic commentator has been able to pretend that public expenditure could continue to grow and be maintained at the levels of recent times. Therefore, we need to ensure good value for money and the elimination of waste, as ineffectual spending can no longer be afforded by any institution. We believe that the Government needs to redouble its efforts to ensure that every penny of taxpayers' money is spent effectively and delivers for the people of Wales. Unfortunately, recent reports from the Auditor General for Wales have found that, across Welsh Assembly Government departments and Assembly Government-sponsored bodies, expenditure does not always match strategic objectives. Often, there was poor or little monitoring of expenditure on Government schemes, and, given the substantial amounts of money that the Government has undoubtedly spent on programmes in specific areas, the outcomes were disappointing.

There are two examples that strike me in which we could have done better. In evidence to a recent meeting of the Finance Committee, we looked at the example of merging the former quangos into the Welsh Assembly Government. At the time, among the reasons given for bringing the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board and Education and Learning Wales

yn credu ei bod yn rhaid gwario pob punt o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru mor effeithiol â phosibl ac felly yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynlluniau i ymchwilio i wastraff yn ei gwariant. (NDM4474)

Hoffwn ddechrau drwy ddweud y byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1 gan y Llywodraeth y prynhawn yma ac yn cefnogi gwelliant 2, sef y gwelliant olaf a gyflwynir yn enw Alun Cairns, mi dybiaf. I'r rheini ohonoch sy'n poeni am les ein cyn-gydweithiwr, gallaf ddweud ei fod yn fyw ac yn iach a'i fod yn addasu'n dda iawn i'w amgylchedd newydd, yn ôl pob golwg, pan ddigwyddais gyfarfod ag ef neithiwr.

Ar ôl i'r system fancio ddod yn agos iawn at fethu'n llwyr, ac ar ôl y dirwasgiad a'r wasgfa ar gredyd a ddilynodd hynny, nid yw'r un gwleidydd na'r un sylwebydd economaidd sydd o ddifrif ynghylch ei waith wedi gallu esgus y gallai gwariant cyhoeddus barhau i gynyddu a chael ei gynnal ar y lefelau a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae angen inni sicrhau gwerth da am yr arian ac i ddileu gwastraff, oherwydd ni all yr un sefydliad fforddio gwario arian yn aneffeithiol mwyach. Credwn fod angen i'r Llywodraeth wneud mwy o ymdrech eto i sicrhau bod pob ceiniog o arian trethdalwyr yn cael ei gwario'n effeithiol ac yn sicrhau canlyniadau i bobl Cymru. Yn anffodus, dangosodd adroddiadau'n ddiweddar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru nad yw gwariant, ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad a chyrrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, bob amser yn cyd-fynd ag amcanion strategol. Yn aml, yr oedd monitro gwariant ar gynlluniau'r Llywodraeth yn wael neu'n brin, a'r canlyniadau'n siomedig o gofio'r symiau sylweddol o arian y mae'r Llywodraeth heb os wedi'u gwario ar raglenni mewn meysydd penodol.

Sylwais ar ddwy enghraifft lle gallem fod wedi gwneud yn well. Mewn tystiolaeth i gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn ddiweddar, buom yn edrych ar yr enghraifft pan gafodd yr hen gwangos eu hymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad. Un o'r rhesymau a roddwyd ar y pryd dros dynnu Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, a Dysgu ac Addysgu Cymru i mewn i

into the Welsh Assembly Government were to achieve better public service delivery, the supposed greater accountability of those particular bodies, and efficiencies. The gaining of efficiencies was one of the main drivers stated by the Government in pursuing that policy. Yet, as the Finance Committee saw, it was impossible to identify an efficiency saving gained from those mergers, especially when it came to the overlapping of staff functions.

3.50 p.m.

It is important to note that, in that evidence session, we saw that there had been a significant growth in the number of civil servants working for the Welsh Assembly Government. Indeed, a new post had been created by the Welsh Assembly Government, which is perhaps understandable, given that we have a new system—

Rhodri Morgan: I have two questions for Kirsty. Does she accept that one of the difficulties with the WDA, which led to its merger with the Assembly Government, was that it had doubled its staff in quite a short period from 500 to 1,000 and that those staff were paid about 20 per cent more than our civil servants for the same level of responsibility? Does she accept that that was an unsustainable position? On a completely different topic, she is introducing the issue of efficiency, but how does she think the Liberal Democrat-controlled or majority councils, of which we have three or four in Wales, compare? Are they exempt from the criticisms that she is making now?

Kirsty Williams: First, I am really glad that you have brought to our attention the significant growth in the number of personnel at the WDA, because those figures were not brought to the Finance Committee by the Permanent Secretary. Indeed, I would argue that, without the acknowledgement of that significant growth in the figures, we were not getting a true picture of what had happened with the workforce in that organisation. So, I am grateful to you for clarifying that. You are

Lywodraeth y Cynulliad oedd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, sicrhau bod y cyrff penodol hynny'n fwy atebol, yn ôl pob sôn, a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Yr oedd sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn un o'r prif resymau a roddwyd gan y Llywodraeth dros ddilyn y polisi hwnnw. Eto i gyd, fel y gwelodd y Pwyllgor Cyllid, yr oedd yn amhosibl nodi arbediad effeithlonrwydd yn deillio o'r achosion hynny o uno, yn enwedig o ran gorgyffwrdd yn swyddogaethau'r staff.

Mae'n bwysig nodi inni weld, yn y sesiwn dystiolaeth honno, fod nifer y gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol. Yn wir, yr oedd swydd newydd wedi'i chreu gan Lywodraeth y Cynulliad, sydd efallai'n ddealladwy, o gofio bod gennym system newydd—

Rhodri Morgan: Mae gennyf ddau gwestiwn i Kirsty. A yw'n derbyn mai un o'r anawsterau gydag Awdurdod Datblygu Cymru, a arweiniodd at ei uno â Llywodraeth y Cynulliad, oedd iddo ddyblu nifer ei staff, mewn cyfnod cymharol fyr, o 500 i 1,000, a bod y staff hynny'n cael tuag 20 y cant yn fwy o dâl na'n gweision sifil ni am yr un lefel o gyfrifoldeb? A yw'n derbyn nad oedd y sefyllfa honno'n gynaliadwy? Ar bwnc hollol wahanol, mae'n cyflwyno mater effeithlonrwydd, ond pa mor effeithlon, yn ei barn hi, yw cynghorau a reolir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol, neu gynghorau lle mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol fwyafrif, y mae gennym dri neu bedwar ohonynt yng Nghymru? A ydynt wedi'u heithrio o'r feirniadaeth y mae'n ei mynegi'n awr?

Kirsty Williams: Yn gyntaf, yr wyf yn wirioneddol falch ichi dynnu ein sylw at y cynnydd sylweddol yn nifer y staff yn Awdurdod Datblygu Cymru, oherwydd ni ddaeth yr Ysgrifennydd Parhaol â'r ffigurau hynny i'r Pwyllgor Cyllid. Yn wir, heb wybod am y cynnydd sylweddol hwnnw yn y ffigurau, byddwn yn dadlau nad oeddem yn cael darlun cywir o'r hyn a oedd wedi digwydd gyda'r gweithlu yn y sefydliad hwnnw. Felly, yr wyf yn ddiolchgar ichi am

right that, given that substantial growth and the efficiency of that organisation, it was, potentially, the right decision to bring the WDA in. However, not a single one of those people you were talking about was made redundant as a result of that process. They all went into the infamous 'pool', and the Permanent Secretary was able to give us no reassurances whatsoever about the efficiencies that had resulted from the merger.

You are right to point to local authorities, regardless of who controls them. Whether it is the Liberal Democrats, Labour or independents who control them, no public sector organisation can be exempt from examining every single penny it spends. The times are too difficult to let anybody off the hook, and everybody will have to play their part. That goes for whoever controls a local authority. I am sure that those local authorities and the Welsh Local Government Association would agree with your sentiments.

To go back to the point that I was making about the huge growth in the number of civil servants in the Welsh Assembly Government, at the same time, we have seen exponential growth in the amount of money that the Welsh Assembly Government spends on consultants. I find that curious. One would have thought that, with the new expertise being brought into the Welsh Assembly Government and the growth in the number of civil servants, the need to look outside and use external consultants to carry out work on behalf of the Welsh Assembly Government would have shrunk. In fact, we have seen a significant growth in both sectors, which I think the Government will need to get to grips with.

However, for me, the most shocking example of the Government's failure to get to grips with these very difficult questions was the evidence given to the Finance Committee by the representative of the NHS finance directors. Let me be absolutely clear: no-one is saying that the money to which he referred as being spent ineffectively was not going on patient care. I acknowledge that it was being

egluo hynny. Yr ydych yn iawn mai'r penderfyniad i ymgorffori'r Awdurdod Datblygu oedd y penderfyniad cywir o bosibl, o gofio'r cynnydd sylweddol hwnnw ac effeithlonrwydd y sefydliad. Fodd bynnag, ni chafodd neb o blith y bobl yr oeddech yn sôn amdanynt eu diswyddo o ganlyniad i'r broses. Aeth pob un ohonynt i mewn i'r 'gronfa' warthus honno, ac ni fedrodd yr Ysgrifennydd Parhaol roi sicrwydd o gwbl inni o'r arbedion effeithlonrwydd a ddeilliodd o'r uno.

Yr ydych yn iawn i gyfeirio at awdurdodau lleol, waeth pwy sy'n eu rheoli. Ni waeth ai'r Democratiaid Rhyddfrydol, y Blaid Lafur ynteu gynghorwyr annibynnol sy'n eu rheoli, ni all yr un sefydliad yn y sector cyhoeddus gael ei eithrio rhag archwilio pob ceiniog y mae'n ei gwario. Yr ydym mewn cyfnod rhy anodd i adael i neb beidio â gwneud hynny, a bydd yn rhaid i bawb wneud eu rhan. Mae hynny'n wir, waeth pwy sy'n rheoli awdurdod lleol. Yr wyf yn siŵr y byddai'r awdurdodau lleol hynny a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno â'ch teimladau.

I ddychwelyd at y pwynt yr oeddwn yn ei wneud am y cynnydd enfawr yn nifer y gweision sifil yn Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym ar yr un pryd wedi gweld twf cynyddol yn yr arian y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wario ar ymgynghorwyr. I mi, mae hynny'n rhyfedd. Gyda'r arbenigedd newydd sydd wedi'i ymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad, a chyda'r cynnydd yn nifer y gweision sifil, byddech wedi meddwl y byddai'r angen i chwilio y tu allan a defnyddio ymgynghorwyr allanol i wneud gwaith ar ran Llywodraeth y Cynulliad wedi lleihau. Mewn gwirionedd, gwelsom gynnydd sylweddol yn y ddau sector, a chredaf y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hynny.

Fodd bynnag, i mi yr enghraifft fwyaf syfrdanol o fethiant y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r cwestiynau anodd iawn hyn oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid gan gynrychiolydd cyfarwyddwyr cyllid y GIG. Gadewch imi fod yn hollol glir: nid oes neb yn dweud nad oedd yr arian, a oedd yn cael ei wario'n aneffeithiol yn ôl y cynrychiolydd, yn cael ei wario ar ofal

spent on patient care. However, it cannot be acceptable for a Government to be told by one of its public servants that one fifth of the largest single budget that the National Assembly gives to a particular service can be spent ineffectively and on the wrong things without there being any worry about that or an urge to get to the bottom of the claim.

Alun Davies: I asked that question, of course, but you missed it at the Finance Committee, if you remember. What the representative of the directors was referring to was the structures of the health service. He went on to say that the changes that introduced by the Minister for Health and Social Services over the previous year would go a long way towards addressing those issues. If you are going to quote from other people's questions in committees, you should get it right and deal with the totality.

Kirsty Williams: You make an excellent point, Alun, in the sense that he claimed that the reorganisation that we had gone through would result in significant savings. However, when we asked the Minister for Health and Social Services to put a figure on those significant savings, she was unable to do so. In fact, she had drawn money out of the Minister for Finance and Public Service Delivery to pay for that reorganisation, but, when the Minister for finance at the time was asked what guarantees he was given in return for the additional money to pay for the reorganisation of the health service, and how much would be paid back by way of a more efficient service, he, too, was unable to put a figure on it. He could give the Finance Committee no guarantees that the reorganisation would result in a more efficient use of public expenditure. Again, although the number of health bodies has shrunk significantly as a part of that process, not a single senior manager has been made redundant. We continue to pay those people as part of the pool.

This Government's failure to address that stark statement by that finance director is a dereliction of its duty. We wrote immediately to the Minister for health to ask about her

cleifion. Yr wyf yn cydnabod iddo gael ei wario ar ofal cleifion. Fodd bynnag, rhaid ei bod yn annerbyniol i Lywodraeth gael gwybod gan un o'i gweision cyhoeddus y gallai un rhan o bump o'r gyllideb unigol fwyaf y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei rhoi i wasanaeth penodol fod yn cael ei gwario'n aneffeithiol ac ar y pethau anghywir, heb i neb bryderu ynghylch hynny neu ddangos awydd i ymchwilio i'r honiad.

Alun Davies: Fi a ofynnodd y cwestiwn hwnnw, wrth gwrs, ond ni chlywsoch hynny yn y Pwyllgor Cyllid, os cofiwch. Yr hyn yr oedd cynrychiolydd y cyfarwyddwyr yn cyfeirio ato oedd strwythurau'r gwasanaeth iechyd. Aeth yn ei flaen i ddweud y byddai'r newidiadau a gyflwynodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn flaenorol yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â'r problemau hynny. Os bwriadwch ddyfynnu o gwestiynau pobl eraill mewn pwyllgorau, dylech wneud hynny'n gywir a delio â'r cyd-destun cyfan.

Kirsty Williams: Mae gennych bwynt ardderchog, Alun, yn yr ystyr iddo honni y byddai'r ad-drefnu yr oeddem wedi'i weld yn arwain at arbedion sylweddol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi ffigur am yr arbedion sylweddol dan sylw, methodd â gwneud hynny. Mewn gwirionedd, yr oedd wedi tynnu arian oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus i dalu am yr ad-drefnu. Ond pan ofynnwyd i'r Gweinidog dros gyllid ar y pryd pa sicrwydd a gafodd yn gyfnewid am yr arian ychwanegol i dalu am ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, a faint ohono a fyddai'n cael ei ad-dalu ar ffurf gwasanaeth mwy effeithlon, methodd yntau â rhoi ffigur. Ni allai roi dim sicrwydd i'r Pwyllgor Cyllid y byddai'r ad-drefnu'n arwain at ddefnyddio gwariant cyhoeddus yn fwy effeithlon. Unwaith eto, er bod nifer y cyrff iechyd wedi gostwng yn sylweddol fel rhan o'r broses honno, nid oes yr un uwch-reolwr wedi'i ddiswyddo. Yr ydym yn dal i dalu'r bobl hynny sy'n rhan o'r gronfa.

Wrth fethu â mynd i'r afael â'r datganiad llym hwnnw gan y cyfarwyddwr cyllid, mae'r Llywodraeth yn esgeuluso'i dyletswydd. Ysgrifennais ar unwaith at y

plans to look at that statement and to find out whether it was true, in the hope of disproving it, but she said that she had no intention of doing so. As a result, that statement is not just bad for the budget, but bad for patient care, because the services are not being commissioned in the right places at the right time for the right patients. It is bad news for the budget, but it is also bad news for patients. Recently, we have seen new reports of the north Wales trust missing its targets on accident and emergency waiting times. I say to the Minister that if she is not interested in spending the money wisely, she could at least be interested in ensuring that patients get a consistently good level of service in the NHS, wherever they are in Wales.

Gweinidog dros iechyd i holi am ei chynlluniau i edrych ar y datganiad hwnnw a darganfod a oedd yn wir, yn y gobaiith y byddai'n cael ei wrthbrofi. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd yn bwriadu gwneud hynny o gwbl. O ganlyniad, nid i'r gyllideb yn unig y mae'r datganiad hwnnw'n niweidiol, oherwydd mae'n niweidiol hefyd i ofal cleifion, oherwydd nid yw'r gwasanaethau'n cael eu comisiynu yn y lleoedd cywir ar yr adeg gywir ar gyfer y cleifion cywir. Mae'n newyddion gwael i'r gyllideb, ond mae hefyd yn newyddion gwael i gleifion. Yn ddiweddar, gwelsom adroddiadau newydd am ymddiriedolaeth gogledd Cymru yn methu â chyrraedd ei thargedau o ran amseroedd aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys. Dywedaf wrth y Gweinidog, os nad oes ganddi ddiddordeb mewn gwario'r arian yn ddoeth, gallai o leiaf ddangos diddordeb mewn sicrhau bod cleifion yn cael lefel gyson dda o wasanaeth yn y GIG, ble bynnag y maent yng Nghymru.

The days of plenty, as acknowledged by everyone, are gone. We need to redouble our efforts—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] You can groan if you like, but that is the reality that we face. We can pretend that the situation does not exist—

Mae pawb yn cydnabod bod y dyddiau o fyw'n fras wedi dod i ben. Mae angen inni wneud mwy o ymdrech eto—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Griddfanwech chi, ond dyna'r realiti sy'n ein hwynebu. Gallwn esgus nad yw'r sefyllfa'n bodoli—

Leanne Wood: You have bemoaned the fact that the numbers of civil servants have grown, and you have talked about waste in the NHS, which suggests to me that you want to cut job numbers. The biggest expense in the public sector is staff salaries, so how many jobs do you think will go as a result of your Government's cuts, and do you now want to distance yourself from the statements that you have made previously that any public sector job losses in Wales would be disastrous for the Welsh economy?

Leanne Wood: Yr ydych wedi cwyno am y ffaith fod nifer y gweision sifil wedi cynyddu, ac yr ydych wedi sôn am wastraff yn y GIG, sy'n awgrymu i mi eich bod am gwtogi swyddi. Y gost fwyaf yn y sector cyhoeddus yw cyflogau staff. Felly, yn eich barn chi faint o swyddi a fydd yn diflannu o ganlyniad i doriadau eich Llywodraeth, ac a ydych yn awr am ymbellhau oddi wrth y datganiadau a wnaethoch o'r blaen, sef y byddai unrhyw achosion o golli swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn drychinebus i economi Cymru?

Kirsty Williams: If I had a choice between paying the salary of an ex-chief executive of an organisation that does not exist or a nurse on an accident and emergency ward, I know which one I would choose, and I know which my constituents would choose.

Kirsty Williams: Pe bai gennyf ddewis rhwng talu cyflog cyn-brif weithredwr sefydliad nad yw'n bodoli, neu gyflog nyrs ar ward damweiniau ac achosion brys, gwn pa un y byddwn yn ei ddewis, a gwn pa un y byddai fy etholwyr yn ei ddewis.

Leanne Wood: That is not the choice.

Leanne Wood: Nid dyna yw'r dewis.

Kirsty Williams: Well, that is the choice that

Kirsty Williams: Wel, dyna yw'r dewis y

your Government in the Assembly is failing to make. For the past three years, I have often had the pleasure of Plaid Cymru Members quoting from their 'One Wales' accord. Let me return the favour this afternoon. If you bother to take the time to read what has come from London this afternoon, you will see quite clearly—

Leanne Wood: Tuition fees.

Kirsty Williams: We all know the stance on tuition fees of those on that side of the Chamber. However, you will see quite clearly that any cuts to reduce the budget deficit, which you are not prepared to address in any way at all from your benches—there is no credible plan to address it—will happen only when it is feasible to do so and when it is advised by the Bank of England, an independent body. I would rather take my lessons from the Bank of England than from a party whose Deputy First Minister has presided over such a disastrous rise in unemployment rates in Wales.

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I move amendment 1 in my name. Delete all after 'and' and replace with:

welcomes the action the Welsh Assembly Government is already taking to find efficiency savings.

Nick Ramsay: I move amendment 2 in the name of Alun Cairns. Add as a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to commission an independent review of public expenditure in Wales.

I am pleased to support the Liberal Democrat motion today, and also to move the amendment tabled in the name of Alun Cairns. From listening to Leanne Wood earlier, you would think that the new Government had been in power for 12 years and not 12 hours. It is sad that the motion is not being viewed in the spirit in which it was tabled.

4.00 p.m.

mae eich Llywodraeth chi yn y Cynulliad yn methu â'i wneud. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cefais y pleser yn aml o glywed Aelodau Plaid Cymru yn dyfynnu o'u cytundeb 'Cymru'n Un'. Gadewch imi adaldu'r gymwynas y prynhawn yma. Os trafferthwch neilltuo amser i ddarllen yr hyn sydd wedi dod o Lundain y prynhawn yma, fe welwch yn glir iawn—

Leanne Wood: Ffioedd dysgu.

Kirsty Williams: Gwyddom i gyd beth yw safbwynt y rheini ar ochr draw'r Siambr ar ffioedd dysgu. Fodd bynnag, fe welwch yn glir iawn na fydd dim toriadau i leihau'r diffyg yn y gyllideb, nad ydych chi'n barod i fynd i'r afael ag ef o gwbl ar eich meinciau chi—nid oes yr un cynllun credadwy i fynd i'r afael ag ef—yn digwydd nes bydd cam o'r fath yn ymarferol, a bod Banc Lloegr, sy'n gorff annibynnol, yn dweud y dylid gwneud hynny. Byddai'n well gennyf gael gwersi gan Fanc Lloegr na chan blaid sydd â'i Dirprwy Brif Weinidog wedi llywyddu dros gynnydd mor drychinebus mewn cyfraddau diweithdra yng Nghymru.

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cynigiau welliant 1 yn fy enw i. Dileu popeth ar ôl 'ac' a rhoi:

yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn eu cymryd i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

Nick Ramsay: Cynigiau welliant 2 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu adolygiad annibynnol o wariant cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n bleser gennyf gefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, a chynnig hefyd y gweliant a gyflwynwyd yn enw Alun Cairns. O wrando ar Leanne Wood yn gynharach, gallech feddwl bod y Llywodraeth newydd wedi bod mewn grym ers 12 mlynedd, nid 12 awr. Mae'n drist nad yw'r cynnig yn cael ei ystyried yn yr ysbryd y cafodd ei gyflwyno.

The comprehensive spending review was the massive missing piece in the pre-budget report of the previous Chancellor, Alistair Darling. We need the debate today to determine the exact implications for public spending in Wales. Those implications are yet to be set out fully, but they have carried over in no large part from the economic mess that we have been left by the previous Government.

There can be no doubt about the scale of the challenges that are facing us: the financial crisis and the subsequent recession have put a significant strain on the public sector balance sheets of several countries. We accept that, but, unfortunately, Britain, because of the economic management over the last 13 years, is particularly badly placed to deal with the situation in which we find ourselves. We have been particularly affected: net borrowing is among the highest of the countries in the Organisation for Economic Co-operation and Development, and we now face the prospect of the largest budget deficit of any G20 country, and by far the largest in our peacetime history.

While the Fiscal Responsibility Act 2010 establishes an overarching framework for consolidation in the UK, the exact implications for public spending have yet to emerge. However, it is clear that public spending will be under considerable pressure, which makes forward planning vital. Our amendment 2 calls for an objective and independent review of public expenditure in Wales. I raised that issue with the Minister with responsibility for the budget in questions earlier.

We believe that the purpose of the review should be to inform the public and Plenary debate in advance of a future UK comprehensive spending review about the challenges and choices that will exist in a significantly constrained public spending environment. It is my view, and that of my party, that the Welsh Assembly Government should not try to do this on its own, unassisted. Looking to Scotland, its chief

Yr adolygiad cynhwysfawr o wariant oedd y darn coll enfawr yn adroddiad y Canghellor blaenorol, Alistair Darling, cyn y gyllideb. Mae arnom angen i'r ddadl heddiw benderfynu beth fydd yr union oblygiadau ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'r goblygiadau hynny wedi'u hegluro'n llawn eto, ond i raddau helaeth iawn gwaddol ydynt o'r llanast economaidd a adawyd inni gan y Llywodraeth flaenorol.

Nid oes amheuaeth o gwbl ynghylch maint yr heriau sy'n ein hwynebu: mae'r argyfwng ariannol a'r dirwasgiad wedyn wedi rhoi straen sylweddol ar fantolenni'r sector cyhoeddus mewn llawer gwlad. Derbyniwn hynny, ond yn anffodus mae'r amgylchiadau ym Mhrydain, oherwydd y modd y rheolwyd yr economi dros y 13 blynedd diwethaf, yn golygu ei bod yn arbennig o anodd inni ymdrin â'r sefyllfa yr ydym ynddi. Mae wedi effeithio'n arbennig o wael arnom ni: mae'r ffigur benthyca net ymhlith yr uchaf yn y gwledydd sy'n perthyn i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac yn awr yr ydym yn wynebu posibilrwydd cael y diffyg cyllidebol mwyaf o blith holl wledydd yr G20, a'r diffyg mwyaf o bell ffordd yn ein hanes ers y rhyfel byd diwethaf.

Er bod Deddf Cyfrifoldeb Ariannol 2010 yn sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer cydgyfnerthu yn y DU, nid yw'r union oblygiadau i wariant cyhoeddus wedi ymddangos eto. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd gwariant cyhoeddus dan bwysau sylweddol, sy'n golygu bod blaengynllunio'n hanfodol. Mae ein gwelliant 2 yn galw am adolygiad gwrthrychol ac annibynnol o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Codais y mater hwnnw gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y gyllideb, mewn cwestiynau'n gynharach.

Credwn y dylai'r adolygiad lywio'r ddadl gyhoeddus a dadl y Cyfarfod Llawn, cyn adolygiad cynhwysfawr o wariant yn y dyfodol yn y DU, ynghylch yr heriau a'r dewisiadau a fydd yn bodoli mewn amgylchedd cyfyngedig tu hwnt o ran gwariant cyhoeddus. Yn fy marn i, a barn fy mhlaidd, ni ddylai Llywodraeth y Cynulliad geisio gwneud hynny ar ei phen ei hun heb gymorth. O edrych ar yr Alban, mae ei phrif

economic adviser has published an assessment of the medium-term to long-term outlook for public expenditure. It passes no judgment on the wisdom or otherwise of the UK Government's plans, but details a number of scenarios and their implications for departmental expenditure limits, and in particular those for the Scottish budget.

It is clear that public spending will be under considerable pressure. The analysis of Scotland's chief economic adviser suggests that spending there may experience five consecutive years of real-terms cuts, and that it may take a further two years before growth returns to trend. We know, from statements made before the general election, the scale of cuts that the previous Government has set in train in Wales.

Therefore, I believe that the Welsh Assembly Government should commission its own assessment of the outlook for public spending in Wales. I know that the Minister for business, in her answer to my question earlier, said that this was something that the Finance Committee could do. The Finance Committee has done a great deal of good work on this, and I am sure that it will have an important role to play. However, I would put forward the view to the committee that we should be looking at having a cross-party review that brings different views together in a way that is necessary at this time, when we are facing unprecedented challenges to the economic situation.

I thank the Liberal Democrats for proposing the motion today. The amendment helps the motion, so I hope that it will be supported and that we can look together at ways in which the challenging situation that we are facing in Wales can be dealt with effectively.

Brian Gibbons: While it is probably true that the Liberal Democrats may have obtained some concessions from the formation of a coalition Government, there can be no doubt in anyone's mind that the heart of the new Westminster Government is right of centre, and that it has a right-of-centre policy towards the economy and public services. In that context, there is no

ymgyngorydd economaidd wedi cyhoeddi asesiad o'r rhagolygon tymor canolig i dymor hir ar gyfer gwariant cyhoeddus. Nid yw'n mynegi barn am ddoethineb neu annoethineb cynlluniau Llywodraeth y DU, ond mae'n manylu ar ifer o sefyllfaoedd a'u goblygiadau i gyfyngiadau ar wariant adrannol, yn enwedig y goblygiadau i gyllideb yr Alban.

Mae'n amlwg y bydd gwariant cyhoeddus dan bwysau sylweddol. Mae dadansoddiad prif ymgynghorydd economaidd yr Alban yn awgrymu y gallai gwariant yno ddioddef pum mlynedd yn olynol o doriadau mewn termau real, ac y gallai gymryd dwy flynedd arall cyn i dyfiant ddychwelyd i'r patrwm aferol. Gwyddom, o ddatganiadau a wnaed cyn yr etholiad cyffredinol, beth yw maint y toriadau y mae'r Llywodraeth flaenorol wedi dechrau eu cyflwyno yng Nghymru.

Felly, credaf y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ei hasesiad ei hun o'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Gwn fod y Gweinidog dros fusnes, yn ei hateb i'm cwestiwn yn gynharach, wedi dweud bod hwn yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor Cyllid ei wneud. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gwneud llawer iawn o waith da ar y mater, ac yr wyf yn siŵr y bydd iddo rôl bwysig. Fodd bynnag, hoffwn gyfleu'r farn i'r pwyllgor y dylem fod yn ystyried gwneud adolygiad trawsbleidiol sy'n cyfuno gwahanol safbwyntiau mewn modd sy'n angenrheidiol ar hyn o bryd, a ninnau'n wynebu heriau i'r sefyllfa economaidd na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Diolchaf i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ddod â'r cynnig gerbron heddiw. Mae'r gwelliant yn helpu'r cynnig, felly, gobeithio y caiff ei gefnogi ac y gallwn edrych gyda'n gilydd ar ffyrdd i fynd i'r afael yn effeithiol â'r sefyllfa anodd sy'n ein hwynebu yng Nghymru.

Brian Gibbons: Er ei bod hwyrach yn wir y gall y Democratiaid Rhyddfrydol fod wedi sicrhau rhai consesiynau o ffurfio Llywodraeth glymbleidiol, ni all neb amau nad yw craidd y Llywodraeth newydd yn San Steffan i'r dde o'r canol, ac mai polisi i'r dde o'r canol sydd ganddi ar gyfer yr economi a gwasanaethau cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwnnw, nid oes amheuaeth na fydd yn rhaid i

doubt that we, as an Assembly—particularly the Assembly Government—have to make the most effective use of public resources that are made available to us.

Back in 1997, many Labour supporters voted for devolution, not because they were the particularly interested in the constitutional niceties surrounding devolution, but because, after 18 years of a Tory regime, they never wanted to find themselves facing the full blast of another Conservative administration. However, I think that anyone looking at the nature of the agreement that has been signed by the Liberal Democrats and the Conservatives will realise that this right-of-centre economic pact will expose people to exactly the same rigours that they previously faced. There is a real challenge for the Assembly to demonstrate its mettle in being able to protect people from the worst ravages of those policies.

Our public services have some key objectives: to protect the most vulnerable, to provide ladders of opportunity to most and to pool the risk for virtually all. However, linked to that, our public services have a key role to promote community cohesion and social solidarity. Given that over half of our public expenditure in Wales is non-devolved and that it will be open to the declared policy of fragmentation and marketisation of the new UK Government, here in Wales, through devolution, we have the opportunity to do something different to maintain a progressive policy.

If we are to spend our money effectively, as the motion states, this is not simply a technocratic issue of process. Effective spending of money must also mean that practical priorities are identified in terms of how that money is spent. With the right-of-centre economic policy in Westminster, we must do everything that we can to protect those who will be most exposed to the consequences of that economic policy. Rather than through a market-based approach, wrapped in the cosmetic rhetoric of choice, we must support a public policy service delivery model here that is based on the principle of best for all. In contrast to the

ni, fel Cynulliad—yn enwedig Llywodraeth y Cynulliad—ddefnyddio mor effeithiol ag sy'n bosibl yr adnoddau cyhoeddus sydd ar gael inni.

Yn ôl yn 1997 pleidleisiodd nifer o gefnogwyr y Blaid Lafur dros ddatganoli, nid oherwydd bod ganddynt ddiddordeb arbennig yn y manylion cyfansoddiadol yn ymwneud â datganoli, ond oherwydd nad oeddent, ar ôl 18 mlynedd o Lywodraeth Doriadaidd, byth am wynebu holl ddinistr gweinyddiaeth Geidwadol arall. Fodd bynnag, credaf y bydd pawb a fydd yn edrych ar natur y cytundeb sydd wedi'i lofnodi gan y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn sylweddoli y bydd y cytundeb economaidd hwn i'r dde o'r canol yn golygu y bydd pobl yn wynebu'r un mesurau llym yn union ag a oedd yn eu hwynebu gynt. Mae her wirioneddol yn wynebu'r Cynulliad, lle bydd yn rhaid iddo ddangos ei wir anian o ran ei allu i amddiffyn pobl rhag difrod gwaethaf y polisiau hynny.

Mae gan ein gwasanaethau cyhoeddus rai amcanion allweddol: amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed, darparu cyfleoedd i'r mwyafrif, a chrynhof i'r risg i bron pawb. Fodd bynnag, yn gysylltiedig â hynny mae gan ein gwasanaethau cyhoeddus rôl allweddol wrth hyrwyddo cydlyniant cymunedol ac undod cymdeithasol. O gofio bod dros hanner ein gwariant cyhoeddus yng Nghymru heb ei ddatganoli, ac y bydd yn agored i'r polisi sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth newydd y DU, sef rhannu a marchnadeiddio, yma yng Nghymru mae gennym y cyfle, drwy ddatganoli, i wneud rhywbeth gwahanol i gynnal polisi blaengar.

Os ydym am wario'n harian yn effeithiol, fel y mae'r cynnig yn ei ddweud, nid mater technocratig o broses yn unig ydyw. Rhaid i wario arian yn effeithiol hefyd olygu nodi blaenoriaethau ymarferol ar gyfer y modd y caiff yr arian hwnnw ei wario. Gyda'r polisi economaidd i'r dde o'r canol yn San Steffan, rhaid inni wneud popeth posibl i amddiffyn y sawl a fydd fwyaf agored i ganlyniadau'r polisi economaidd hwnnw. Yn hytrach na mabwysiadu dull gweithredu'n seiliedig ar y farchnad, a gyflwynir yn ddeniadol mewn rhethreg sy'n sôn am ddewis, rhaid inni gefnogi model o ddarparu gwasanaethau polisi cyhoeddus yma yn seiliedig ar yr

processes of fragmentation, liberalisation and marketisation of our public services, we need to work to build much more effectively a vision of a unified, democratically accountable public service that is committed to listening and delivering for our citizens and service users.

There are two threats to our public services: the obvious risk of the massive and savage financial cuts that we have heard of previously—

Eleanor Burnham: Will you give way?

Brian Gibbons: Yes, after I finish this point. Similarly, there is a significant threat from the unacceptable variability and quality of a number of our public services that still continues.

Eleanor Burnham: You must accept some responsibility for the threat of impending cuts; after all, your Government and Chancellor were in power for 13 years and they decimated our pension funds, sold off the gold for a pittance and brought us to this appalling economic mess because they allowed the banks to go completely off the radar.

Brian Gibbons: Nothing I have heard about liberal economics, which means letting the market get on with it, persuades me otherwise. Anyone who looks at the agreement that has been signed over the last couple of days can see that right-wing liberal economics will play havoc with public services here in Wales.

However, there is a real challenge, not only in terms of finances, but from the unacceptable variability in quality of services. That variability is a symptom of the lack of capacity, particularly at senior managerial level, to deliver our public services. That needs to be addressed as a matter of urgency.

We need to be able to work more effectively to maximise the quality public service leadership that we have and while that may

egwyddor o sicrhau'r gorau i bawb. Yn wahanol i brosesau rhannu, rhyddfrydoli a marchnadeiddio'n gwasanaethau cyhoeddus, mae angen inni weithio i greu, mewn modd mwy effeithiol o lawer, weledigaeth o wasanaeth cyhoeddus unedig sy'n atebol yn ddemocrataidd ac wedi ymrwymo i wrando ar ein dinasyddion a'n defnyddwyr gwasanaeth ac i gyflawni ar eu cyfer.

Mae dau beth yn bygwth ein gwasanaethau cyhoeddus: y perygl amlwg o doriadau ariannol anferth a llym yr ydym wedi clywed amdanynt o'r blaen—

Eleanor Burnham: A wnewch chi ildio?

Brian Gibbons: Gwnaf, ar ôl imi orffen y pwynt hwn. Yn yr un modd, mae yna fygythiad sylweddol yn amrywioldeb ac ansawdd annerbyniol nifer o'n gwasanaethau cyhoeddus sy'n parhau.

Eleanor Burnham: Rhaid ichi dderbyn rhywfaint o gyfrifoldeb am y toriadau arfaethedig sy'n ein bygwth; wedi'r cyfan, yr oedd eich Llywodraeth a'ch Canghellor chi mewn grym am 13 blynedd, a bu iddynt ddifetha ein cronfeydd pensiwn, gwerthu ein haur am arian pitw, a'n tynnu i'r llanast economaidd gwarthus hwn, trwy ganiatáu i'r banciau weithredu fel y mynnent.

Brian Gibbons: Nid oes dim a glywais am economeg ryddfrydol, sy'n golygu gadael y farchnad yn rhydd i wneud fel y myn, yn fy argyhoeddi i feddwl fel arall. Gall pawb a fydd yn edrych ar y cytundeb a lofnodwyd yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf weld y bydd economeg ryddfrydol adain dde yn difetha gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae yna her wirioneddol, nid yn unig o safbwynt ariannol, ond o safbwynt yr amrywioldeb annerbyniol yn ansawdd gwasanaethau. Mae'r amrywioldeb hwnnw'n symptom o ddiffyg capasiti, yn enwedig ar lefel uwch-reolwyr, i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen mynd i'r afael â hynny ar frys.

Mae angen inni allu gweithio'n fwy effeithiol i wneud y mwyaf o'r arweinyddiaeth dda sydd gennym mewn gwasanaethau

not necessarily or automatically mean structural reorganisation, it must mean a much more radical restructuring of our model of public service delivery, not towards marketisation and fragmentation or a spurious road to choice, but based on partnership and collaboration with less duplication and competition.

Angela Burns: I thank the Welsh Liberal Democrats for bringing forward this motion for debate. Investigating waste in spending is an obviously sensible plan for governments, businesses and individuals to adopt. Times have changed. The eradication of boom and bust, as predicted by the former Prime Minister, did not come to pass. There was boom and now we are bust. We are asking the public to tighten their belts.

4.10 p.m.

We have seen pensioners being pushed into poverty after their available funds, after years of prudent saving into pension plans, have disappeared; we see that more children live in homes that are economically inactive; we are asking public servants to countenance pay restraints; we have businesses going into liquidation and being unable to pay ever-spiralling costs—whether for supplies of product, for heat and power, or for rates. Businesses are having to get rid of staff in order to keep companies going.

Wales has lost many large employers in the last year alone—names such as Bosch, Air Products, Hotpoint, Quinton Hazell, Anglesey Aluminium and Hoover. Therefore, it must be incumbent upon the Welsh Assembly Government to ensure that its belt is tightened, that there is not surplus money that could be freed up, that we do not spend money unnecessarily, and that waste is targeted and eradicated.

I can already hear the replies—indeed, the Government amendment says it all—such as, if plans are committed, then you cannot stop them from going ahead, capital plans are set

cyhoeddus, ac er nad yw hynny o reidrwydd neu'n awtomatig efallai yn golygu ad-drefnu strwythurol, rhaid iddo olygu ailstrwythuro ein patrwm ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mwy radical o lawer, nid drwy farchnadeiddio a rhannu neu ddilyn llwybr ffug at ddewis, ond ar sail partneriaeth a chydweithredu gyda llai o ddyblygu a chystadleuaeth.

Angela Burns: Diolch i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn i'w drafod. Mae'n amlwg bod ymchwilio i wastraff mewn gwariant yn gynllun synhwyrol i lywodraethau, busnesau ac unigolion ei fabwysiadu. Mae pethau wedi newid. Ni lwyddwyd i ddileu'r patrwm o ffynnu a methu, fel y rhagwelwyd gan y cyn-Brif Weinidog. Cafwyd cyfnod o ffynnu, ond yr ydym erbyn hyn wedi methu. Yr ydym yn gofyn i'r cyhoedd wario'u harian yn fwy gofalus.

Yr ydym wedi gweld pensiynwyr yn cael eu gwthio i dlodi ar ôl i'r cronfeydd a oedd ar gael iddynt ddiflannu, wedi blynyddoedd o gynilo'n ofalus mewn cynlluniau pensiwn; yr ydym yn gweld bod mwy o blant yn byw mewn cartrefi sy'n economaidd anweithgar; yr ydym yn gofyn i weision cyhoeddus wynebu cyfyngu cyflogau; mae gennym fusnesau sy'n methdaldu ac yn methu â thalu costau sy'n cynyddu'n ddiidwedd—boed am gyflenwadau cynnyrch, gwres a thrydan, ynteu am ardrethi. Mae busnesau'n gorfod cael gwared ar staff er mwyn cadw cwmnïau i fynd.

Mae Cymru wedi colli llawer o gyflogwyr mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig—enwau megis Bosch, Air Products, Hotpoint, Quinton Hazell, Alwminiwm Môn a Hoover. Felly, rhaid bod dyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau ei bod hi'n gwario'i harian yn fwy gofalus, nad oes arian yn weddill y gellid ei ryddhau, nad ydym yn gwario arian yn ddiangen, a bod gwastraff yn cael ei dargedu a'i ddileu.

Gallaf glywed yr atebion yn barod—yn wir, mae gwelliant y Llywodraeth yn dweud y cyfan—megis na allwch atal cynlluniau rhag digwydd ar ôl ymrwymo iddynt, na all

in stone, that substantial savings are already identified, and that work is under way. However, I cannot accept that that is enough. Individuals and businesses are being pushed to the limit, and the Government must also be. If this was a business and you were faced with tough choices, you would review and alter your plans, no matter how cherished they were. We need to set a new benchmark by asking whether something is necessary now, is it being offered at the best price, do we need to spend £19.5 million on external consultants, and are some of those consultants the people who, for example, charge the Welsh Assembly Government thousands of pounds for doing flood-evaluation schemes when the Environment Agency has proven time and again that it can do it in a fraction of the time at a fraction of the cost? Have some of these consultants seen us coming? Do eight Assembly Government special advisers really need to cost £500,000?

Leanne Wood: Thank you for giving way. I accept the very good point that you made about consultants. However, do you accept that it is not easy to make efficiency savings or to cut down on waste, and that the best and easiest way to save money in the public sector is to cut down on jobs? You have just outlined a raft of job losses from the private sector; more job losses will be disastrous for the Welsh economy. Do you accept that?

Angela Burns: If you let me finish, I am about to come to exactly that point, Leanne.

Finally, as an ex-marketing director, I am genuinely horrified at £30,000 being spent on a new logo, which looks like the old one, for this place. If we could spend £1 billion more effectively within the NHS, why are we not examining those methods with the finance directors, picking their brains and listening to their views? Indeed, I had to spend some time in hospital a few weeks ago with a very poorly family member, who received excellent care from exhausted staff, who told me about the never-ending paperwork that did not go anywhere, which someone,

cynlluniau cyfalaf gael eu newid, bod arbedion sylweddol wedi'u clustnodi eisoes, a bod gwaith ar y gweill. Fodd bynnag, ni allaf dderbyn bod hynny'n ddigon. Mae unigolion a busnesau'n cael eu gwthio i'r eithaf, a rhaid i'r un peth ddigwydd i'r Llywodraeth. Pe bai'r Llywodraeth yn fusnes a phe baech yn gorfod wynebu dewisiadau anodd, byddech yn adolygu'ch cynlluniau ac yn eu newid, ni waeth pa mor werthfawr yr oeddent. Mae angen inni osod meincnod newydd drwy ofyn a yw rhywbeth yn angenrheidiol yn awr, a yw'n cael ei gynnis am y pris gorau, a oes angen inni wario £19.5 miliwn ar ymgynghorwyr allanol, ac a yw rhai o'r ymgynghorwyr hynny'n bobl sydd, er enghraifft, yn codi miloedd o bunnoedd ar Lywodraeth y Cynulliad am baratoi cynlluniau gwerthuso llifogydd, pan fo Asiantaeth yr Amgylchedd wedi profi droeon y gall wneud hynny lawer yn gyflymach ac yn rhatach o lawer? A yw rhai o'r ymgynghorwyr hyn wedi gweld eu cyfle? A oes angen i wyth o ymgynghorwyr arbennig i Lywodraeth y Cynulliad gostio £500,000?

Leanne Wood: Diolch am ildio. Derbyniaf y pwynt da iawn a wnaethoch am ymgynghorwyr. Fodd bynnag, a ydych yn derbyn nad yw'n hawdd gwneud arbedion effeithlonrwydd neu leihau gwastraff, ac mai'r ffordd orau a'r ffordd hawsaf i arbed arian yn y sector cyhoeddus yw lleihau swyddi? Yr ydych newydd amlinellu pentwr o swyddi a gollwyd o'r sector preifat; bydd colli mwy o swyddi'n drychinebus i economi Cymru. A ydych yn derbyn hynny?

Angela Burns: Yr wyf ar fin dod at yr union bwynt hwnnw, pe baech yn gadael imi orffen, Leanne.

Yn olaf, fel cyn-gyfarwyddwr marchnata, rwyf yn arswydo bod £30,000 yn cael ei wario ar logo newydd, sy'n debyg i'r hen un, ar gyfer y lle hwn. Os gallem wario £1 biliwn yn fwy effeithiol yn y GIG, pam nad ydym yn archwilio dulliau o wneud hynny gyda'r cyfarwyddwyr cyllid, gan ofyn am eu syniadau a gwrando ar eu safbwyntiau? Yn wir, bu'n rhaid imi dreulio ychydig amser yn yr ysbyty rai wythnosau'n ôl gydag aelod sâl iawn o'r teulu. Cafodd ofal ardderchog gan staff blinedig iawn, a soniodd wrthyf am y gwaith papur diddiwedd nad oedd yn mynd i

somewhere, deemed to be important, but which had no impact upon the patient, their care, or the staff involved. This is a prime example of waste: the senseless waste of drugs—lovely, expensive, clever drugs that are unopened but are thrown away because they have been put aside for an individual who does not need them anymore.

I applaud people like Siân Wiblin, the negotiating officer for PCS Cymru, who said that, as long as people reduce their working hours voluntarily, this could be an acceptable way to reduce costs and an alternative to job losses. This is helpful thinking in recognition of the tough times ahead. You are right, Leanne, that we need to do everything within our power to ensure that job losses are as far down the menu of options as is humanly possible. That is why we need an independent review of public spending. Its purpose should be to inform the public and Assembly debate, in advance of the next UK comprehensive spending review, about the challenges and choices that will exist in a tough environment.

The Auditor General for Wales, in her report of 16 March 2010, 'A Picture of Public Services' says that

'public services will need radical change if they are to achieve more with less'.

Public consultation should be the key to this report, and it should make recommendations about the options for delivering public services within the environment of constrained public expenditure that will exist in Wales.

I ask that the Government does not set its face against this, but looks to the example set by other devolved administrations. It should be prepared to stand shoulder to shoulder with those public-sector workers, pensioners, businesses and children. We all have to save and we should save on wasting our precious Welsh pound.

Alun Davies: The timing of this debate is

unman. Yr oedd rhywun rywle'n barnu ei fod yn bwysig, ond ni châi ddim effaith ar gleifion, eu gofal, na'r staff perthnasol. Dyma ichi enghraifft benigamp o wastraff: y modd y caiff cyffuriau eu gwastraffu'n ddisynnwyr—cyffuriau hyfryd, drud a chlyfar sydd heb eu hagog ond yn cael eu taflu oherwydd eu cadw ar gyfer unigolyn nad oes arno mo'u hangen mwyach.

Yr wyf yn canmol pobl megis Siân Wiblin, swyddog cyflafareddu PCS Cymru, a ddywedodd y gallai lleihau oriau gwaith fod yn ffordd dderbyniol i leihau costau ac osgoi colli swyddi, cyhyd â bod pobl yn lleihau eu horiau'n wirfoddol. Mae'n ffordd ddefnyddiol o feddwl wrth gydnabod y cyfnod anodd sydd o'n blaen. Yr ydych yn iawn, Leanne, wrth ddweud bod angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod colli swyddi yn gam sydd mor bell ag sy'n bosibl i lawr y rhestr o gamau y gellid eu cymryd. Dyna pam mae arnom angen adolygiad annibynnol o wariant cyhoeddus. Dylai lywio dadl gyhoeddus a dadl yn y Cynulliad, cyn adolygiad cynhwysfawr nesaf y DU o wariant, ar yr heriau a'r dewisiadau a fydd yn bodoli mewn amgylchedd anodd.

Yn ei hadroddiad ar 16 Mawrth 2010, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus', dywed Archwilydd Cyffredinol Cymru

'bydd angen i wasanaethau cyhoeddus newid mewn ffordd radical er mwyn cyflawni mwy gyda llai o arian'.

Dylai ymgynghori â'r cyhoedd fod yn allweddol i'r adroddiad hwn, a dylai wneud argymhellion ar y dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn yr amgylchedd o wariant cyhoeddus cyfyngedig a fydd yn bodoli yng Nghymru.

Gofynnaf i'r Llywodraeth beidio â gwrthwynebu hyn, ond iddi edrych ar yr esiampl a osodwyd gan weinyddiaethau datganoledig eraill. Dylai fod yn barod i sefyll ochr yn ochr â gweithwyr yn y sector cyhoeddus, pensiynwyr, busnesau a phlant. Rhaid i bob un ohonom arbed arian, a dylem osgoi gwastraffu ein punt Gymreig werthfawr.

Alun Davies: Mae amseru'r ddadl hon yn

extraordinary. The Liberals have asked for us to debate public spending on the very day that they conclude an arrangement with a party that is committed to cutting it. It is extraordinary. I had a letter last week from Nick Clegg, outlining all the dangers of a Tory Government: he should have read it himself.

The Liberal-Conservative agreement for Government says, in relation to public spending, that there will be a significantly accelerated reduction in the structural deficit, with the main burden of deficit reduction borne by reduced spending rather than an increase in taxation. I stress that last part: it will be borne by reduced spending rather than an increase in taxation. That was written by George Osborne and signed off by Kirsty Williams. Do not ever come to this place again and grizzle, as you do all too often, about the impact of public spending cuts if you are prepared to sign up to the most vicious cutbacks in the public sector since the days of Thatcher. Do not come here with these motions ever again.

We know all this, because, having only been in office for a few hours, one of the first statements that Cameron made, before he even completed the Cabinet—we still do not know who the Secretary of State for Wales will be—was that he has gone back on his pledge to match NHS spending in real terms. He will not be increasing spending on the NHS, as he said that he would do last week.

Mark Isherwood: Do you not recognise that it was Alistair Darling, in anticipation of Labour possibly being in power, who referred to cuts greater than during the Thatcher era? Do you not recognise that the Institute of Fiscal Studies said that if any of the three main parties pretended that there would not be any cuts after the general election if they were in power they were misleading the public? Had you won this election, your Chancellor would be in the same position.

Alun Davies: No, he would not, because he would have been part of a Government with a philosophical commitment to public services

anhredadwy. Mae'r Rhyddfrydwyr wedi gofyn am inni gael dadl ar wariant cyhoeddus ar yr union ddiwrnod y maent yn dod i gytundeb â phlaid sydd wedi ymrwmo i'w dorri. Mae'n anghredadwy. Cefais lythyr oddi wrth Nick Clegg yr wythnos diwethaf yn amlinellu holl beryglon Llywodraeth Doriaidd: dylai fod wedi'i ddarllen ei hun.

Dywed y cytundeb rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr ar gyfer Llywodraethu, yng nghyswllt gwariant cyhoeddus, y bydd gostyngiad cynt o lawer yn y diffyg strwythurol, lle bydd y prif gamau i leihau'r diffyg yn ymwneud â lleihau gwariant yn hytrach na chodi trethi. Pwysleisïaf y rhan olaf: bydd yn ymwneud â lleihau gwariant yn hytrach na chodi trethi. Cafodd hynny ei ysgrifennu gan George Osborne a'i lofnodi gan Kirsty Williams. Peidiwch byth â dod yma eto i gwyno, fel y gwnewch yn rhy aml o lawer, am effaith toriadau ar wariant cyhoeddus, os ydych yn barod i ymrwmo i'r toriadau llymaf yn y sector cyhoeddus ers dyddiau Thatcher. Peidiwch byth â dod yma eto â'r cynigion hyn.

Gwyddom hyn i gyd, oherwydd, ar ôl ychydig oriau'n unig o fod mewn grym, un o'r datganiadau cyntaf a wnaeth Cameron, cyn iddo orffen llunio'r Cabinet hyd yn oed—ni wyddom o hyd pwy fydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru—oedd ei fod wedi torri ei addewid i gadw gwariant y GIG ar yr un lefel mewn termau real. Ni fydd yn cynyddu gwariant ar y GIG, fel yr addawodd yr wythnos diwethaf.

Mark Isherwood: Onid ydych yn cydnabod mai Alistair Darling, wrth ddisgwyl y byddai'r Blaid Lafur efallai mewn grym, a gyfeiriodd at doriadau a fyddai'n fwy nag a welwyd yn ystod cyfnod Thatcher? Onid ydych yn cydnabod bod y Sefydliad Astudiaethau Ariannol wedi dweud y byddai pob un o'r tair prif blaid yn camarwain y cyhoedd pe baent yn esgus na fyddai dim toriadau pe baent mewn grym ar ôl yr etholiad cyffredinol? Pe baech wedi ennill yr etholiad hwn, byddai eich Canghellor chi yn yr un sefyllfa.

Alun Davies: Na fyddai, oherwydd byddai wedi bod yn rhan o Lywodraeth sydd wedi ymrwmo'n athronyddol i wasanaethau

and to the role of Government as a good in society. So, he would not have been in the same position.

While Kirsty is shouting from the sidelines, let us listen to what she was saying to her and my electorate last week: ‘Nick Clegg says that only a vote for Roger Williams can defeat the Conservatives in Brecon and Radnor and help protect our NHS’. [*Laughter.*] Do not worry, Nick, because she mentioned David Cameron in her leaflet as well—it was only a week ago that the Lib Dems were telling the electorate this. She said: ‘David Cameron needs you to stay at home or vote Labour, because he knows’—I hope that you are listening, Nick—that only a vote for local Lib Dem, Roger Williams, can stop the Conservatives’. The Conservatives want to give millionaires a tax cut while cutting cash for schools and hospitals. You signed up to that, Kirsty. Kirsty said that that is not the change that we need. No, and it is not the change that we voted for either. If the Liberals had any sense of integrity, all three of the Liberal Democrat MPs left in Wales would stand for election again and say to the electorate that they will tell it the truth. New politics, Kirsty? Do not mislead the public: that is the first lesson of a new politics. However, you must be careful, because your leaflet says to beware of Tory smears, and that the Tories will be attacking Nick Clegg because he is so successful. Selling your soul to join a Conservative Government intent on making public expenditure cuts does not sound like success to me. She concludes the leaflet with a note on the NHS. She says that our national health service is at risk with the Conservatives. Too right, Kirsty—and it is at risk with the Liberals as well.

She asks in the leaflet, ‘What else aren’t the Conservatives telling you?’, but the real question for everyone in Wales who voted

cyhoeddus a rôl Llywodraeth fel dylanwad da mewn cymdeithas. Felly, ni fyddai wedi bod yn yr un sefyllfa.

Tra mae Kirsty yn gweiddi o’r cyrion, gadewch inni wrando ar yr hyn a ddywedodd wrth ei hetholwyr hi a’r hetholwyr i yr wythnos diwethaf: ‘Dywed Nick Clegg mai dim ond pleidlais dros Roger Williams a all drechu’r Ceidwadwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed a helpu diogelu ein GIG’. [*Chwerthin.*] Peidiwch â phoeni, Nick, oherwydd soniodd am David Cameron yn ei thaflen hefyd—yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud hyn wrth yr etholwyr gwta wythnos yn ôl. Meddai: ‘Mae ar David Cameron angen ichi aros gartref neu bleidleisio dros Lafur, oherwydd mae’n gwybod’—gobeithio’ch bod yn gwranddo, Nick—’mai dim ond pleidlais dros y Democrat Rhyddfrydol lleol, Roger Williams, a all rwystro’r Ceidwadwyr’. Mae’r Ceidwadwyr am leihau’r dreth i filiwnyddion gan leihau’r arian i ysgolion ac ysbytai. Yr ydych wedi ymrwymo i hynny, Kirsty. Dywedodd Kirsty nad dyna’r newid y mae arnom ei angen. Nage, ac nid dyna’r newid y bu inni bleidleisio drosto ychwaith. Pe bai gan y Rhyddfrydwyr unrhyw ymdeimlad o onestrwydd, byddai pob un o’r tri Aelod Seneddol sy’n weddill gan y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru yn sefyll mewn ail etholiad ac yn dweud wrth eu hetholwyr y byddant yn dweud y gwir wrthynt. Gwleidyddiaeth newydd, Kirsty? Peidiwch â charmarwain y cyhoedd: dyna’r wers gyntaf mewn gwleidyddiaeth newydd. Fodd bynnag, rhaid ichi fod yn ofalus, oherwydd mae eich taflen yn dweud ei bod yn rhaid gwylio rhag y baw y bydd y Torïaid yn ei daflu, ac y bydd y Torïaid yn ymosod ar Nick Clegg am ei fod mor llwyddiannus. Nid yw gwerthu eich enaid i ymuno â Llywodraeth Geidwadol sy’n benderfynol o dorri gwariant cyhoeddus yn swno fel llwyddiant i mi. Mae’n sôn am y GIG wrth gloi ei thaflen. Dywed fod ein gwasanaeth iechyd gwladol mewn perygl dan y Ceidwadwyr. Yr ydych yn hollol gywir, Kirsty—ac mae mewn perygl dan y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd.

Yn ei thaflen mae’n gofyn, ‘Beth arall nad yw’r Ceidwadwyr yn ei ddweud wrthyh?’ Ond y cwestiwn go iawn i bawb yng

Lib Dem last week is not ‘What aren’t the Conservatives telling you?’—we may not like them, but at least they were honest—but ‘What aren’t the Lib Dems telling you?’ A week ago, you were telling the electorate one thing, but this week you are doing another. You talk about new politics. Let me tell you now: this Government in Cardiff will continue to protect the public sector and it will continue to seek to enhance the public sector. It has a philosophical commitment to Government and the role of Government in changing society and underpinning the economy. You have just leapt into bed with people who have no commitment to that type of society, no commitment to this place, no commitment to Wales and who are never going to buy some of the stuff that you said last week. Kirsty, you have let yourself down, you have let your party down and you have let the people who elected you down.

4.20 p.m.

Eleanor Burnham: Well, well, well. [*Laughter.*] We are a few hours into a new arrangement that could not possibly be any worse than the arrangement that we have had for the last 13 years. We have more poverty than ever. Frankly, I think that you are full of rhetoric yourself, Alun Davies. I do not think that anyone could do any worse than you guys have done. Give us a chance: at least we will try our best. No-one could do worse than you guys.

To return to the motion, we are discussing value for money. No-one is an expert on this, but the auditor general seems to know something about it, and that was who Kirsty Williams first referenced in opening this debate. Only last week, there was an article that quoted the former Minister Andrew Davies discussing these issues and calling for more transparent scrutiny of our expanded senior civil service. Why not? It is pertinent that we look into every nook and cranny for savings, because we are facing a state of austerity and we cannot get away from that. That is exactly what we as Liberal Democrats

Nghymru a bleidleisiodd dros y Democratiaid Rhyddfrydol yr wythnos diwethaf yw nid ‘Beth nad yw’r Ceidwadwyr yn ei ddweud wrthyhch?’—efallai nad ydym yn eu hoffi, ond yr oeddent o leiaf yn onest—ond ‘Beth nad yw’r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei ddweud wrthyhch?’ Yr oeddech yn dweud un peth wrth yr etholwyr wythnos yn ôl ond yn gwneud rhywbeth arall yr wythnos hon. Yr ydych yn sôn am wleidyddiaeth newydd. Gadewch imi ddweud wrthyhch yn awr: bydd y Llywodraeth hon yng Nghaerdydd yn dal i amddiffyn y sector cyhoeddus ac yn dal i geisio gwella’r sector cyhoeddus. Mae wedi ymrwymo’n athronyddol i Lywodraeth, a rôl Llywodraeth wrth newid cymdeithas ac atgyfnerthu’r economi. Yr ydych newydd neidio i mewn i’r gwely gyda phobl nad ydynt wedi ymrwymo o gwbl i’r math hwnnw o gymdeithas, i’r lle hwn nac i Gymru, ac na fyddant byth yn credu rhywfaint o’r hyn yr oeddech yn ei ddweud yr wythnos diwethaf. Kirsty, yr ydych wedi eich siomi eich hun, yr ydych wedi siomi eich plaid, ac yr ydych wedi siomi’r bobl a’ch etholodd.

Eleanor Burnham: Wel, wel, wel. [*Chwerthin.*] Yr ydym mewn trefniant newydd ers ychydig oriau, na allai fod ddim gwaeth na’r trefniant a fu gennym am y 13 blynedd diwethaf. Mae gennym fwy o dlodi nag erioed. A dweud y gwir, credaf eich bod yn llawn rhethreg eich hun, Alun Davies. Ni chredaf y gallai neb wneud yn waeth na chi. Rhowch gyfle inni: byddwn o leiaf yn gwneud ein gorau. Ni allai neb wneud yn waeth na chi.

I ddychwelyd at y cynnig, yr ydym yn trafod gwerth am arian. Nid oes neb yn arbenigwr ar y mater hwn, ond ymddengys fod yr archwilydd cyffredinol yn gwybod rhywfaint amdano, ac ati hi y cyfeiriodd Kirsty Williams gyntaf wrth agor y ddadl hon. Mor ddiweddar â’r wythnos diwethaf, cafwyd erthygl a oedd yn dyfynnu’r cyn-Weinidog, Andrew Davies, yn trafod y materion hyn ac yn galw am graffu’n fwy tryloyw ar ein huwch-wasanaeth sifil sydd wedi ehangu. Pam lai? Mae’n briodol inni chwilio ymhob twll a chornel am arbedion, oherwydd yr ydym yn wynebu cyfnod o hirlwm ac ni

are calling for in this motion. We are all in a difficult mood, because many changes have happened since last week and since we put down this timely motion for debate. We were not to know at the time that this would be a very exciting day and that we would now have a very heated debate—quite rightly, because there is a need for it.

Only a few months ago, I asked during scrutiny of the annual report of the children's commissioner why we were paying a former deputy commissioner many thousands of pounds in a one-off payment and then further payments until that person achieved retirement age. I was told by the Chair—I am not questioning the Chair—that I could not ask that question, because it was personal. Well, for goodness' sake. We are all, quite rightly, open to scrutiny, so I do not know why on earth we cannot scrutinise annual reports and what payments are made. They were quite large payments. That is the kind of scrutiny that we need in this place. We have an expanded senior civil servant—I mean civil service, with staff who are making huge amounts of money—

Rhodri Glyn Thomas: He must be a big man. [*Laughter.*]

Eleanor Burnham: He or she might be a big person, Rhodri Glyn.

It is incumbent upon us all, whoever we are and whatever our party, to ask the relevant questions. You are all trying to make a mockery of this afternoon and I am sorry that you are, because this is an extremely serious issue. There are many ideas about how to cut expenditure and I am sure that many of you, as Assembly Members, know about possible cuts that we could make in the NHS. Only a few weeks ago I noticed—to the embarrassment, I suspect, of the well-meaning Minister for health—that the newly acquired NHS uniforms were apparently causing huge aggravation for some people. It may be a trivial matter, but they were causing allergic reactions among certain members of

allwn osgoi hynny. Dyna'n union yr ydym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol yn galw amdano yn y cynnig hwn. Yr ydym i gyd mewn hwyliau drwg, oherwydd mae nifer o newidiadau wedi digwydd ers yr wythnos diwethaf ac ers inni gyflwyno'r cynnig amserol hwn i'w drafod. Nid oedd modd inni wybod ar y pryd y byddai hwn yn ddiwrnod cyffrous iawn ac y byddem yn awr yn cael dadl chwyrn iawn—sy'n hollol gywir, oherwydd mae arnom ei hangen.

Rai misoedd yn unig yn ôl, wrth graffu ar adroddiad blynyddol y comisiynydd plant, gofynnais pam yr oeddem yn talu miloedd lawer o bunnoedd i ddirprwy gomisiynydd blaenorol, ar ffurf cyfandaliad a thaliadau pellach wedyn nes i'r unigolyn hwnnw gyrraedd oedran ymddeol. Dywedodd y Cadeirydd wrthyf—ac nid wyf yn amau'r Cadeirydd o gwbl—na allwn ofyn y cwestiwn hwnnw am ei fod yn gwestiwn personol. Wel, er mwyn popeth. Mae pobl yn craffu arnom ni i gyd, a hynny'n gywir ddigon, felly ni wn pam ar y ddaear na allwn graffu ar adroddiadau blynyddol a'r taliadau a wneir. Yr oeddent yn daliadau eithaf mawr. Dyna'r math o waith craffu y mae arnom ei angen yn y lle hwn. Mae gennym uwch-was sifil—mae'n flin gennyf, uwch-wasanaeth sifil mwy o faint—gyda staff sy'n ennill arian mawr—

Rhodri Glyn Thomas: Rhaid ei fod yn ddyn mawr. [*Chwerthin.*]

Eleanor Burnham: Hwyrach ei fod ef neu hi yn berson mawr, Rhodri Glyn.

Mae'n ddyletswydd arnom i gyd, pwyl bynnag ydym ac i ba blaid bynnag yr ydym yn perthyn, ofyn y cwestiynau perthnasol. Yr ydych i gyd yn ceisio gwneud y prynhawn yma'n destun sbort, ac mae'n flin gennyf eich bod yn gwneud hynny, oherwydd mae hwn yn fater eithriadol o ddifrifol. Mae yna nifer o syniadau sut i leihau gwariant, ac yr wyf yn siŵr fod llawer ohonoch, fel Aelodau Cynulliad, yn gwybod am doriadau posibl y gallem eu gwneud yn y GIG. Rai wythnosau'n unig yn ôl, sylwais—er embaras, mi dybiaf, i'r Gweinidog dros iechyd, sy'n llawn bwriadau da—fod gwisgoedd newydd i staff y GIG yn achosi trafferth fawr i rai pobl, mae'n debyg. Efallai

NHS staff who were asked to wear them. That is surely an embarrassment, because I have no doubt that those uniforms will have to be revisited and there may have to be a new batch of uniforms.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I am not embarrassed by this at all. It was a well-thought-out project. The uniforms were tested and there have been some allergic reactions. It is the cavalier disregard for the discomfort of staff in your contribution that I take umbrage with, because I have been very concerned about the staff who have had allergic reactions and I have worked hard with the trade union representatives and the LHBs to ensure that this matter can be resolved. In response to all that nonsense about re-ordering uniforms, it is a manufacturing problem and I assure the Chamber that it will be dealt with by the manufacturers.

Eleanor Burnham: I am absolutely delighted. I was not making light of it, but pointing out areas that we need to scrutinise over the next few years. The Government needs to have the courage to review every pound of its expenditure and to decide whether or not it can improve it or make a priority of it. One issue, for instance, is the Government outspending every other regional development agency in the UK. My understanding is that there is an expenditure of £107 per head in Wales, compared to £97 per head in north-east England and £58 in north-west England. Those are only two examples, but, despite this difference, GVA per capita in Wales is falling compared to the English average. Earlier, when Kirsty, our leader, was challenged by Rhodri Morgan, we were discussing the many instances of people in certain bodies that were subsumed into the Government who are still not fully occupied. If that is the case, it is not right. If it is not, I am sure that somebody will jump up and contradict me in a minute.

mai mater dibwys ydyw, ond yr oeddent yn achosi adwaith alergaidd ymhlith rhai aelodau o staff y GIG y gofynnwyd iddynt wisgo'r gwisgoedd. Rhaid bod hynny'n destun embaras, oherwydd mae'n siŵr gennyf y bydd yn rhaid ailystyried y gwisgoedd hynny a hwyrach y bydd yn rhaid prynu set newydd ohonynt.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Nid yw wedi achosi embaras i mi o gwbl. Yr oedd yn brosiect a gynlluniwyd yn dda. Profwyd y gwisgoedd, a chafwyd ambell adwaith alergaidd iddynt. Yr amarch di-hid yn eich cyfraniad at anesmwythder y staff sy'n fy nigio, oherwydd yr wyf wedi bod yn pryderu'n fawr am y staff sydd wedi dioddef adwaith alergaidd, ac wedi bod yn gweithio'n ddiwyd gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur a'r byrddau iechyd lleol i sicrhau bod modd datrys y broblem. I ymateb i'r holl nonsens am ailarchebu gwisgoedd, problem weithgynhyrchu ydyw, a hoffwn sicrhau'r Siambr y bydd y gweithgynhyrchwyr yn mynd i'r afael â hi.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn falch iawn o hynny. Nid oeddwn yn bychanu'r sefyllfa, ond yn tynnu sylw at feysydd y mae angen inni graffu arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn ddigon dewr i adolygu pob punt y mae'n ei gwario, a phenderfynu a all wella neu flaenoriaethu'r gwariant ai peidio. Un broblem, er enghraifft, yw fod y Llywodraeth yn gwario mwy na'r un awdurdod datblygu rhanbarthol arall yn y DU. Caf ar ddeall fod gwariant y pen yng Nghymru yn £107, o'i gymharu â £97 y pen yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a £58 yng ngogledd-orllewin Lloegr. Dwy enghraifft yn unig yw'r rheini, ond er gwaetha'r gwahaniaeth dan sylw, mae gwerth ychwanegol crynswth y pen yng Nghymru yn gostwng, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr. Yn gynharach, pan gafodd Kirsty, ein harweinydd, ei herio gan Rhodri Morgan, yr oeddem yn trafod yr enghreifftiau niferus o bobl mewn rhai cyrff a gafodd eu hymgorffori yn y Llywodraeth ac sy'n dal heb waith amser llawn. Os yw'n wir, nid yw'n iawn. Os nad yw'n wir, yr wyf yn siŵr y bydd rhywun yn codi ac yn fy nghywiro yn y funud.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Not in a minute—please bring your remarks to a close, Eleanor.

Eleanor Burnham: Despite the mockery this afternoon, we stand by our assertion that we need desperately to have a proper review of an enormous amount of Government expenditure.

Chris Franks: The Welsh Government has already made substantial savings since 2007, unlike the Liberal Democrats in Swansea council and the Conservatives in the Vale of Glamorgan Council; the opposition parties in the Senedd should practice what they preach. We can see evidence of waste when they are in power: when the Liberal Democrats ran Swansea council prior to 2008, they spent £38 million on a new ICT system, which failed to deliver the savings promised.

Peter Black: Will you take an intervention?

Chris Franks: I have not reached the bottom of my first page yet, Peter. The cost of a new leisure centre soared from £14 million to over £25 million, and, at the same time, they wanted to spend £300,000 on two sails outside the revamped county hall, while front-line services faced cuts. Perhaps the Liberal Democrats in this Chamber should talk to their counterparts in Swansea.

Peter Black: Will you take an intervention now?

Chris Franks: I will.

Peter Black: The item outside county hall was paid for by a Welsh Government grant. The leisure centre was brought in on budget, and the ICT system is working very well, and has been introduced within budget.

Chris Franks: Something that was budgeted to cost £14 million and actually cost £25 million cannot be described as being on

Y Dirprwy Lywydd: Nid yn y funud—dewch â'ch sylwadau i ben, os gwelwch yn dda, Eleanor.

Eleanor Burnham: Er bod y prynhawn yma wedi'i droi'n destun sbort, yr ydym yn cadw at ein honiad fod taer angen adolygiad cywir arnom o ran helaeth iawn o wariant y Llywodraeth.

Chris Franks: Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol er 2007, yn wahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol yng nghyngor Abertawe a'r Ceidwadwyr yng nghyngor Bro Morgannwg; dylai'r gwrthbleidiau yn y Senedd yn y fan hon ddilyn eu pregeth eu hunain. Gallwn weld tystiolaeth o wastraff pan fyddant mewn grym: pan oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhedeg cyngor Abertawe cyn 2008, bu iddynt wario £38 miliwn ar system TGCh newydd a oedd yn methu â sicrhau'r arbedion a addawyd.

Peter Black: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Chris Franks: Nid wyf wedi cyrraedd gwaelod fy nhudalen gyntaf eto, Peter. Cynyddodd cost canolfan hamdden newydd o £14 miliwn i dros £25 miliwn, ac ar yr un pryd yr oeddent am wario £300,000 ar ddwy hwyl y tu allan i neuadd y sir a oedd wedi'i hadnewyddu, tra oedd gwasanaethau rheng flaen yn wynebu toriadau. Efallai y dylai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Siambr hon siarad â'u cymheiriaid yn Abertawe.

Peter Black: A wnewch chi dderbyn ymyriad yn awr?

Chris Franks: Gwnaf.

Peter Black: Talodd grant gan Lywodraeth y Cynulliad am yr eitem y tu allan i neuadd y sir. Codwyd y ganolfan hamdden heb orwario, ac mae'r system TGCh yn gweithio'n dda iawn. Mae wedi ei chyflwyno heb orwario.

Chris Franks: Ni ellir honni na orwariwyd ar rywbeth y rhagwelwyd a fyddai'n costio £14 miliwn ond a gostiodd £25 miliwn mewn

budget. The Conservatives should also have a chat with their colleagues in the Vale of Glamorgan about their waste of public money in attempting to close a well-loved home for the elderly and mentally infirm at Bryneithin, at huge cost. Then there is the £5 million of grant money for the Penarth walkway, which had to be repaid to the Welsh Government due to the failures of the council. There is also the £5 million in major housing repair grant that was unspent by the Conservatives. Most recently, £350,000 in road-safety grant money that the Conservatives failed to invest in the community had to be handed back.

Andrew R.T. Davies: You make a catalogue of accusations against the Vale of Glamorgan Council and other councils, but what is significant is that every time that you put yourself forward to be elected to these councils, the electorate rejects you resoundingly. Your numbers on the Vale of Glamorgan Council went down at the last election, and it is for the local electorate to determine who they want to run their local authorities, is it not?

Chris Franks: We all know that life is not fair, Andrew. Would the Minister agree that the Welsh Government has to rely on its partners if we are to spend our money effectively? The restructuring and modernisation of the Welsh NHS and local councils has saved £230 million. The cuts from the Government in London were always going to happen under Labour, but they will be worse, deeper and quicker under the new Conservative and Liberal Democrat Government. As the leader of the Welsh Liberal Democrats said during the election campaign, the Conservatives want to cut deep and cut now, risking another economic crisis. We are facing cuts in this financial year of £220 million, thanks to the tie-up between Cameron and Clegg. The reality is that only Plaid Cymru will stand up for Wales.

gwirionedd. Yn ogystal, dylai'r Ceidwadwyr siarad â'u cydweithwyr ym Mro Morgannwg am y modd y maent hwy'n gwastraffu arian cyhoeddus, wrth geisio cau cartref poblogaidd ar gyfer pobl hŷn ac eiddil eu meddwl ym Mryneithin, a fydd yn gostus iawn. Yna, mae'r £5 miliwn o arian grant ar gyfer rhodfa Penarth y bu'n rhaid ei ad-dalu i Lywodraeth y Cynulliad oherwydd methiannau'r cyngor. Yn ogystal, mae'r grant mawr o £5 miliwn ar gyfer atgyweirio tai na wariwyd gan y Ceidwadwyr. Yn fwyaf diweddar mae'r £350,000 o arian grant diogelwch ffyrdd y methodd y Ceidwadwyr â'i fuddsoddi yn y gymuned ac y bu'n rhaid ei roi'n ôl.

Andrew R.T. Davies: Yr ydych yn rhestru cyhuddiadau yn erbyn cyngor Bro Morgannwg a chynghorau eraill, ond yr hyn sy'n bwysig yw, bob tro pan fyddwch yn sefyll mewn etholiadau i'r cynghorau hyn, mae'r etholwyr yn eich gwrthod yn bendant iawn. Gostyngodd eich niferoedd ar gyngor Bro Morgannwg yn yr etholiad diwethaf, ac onid yw'n wir mai'r etholwyr lleol sydd i benderfynu pwy y byddent yn hoffi eu cael i redeg eu hawdurdodau lleol?

Chris Franks: Gwyddom i gyd nad yw bywyd yn deg, Andrew. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno'i bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddibynnu ar ei phartneriaid os ydym am wario ein harian yn effeithiol? Mae gwaith ailstrwythuro a moderneiddio GIG Cymru a chynghorau lleol wedi arbed £230 miliwn. Yr oedd y toriadau gan y Llywodraeth yn Llundain bob amser yn mynd i ddigwydd dan y Blaid Lafur, ond byddant yn waeth, yn ddyfnach ac yn gyflymach dan Lywodraeth newydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Fel y dywedodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ystod ymgyrch yr etholiad, mae'r Ceidwadwyr am wneud toriadau dwfn a'u gwneud yn awr, gan achosi risg argyfwng economaidd arall. Yr ydym yn wynebu toriadau o £220 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, diolch i'r bartneriaeth rhwng Cameron a Clegg. Y gwir yw mai dim ond Plaid Cymru a fydd yn achub cam Cymru.

4.30 p.m.

The Welsh Government, in light of the restrictions it faced before the new Westminster Government took office, formed the all-Wales public service efficiency and innovation board, which has already agreed to save £200 million by 2013, as indicated by the Minister on 29 April. Could the Minister indicate when she intends to discuss with Conservative and Liberal Democrat Ministers in London the recommendations of the Holtham commission? Would the Minister agree that it is places such as Ceredigion and, in my region, Cardiff, the Vale of Glamorgan and Rhondda Cynon Taf that will suffer from the Conservative-Liberal Democrat cuts, because of the number of public sector workers who live there? Is it not the case that people who voted Liberal Democrat to keep the Tories out of power will feel cheated? Mark Williams MP said that the Liberal Democrats would put £125 million into the Welsh Government budget, not cut it by £220 million, which is what we now face. That is a turnaround of £345 million; a huge amount of money.

Just last week Vince Cable was saying that to cut this year would lead to a double dip recession. How times have changed. He also said that a cut in national insurance paid for by efficiency savings would be a cop out. Perhaps the future looks rosier to him from the back of a Westminster limousine. The cuts that will be imposed by the new Government will hit the communities of Wales hardest because we have a large public sector. Many jobs will be at risk, because the cuts will be coming this year rather than next, thanks to the agreement between Clegg and Cameron. This is despite the fact that Kirsty Williams has warned that cutting early could risk another economic crisis.

The Minister for Budget and Business (Jane Hutt): There is one thing that we agree on, Kirsty, namely that every pound of public money is precious, and every pound wasted is

Yng ngoleuni'r cyfyngiadau a oedd yn ei hwynebu cyn ffurfio Llywodraeth newydd San Steffan, ffurfiodd Llywodraeth Cymru fwrdd effeithlonrwydd ac arloesi gwasanaethau cyhoeddus i Gymru gyfan. Mae eisoes wedi cytuno i arbed £200 miliwn erbyn 2013, fel y nodwyd gan y Gweinidog ar 29 Ebrill. A allai'r Gweinidog roi syniad inni pryd y mae'n bwriadu trafod argymhellion comisiwn Holtham gyda Gweinidogion y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain? A fyddai'r Gweinidog yn cytuno mai ardaloedd megis Ceredigion ac, yn fy rhanbarth i, ardaloedd megis Caerdydd, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf fydd yn dioddef o'r toriadau hyn gan y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd nifer y gweithwyr sector cyhoeddus sy'n byw yno? Onid yw'n wir y bydd y bobl a bleidleisiodd dros y Democratiaid Rhyddfrydol er mwyn cadw'r Toriaid allan yn teimlo'u bod wedi cael eu twyllo? Dywedodd Mark Williams AS y byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi £125 miliwn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, nid yn ei thorri £220 miliwn, sef yr hyn sy'n ein hwynebu yn awr. Mae hynny'n wrthdroad o £345 miliwn; swm anferth o arian.

Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf yr oedd Vince Cable yn dweud y byddai cyflwyno toriadau eleni'n arwain at ail ddirwasgiad. Mae pethau wedi newid cymaint. Dywedodd hefyd mai osgoi cymryd cyfrifoldeb fyddai defnyddio arbedion effeithlonrwydd i dalu am doriad mewn yswiriant gwladol. Efallai fod y dyfodol yn edrych yn well iddo ef o gefn un o limwsîns San Steffan. Bydd y toriadau a gaiff eu cyflwyno gan y Llywodraeth newydd yn taro cymunedau Cymru galetaf oherwydd bod gennym sector cyhoeddus mawr. Bydd llawer o swyddi mewn perygl, oherwydd bydd y toriadau'n cael eu gwneud eleni yn hytrach na'r flwyddyn nesaf, diolch i'r cytundeb rhwng Clegg a Cameron. Mae hynny er gwaetha'r ffaith bod Kirsty Williams wedi rhybuddio y gallai cyflwyno toriadau'n gynnar achosi risg argyfwng economaidd arall.

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Dim ond un peth yr ydym yn cytuno arno, Kirsty, sef bod pob punt o arian cyhoeddus yn werthfawr, ac mae pob punt

one less available for delivering the public services that the people we serve rely on. We all agree on that. However, I oppose the motion and the Conservative amendment because I believe they miss two fundamental points: first, that the Assembly Government has already taken significant strides in improving efficiency and tackling waste in public spending in recent years; and secondly, that improving efficiency is about so much more than reducing waste. As Brian said, this is about safeguarding our public services with progressive policies; it is about innovation as well as efficiency; and it is about the priorities that we set, for example, in tackling child poverty with the child poverty strategy, which we launched today.

This Government, working closely with our partners across the public sector, in the trade union movement, and in the third sector, has developed a comprehensive strategy for driving innovation and improving efficiency. It is the sort of strategic approach that we need to help us to meet the challenges that we will face over the next few years, and it is clear that we will face challenges—it is clear that the new UK Government will go ahead with an emergency budget within 50 days, although it is not yet clear what that will include, or what the implications for Wales will be. Like Alun, I note that the Liberal Democrat agreement places the main burden of deficit reduction on reduced spending. I also note that Mervyn King, the governor of the Bank of England, has endorsed the £6 billion of spending cuts. I further note that that will include reductions to the child trust fund—going back to the child poverty agenda—and to child tax credits. These are the challenges that we have to face. Of course the deficit needs to be reduced, but only as quickly as can be managed without threatening the recovery, and without causing massive damage to public services.

sy'n cael ei gwastraffu yn bunt yn llai y gellid ei gwario ar ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu yn dibynnu arnynt. Yr ydym i gyd yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn gwrthwynebu'r cynnig a gwelliant y Ceidwadwyr, oherwydd credaf fod dau bwynt sylfaenol ar goll ynddynt: yn gyntaf, y ffaith fod Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi cymryd camau sylweddol i wella effeithlonrwydd ac i fynd i'r afael â gwastraff mewn gwariant cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf; ac yn ail, bod gwella effeithlonrwydd yn golygu llawer mwy na lleihau gwastraff. Fel y dywedodd Brian, mae'n golygu diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus gyda pholisïau blaengar; mae'n golygu arloesedd yn ogystal ag effeithlonrwydd; ac mae'n golygu'r blaenoriaethau yr ydym yn eu gosod, er enghraifft, wrth fynd i'r afael â thlodi plant gyda'r strategaeth tlodi plant, a lansiwyd gennym heddiw.

Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, yn y mudiad undebau llafur ac yn y trydydd sector, mae'r Llywodraeth hon wedi datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer hybu arloesedd a gwella effeithlonrwydd. Dyna'r math o ddull gweithredu strategol y mae arnom ei angen i'n helpu i ymateb i'r heriau a fydd yn ein hwynebu yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac mae'n amlwg y byddwn yn wynebu heriau—mae'n amlwg y bydd Llywodraeth newydd y DU yn bwrw ymlaen â chyllideb frys cyn pen 50 diwrnod, er nad yw'n glir eto beth fydd cynnwys y gyllideb honno, neu beth fydd y goblygiadau i Gymru. Yr wyf fi, fel Alun, yn sylwi bod cytundeb y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi'r prif bwyslais ar wario llai wrth geisio lleihau'r diffyg. Yr wyf hefyd yn sylwi bod Mervyn King, llywodraethwr Banc Lloegr, wedi cymeradwyo'r £6 biliwn o doriadau gwariant. Yr wyf hefyd yn sylwi y bydd hynny'n cynnwys lleihau'r gronfa ymddiriedolaeth plant—i fynd yn ôl at yr agenda tlodi plant—a chredydau treth plant. Dyma'r heriau y mae'n rhaid inni eu hwynebu. Wrth gwrs, mae'n rhaid lleihau'r diffyg, ond dim ond mor gyflym ag y gellir gwneud hynny heb beryglu'r adferiad a heb achosi difrod enfawr i wasanaethau cyhoeddus.

Mark Isherwood: Do you recognise that our manifesto actually said that the cuts in the child trust fund would protect the poorest third of households and households with disabled children? Under Labour, the deficit was growing by £6 billion every two weeks. The markets, whether we like it or not, would not provide the money to continue that spending—unless we are happy to end up in the same position as Greece and Spain. This is all pie in the sky stuff; it is fantasy land.

Jane Hutt: You mentioned Alistair Darling earlier, and we shall come to mark his words that a Tory win—which is now a Tory-Lib Dem con—would derail recovery. That is what we must be concerned about.

I want to focus on this record of improving efficiency over the past few years. In 2005, as part of a five-year improvement programme, we set a target of achieving £600 million-worth of efficiency gains across public services by 2010. We are on track to deliver and possibly exceed the £600 million target. More than £300 million-worth of savings have been realised through reshaping our public services, which has included joint commissioning and delivery of services, making the best use of assets, reducing the costs of maintaining services and smarter procurement delivering more than £230 million in savings. That also includes savings of more than £3 million in the NHS from changes in the prescribing of medicines, and by making better use of staff time, including workforce restructuring and modernisation in the NHS and local government, we have saved a further £230 million. Streamlining back-office support functions has also delivered another £85 million-worth of savings.

Through identifying efficiencies and taking the necessary tough decisions, we have been able to create the opportunity to allocate funding strategically. For example, £34 million has gone to local government and £54

Mark Isherwood: A ydych yn cydnabod bod ein manifest ni i dweud mewn gwirionedd y byddai'r toriadau yn y gronfa ymddiriedolaeth plant yn amddiffyn y traean tlotaf o aelwydydd, ac aelwydydd gyda phlant anabl? Dan y Blaid Lafur yr oedd y diffyg yn tyfu £6 biliwn bob pythefnos. P'un a ydym yn hoffi hynny ai peidio, ni fyddai'r marchnadoedd yn darparu'r arian i barhau'r gwariant hwnnw—oni bai ein bod yn fodlon bod yn yr un sefyllfa â Gwlad Groeg a Sbaen yn y pen draw. Breuddwyd gwyrach yw hyn i gyd; byd ffantasi ydyw.

Jane Hutt: Yr oeddech yn sôn am Alistair Darling yn gynharach, a chofiw'n iddo ddweud y byddai buddugoliaeth i'r Torïaid—sydd erbyn hyn yn gytundeb rhwng y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr—yn bwrw'r adferiad oddi ar y cledrau. Dyna y mae'n rhaid inni boeni yn ei gylch.

Yr wyf am ganolbwyntio ar y cofnod hwn o wella effeithlonrwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn 2005, fel rhan o raglen wella bum mlynedd, gosodwyd targed gennym, sef sicrhau gwerth £600 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus erbyn 2010. Yr ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwnnw o £600 miliwn, ac i ragori arno o bosibl. Mae gwerth dros £300 miliwn o arbedion wedi'u gwneud trwy ailffurfio ein gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi cynnwys comisiynu a darparu gwasanaethau ar y cyd, defnyddio asedau yn y ffordd orau, lleihau costau cynnal gwasanaethau, a gwaith caffael callach sydd wedi arwain at arbedion o dros £230 miliwn. Mae hynny hefyd yn cynnwys arbedion o dros £3 miliwn yn y GIG o ganlyniad i newidiadau yn y modd y caiff meddyginiaethau eu rhagnodi, ac yr ydym wedi arbed £230 miliwn yn ychwanegol trwy ddefnyddio amser staff yn well, gan gynnwys gwaith ailstrwythuro'r gweithlu a moderneiddio yn y GIG a llywodraeth leol. Mae symleiddio swyddogaethau cymorth swyddfa gefn hefyd wedi arwain at werth £85 miliwn o arbedion.

Trwy nodi arbedion effeithlonrwydd a chymryd y penderfyniadau anodd angenrheidiol, yr ydym wedi gallu creu'r cyfle i ddyrannu cyllid yn strategol. Er enghraifft, mae £34 miliwn wedi mynd i

million to health and social services. We are also reducing complexity. The Flexible Support for Business initiative is delivering faster, simpler and more straightforward access to information, advice and support for businesses, and local service boards are working on a portfolio of over 90 local delivery service agreement projects that are delivering more effective services to citizens.

Andrew R.T. Davies: I hope that you will accept that one of the biggest distractions endured by the NHS over the past 18 months is the reorganisation that has tried to correct the disorganisation that you presided over in the early part of the decade. Will you acknowledge that that was a misdirection of resources, and that, had you listened to the concerns from the Conservative benches then, considerable resources would have been saved in the past two years?

Jane Hutt: I hope that you would welcome the fact that over £11 million has already been invested in the invest-to-save fund and that we have had successful bids from the NHS that are driving the changes with regard to efficiency and innovation. I have already mentioned the projects undertaken by the local service boards, and I have already referred to Carmarthenshire's health and social care integration project, which is about reducing complexity, resulting in a reduction of the 10,000 lost bed days and no cases of disputed care, with cases now being reviewed weekly.

Innovation also means immediate improvements in the services for victims of domestic abuse in Rhondda Cynon Taf, and in Anglesey it means the local service board increasing access to services, including extending the ways that citizens can make claims. So many of the 90 projects demonstrate that we are making a real difference to citizens and achieving efficiencies and innovation. That has delivered better results in the delivery of our core public services. This is where we look to our priorities again, and this is what this 'One Wales' programme of Government is doing

lywodraeth leol, ac mae £54 miliwn wedi mynd i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yr ydym hefyd yn lleihau cymhlethdod. Mae'r fenter Cymorth Hyblyg i Fusnes yn darparu mynediad cynt a symlach i wybodaeth, cyngor a chymorth i fusnesau, ac mae byrddau gwasanaethau lleol yn gweithio ar bortffolio o dros 90 o brosiectau cytundeb darparu gwasanaethau lleol, sy'n darparu gwasanaethau mwy effeithiol i ddinasyddion.

Andrew R.T. Davies: Gobeithio y byddwch yn derbyn mai un o'r prif ymyriadau y mae'r GIG wedi'u dioddef yn ystod y 18 mis diwethaf yw'r aildrefnu sydd wedi ceisio unioni'r anhrefn a achoswyd dan eich gofal chi ar ddechrau'r degawd. A wnewch chi gydnabod bod hynny'n enghraifft o gamreoli adnoddau, ac y byddai adnoddau sylweddol wedi eu harbed yn y ddwy flynedd diwethaf pe baech wedi gwrandao ar y pryderon a fynegwyd o feinciau'r Ceidwadwyr bryd hynny?

Jane Hutt: Gobeithio y byddech yn croesawu'r ffaith bod dros £11 miliwn eisoes wedi ei fuddsoddi yn y gronfa buddsoddi i arbed, a'r ffaith ein bod wedi cael cynigion llwyddiannus gan y GIG sy'n gyrru'r newidiadau mewn effeithlonrwydd ac arloesedd yn eu blaen. Yr wyf eisoes wedi sôn am y prosiectau sy'n cael eu cynnal gan y byrddau gwasanaethau lleol, ac yr wyf eisoes wedi cyfeirio at brosiect integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu lleihau cymhlethdod, sydd wedi arwain at leihau'r 10,000 o ddiwrnodau gwely a gollir, a dim achosion o ddadlau am ofal, ac achosion yn awr yn cael eu hadolygu bob wythnos.

Mae arloesedd hefyd yn golygu gwelliannau ar unwaith yn y gwasanaethau i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig yn Rhondda Cynon Taf, ac yn Ynys Môn mae'n golygu bod y bwrdd gwasanaethau lleol yn cynyddu mynediad i wasanaethau, gan gynnwys ychwanegu at y ffyrdd y gall dinasyddion wneud hawliadau. Mae cynifer o'r 90 o brosiectau yn dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddinasyddion ac yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arloesedd. Mae hynny wedi arwain at well canlyniadau wrth ddarparu'n gwasanaethau cyhoeddus craidd. Dyma lle'r ydym yn

to support our young people to obtain better results at school and to ensure that working-age adults are better qualified. When we look at our countercyclical measures, ProAct, ReAct and the mortgage rescue scheme, we see that more than 600 adults and 300 children have been prevented from becoming homeless since June 2008.

In the light of the recent economic downturn and in the face of the forthcoming budget, public services in Wales and the rest of the UK now face unprecedented new challenges. That is why the First Minister is leading the public services summits—the first of which was held in February, and with the next one due in a few weeks' time—to drive forward programmes to promote greater efficiency and innovation, and bringing public service leaders together on those challenges that we now face with regard to the Lib-Con agreement in Government.

4.40 p.m.

You mentioned, Chris, that I have reported that the efficiency and innovation board has agreed a further £200 million of pan-public sector efficiencies by 2013. We must accelerate the pace of change and recognise that the commitment towards change is strong. Our own xchangewales programme is recognised for the contribution that it is making; it won the prestigious government computing award in the category of delivering efficiencies. Do you recognise that? Do you join me in congratulating that achievement? It is now being shortlisted for the collaborative procurement initiative of the year award in the UK *Government Opportunities* awards. Xchangewales is delivering on collaborative procurement and commissioning. We are also developing the Wales public services ICT strategy and delivering new models of service delivery. We face a difficult future; that is clear to us across the Chamber. We know that the Government in Westminster will be a Government of cuts. Having looked briefly—

edrych ar ein blaenoriaethau unwaith yn rhagor, a dyna mae'r rhaglen 'Cymru'n Un' hon yn ei wneud i gefnogi ein pobl ifanc i gael gwell canlyniadau yn yr ysgol a sicrhau bod gan oedolion o oed gweithio well cymwysterau. Pan edrychwn ar ein mesurau gwrthgylchol, ProAct, ReAct a'r cynllun achub morgeisi, gwelwn fod dros 600 o oedolion a 300 o blant wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref er mis Mehefin 2008.

Yng ngoleuni'r dirywiad economaidd diweddar, ac yn wyneb y gyllideb sydd ar ddod, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU bellach yn wynebu heriau newydd na welwyd eu tebyg o'r blaen. Dyna pam mae Prif Weinidog Cymru yn arwain yr uwchgynadleddau gwasanaethau cyhoeddus—cynhaliwyd y cyntaf ohonynt ym mis Chwefror, a bydd y nesaf yn digwydd ymhen ychydig wythnosau—i yrru ymlaen raglenni i hybu mwy o effeithlonrwydd ac arloesedd, a dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i drafod yr heriau hynny sy'n ein hwynebu'n awr o ran y cytundeb rhwng y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn y Llywodraeth.

Yr oeddech yn sôn, Chris, imi ddweud bod y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi wedi cytuno i wneud £200 miliwn yn rhagor o arbedion effeithlonrwydd ar draws y sector cyhoeddus cyfan erbyn 2013. Rhaid inni gyflymu'r broses o wneud newidiadau a chydabod bod yr ymrwymiad tuag at newid yn gryf. Caiff ein rhaglen ni, cyfnewidcymru, ei chydabod am y cyfraniad y mae'n ei wneud; enillodd wobwr nodedig am gyfrifiadura ym maes llywodraeth, yn y categori sicrhau arbedion effeithlonrwydd. A ydych yn cydnabod hynny? A ydych yn ymuno â mi i longyfarch y llwyddiant hwnnw? Erbyn hyn, mae'r rhaglen wedi'i chynnwys ar y rhestr fer am wobwr menter caffael cydweithredol y flwyddyn yng ngwobrau *Cyfleoedd y Llywodraeth* y DU. Mae cyfnewidcymru yn cyflawni ym maes caffael a chomisiynu cydweithredol. Yr ydym hefyd yn datblygu strategaeth TGCh gwasanaethau cyhoeddus Cymru, ac yn cyflwyno modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. Yr ydym yn wynebu dyfodol

which is all I have been able to do so far—at the Lib-Con agreement, I have glimpsed the impact that it will have in derailing the recovery through its slash and burn budget for our public services. Who will stand up for Wales at Westminster? I have found no mention so far of the Holtham commission or a fairer funding agreement.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Could you bring your remarks to a close now, please, Minister?

Jane Hutt: There is no mention of the fairer funding agreement that was in the Liberal Democrat manifesto. We need a fair funding formula for Wales. We need to make sure that the recovery is supported, and that the budget from the Westminster Government is not cut. I oppose the motion and the Conservative amendment.

Peter Black: Listening to that speech from the Minister, you would not believe that her party had just lost the election. In fact, you would not believe that the self-denial that we have heard over the last hour in this debate is exactly the reason why it lost the election. You are in denial about what has happened, the situation that you have left us in, and the fact that you threw away the chance to stay in Government by refusing to talk seriously about whether or not other parties would work with you in an alternative coalition. I have heard a lot of emotive language in this debate. We have talked about right-of-centre parties, ravaging, slash and burn—this was mostly from Alun Davies—but the reality is very different. What we have at the moment is the first few hours of a coalition Government that has not yet set out all of its policies. You do not even have any details about what will be in the budget, and already you are making it up as you go along.

Leighton Andrews *rose*—

anodd; mae hynny'n amlwg inni ar draws y Siambr. Gwyddom y bydd y Llywodraeth yn San Steffan yn cyflwyno toriadau. O edrych yn gyflym—a dyna'r cyfan yr wyf wedi gallu ei wneud hyd yn hyn—ar y cytundeb rhwng y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr, yr wyf wedi cael cipolwg ar yr effaith a gaiff i fwrw'r adferiad oddi ar y cledrau trwy ei gyllideb o doriadau yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Pwy fydd yn achub cam Cymru yn San Steffan? Hyd yn hyn, nid wyf wedi gweld yr un cyfeiriad at gomisiwn Holtham nac at gytundeb ariannu tecach.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: A allech ddod â'ch sylwadau i ben yn awr, Weinidog?

Jane Hutt: Nid oes dim sôn am y cytundeb ariannu tecach y cyfeiriwyd ato ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae angen fformiwla ariannu teg i Gymru. Mae angen inni wneud yn siŵr fod yr adferiad yn parhau ac na chaiff y gyllideb gan Lywodraeth San Steffan ei thorri. Yr wyf yn gwrthwynebu'r cynnig a gwelliant y Ceidwadwyr.

Peter Black: O wrando ar yr araith honno gan y Gweinidog, ni fyddech yn credu bod ei phlaidd newydd golli'r etholiad. Mewn gwirionedd, ni fyddech yn credu mai'r hunanymwadu yr ydym wedi'i glywed yn ystod yr awr ddiwethaf yn y ddadl hon yw'r union reswm pam y colodd yr etholiad. Yr ydych yn gwadu'r hyn sydd wedi digwydd, y sefyllfa yr ydych wedi ein gadael ynnddi, a'r ffaith eich bod wedi colli cyfle i aros mewn Llywodraeth trwy wrthod trafod o ddifrif a allai pleidiau eraill weithio gyda chi i greu clymblaid arall. Yr wyf wedi clywed llawer o iaith emosïynol yn ystod y ddadl hon. Yr ydym wedi sôn am bleidiau i'r dde o'r canol yn bod yn ddinistriol ac yn torri gwariant—cafwyd hynny gan Alun Davies gan mwyaf—ond mae'r gwirionedd yn wahanol iawn. Yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw ychydig oriau cyntaf Llywodraeth glymbleidiol sydd heb egluro'i holl bolisiau hyd yn hyn. Nid oes gennych ddim manylion am yr hyn a fydd yn y gyllideb, ac yr ydych eisoes yn dweud beth bynnag a ddaw i'ch meddwl.

Leighton Andrews *a gododd*—

Peter Black: I only have three and a half minutes, Leighton, and I have used up one of them. I will allow you to make an intervention if the Temporary Deputy Presiding Officer gives me some time.

The Temporary Deputy Presiding Officer: I will allow a little time.

Leighton Andrews: The Lib-Con agreement refers to implementation of the Calman commission proposals. It makes no reference whatsoever to Holtham. Why have you signed up to an agreement that sells Wales out?

Peter Black: Actually, Leighton, Calman calls for reform of the Barnett formula, and the agreement that you have in front of you is just a first draft. [*Interruption.*]

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. Let us hear what Peter Black has to say.

Wrth wynebu'r argyfwng economaidd, mae'r Llywodraeth hon wedi ymateb yn gyflym. Soniodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn gynharach am y cynllun achub morgesi, sydd wedi atal 900 o bobl rhag bod yn ddigartref. Cydnabyddir gan lawer mai'r cynllun hwn yw'r un gorau yn y DU.

Mae llawer o'r hyn yr ydym wedi gallu ei gyflawni wedi bod yn bosibl oherwydd ein perthynas gydweithredol â llywodraeth leol, cymdeithasau tai ac eraill ym maes tai, sydd wedi ein galluogi i ymateb yn gyflym ac yn hyderus.

Helen, yr oeddech yn sôn am nifer o achosion penodol yr ydych wedi gorfod ymdrin â hwy. Dylai Mr Jones, yn ei sefyllfa ef, gael gwybod mai ni sy'n rheoleiddio cymdeithasau tai ond, yn rhyfeddol, nad oes gennym ddim pwerau i ymyrryd yn gynnar. Os nad yw cymdeithas yn gwneud gwaith atgyweirio, gallai hynny fod yn arwydd o anawsterau ariannol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe gwyddwn fod hynny'n wir, ni fyddai'n bosibl imi ymyrryd.

Yr oeddech yn sôn am Wil a Rhian, a allai fod ar y rhestr am amser maith. Yr ydym wedi dweud, pe baem yn gallu cyflwyno Mesur arfaethedig i atal yr hawl i brynu, y byddai'n amodol ar sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gwneud rhywbeth yn ystod y cyfnod atal i gynyddu'r cyflenwad. Byddai hynny'n hanfodol. O ran ail gartrefi, pe bai awdurdod lleol yn gallu codi mwy na'r dreth lawn ar ail gartref, byddai'r incwm ychwanegol yn caniatáu iddo wneud rhywbeth ynglŷn â'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn yr union bentrefi yr oeddech yn sôn amdanynt.

Yn aml, awdurdodau lleol a fydd yn darparu ar gyfer anghenion y teulu Williams ac eraill yn eu cymuned, ond nid yw rhai awdurdodau'n fodlon sefydlu safle priodol, er bod angen amlwg am hynny. Fodd bynnag,

local authorities are encouraging illegal sites, which are expensive for the local taxpayer, are a nuisance, and fail to meet the needs of the community. Once again, our draft legislative competence Order on housing would allow us to go some way towards tackling that.

The programmes that I have mentioned also face an immediate threat, given that the Tory-Lib Dem Government is determined to introduce cuts, as we have been told. I know that cuts would have to be introduced by any UK Government, but we are not talking about cuts during this parliamentary term, but about cuts this year—immediate cuts. That will have severe implications not only for the provision of housing and other public services, but also for our economy as we emerge from recession.

I have already outlined to the Chamber how crucial the powers set out in our draft legislative competence Order are. They would enable us to introduce a proper regulatory regime in respect of social landlords, which lenders have told us is vital if housing associations are to continue to secure proper funding. It would give us a crucial tool to address empty and second homes, enable us to create a single social tenancy, and put flexible tenure on a statutory footing to get away from the obsession with someone being either a tenant or an owner, with nothing in between. We could introduce a clear emphasis on the prevention of homelessness and implement the manifesto commitment of both parties in government to suspend the right to buy for temporary periods in areas of severe housing pressure.

There is no logical argument why we should not do these things. These are all changes that have been called for by tenants, lenders, housing providers, local authorities and others. The housing sector in Wales supports the draft legislative competence Order, and we cannot have any confidence at this point that it will succeed, although we will continue to try—because I am a trier, if

mae'r awdurdodau lleol hynny yn annog safleoedd anghyfreithlon, sy'n ddrud i'r trethdalwr lleol, sy'n niwsans ac nad ydynt yn diwallu anghenion y gymuned. Unwaith eto, byddai ein Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai yn caniatáu inni wneud rhywfaint o waith i fynd i'r afael â hynny.

Mae'r rhaglenni y soniais amdanynt hefyd yn wynebu bygythiad ar unwaith, o gofio bod Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn benderfynol o gyflwyno toriadau, fel y cawsom wybod. Gwn y byddai'n rhaid i doriadau gael eu cyflwyno gan unrhyw Lywodraeth ar gyfer y DU, ond nid ydym yn sôn am doriadau yn ystod y tymor seneddol hwn, ond am doriadau eleni—a fydd yn digwydd ar unwaith. Bydd hynny'n arwain at oblygiadau difrifol nid yn unig i'r ddarpariaeth tai a gwasanaethau cyhoeddus eraill, ond hefyd i'n heconomi wrth inni ddod allan o ddirwasgiad.

Yr wyf eisoes wedi egluro wrth y Siambr bwysigrwydd y pwerau sydd wedi eu gosod allan yn y Gorchymyn cymhwysedd drafft. Byddent yn ein galluogi i gyflwyno cyfundrefn reoleiddio briodol mewn cysylltiad â landlordiaid cymdeithasol, ac mae benthycwyr wedi dweud wrthym bod hynny'n hanfodol os yw cymdeithasau tai am barhau i sicrhau cyllid priodol. Byddai'n rhoi adnodd hollbwysig inni fynd i'r afael â chartrefi gwag ac ail gartrefi, gan ein galluogi i greu tenantiaeth gymdeithasol unigol, a rhoi sail statudol i ddeiliadaeth hyblyg er mwyn dileu'r obsesiwn fod rhywun naill ai'n denant ynteu'n berchennog, a dim byd rhwng y ddau. Gallem gyflwyno pwyslais clir ar atal digartrefedd, a gweithredu'r ymrwymiad ym manifesto'r ddwy blaid sydd mewn grym i atal yr hawl i brynu am gyfnodau dros dro mewn ardaloedd sy'n wynebu pwysau difrifol o ran tai.

Nid oes dadl resymegol pam na ddylem wneud y pethau hyn. Mae'r newidiadau hyn yn rhai y mae tenantiaid, benthycwyr, darparwyr tai, awdurdodau lleol ac eraill wedi galw amdanynt. Mae'r sector tai yng Nghymru yn cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft, ac ni allwn deimlo'n hyderus o gwbl ar hyn o bryd y bydd yn llwyddo, er y byddwn yn parhau i

nothing else.

I hope that the new administration at Westminster will pass the draft housing Order as it stands and that it does so as a matter of urgency. I am glad that the Welsh Liberal Democrats have said that they will use their influence and will make every effort to ensure that it is passed. This Government would then be able to get on with introducing the legislation that social tenants and vulnerable people in Wales want and need. At the very least, I call on the UK Government to enable us to get on with the referendum that would bring these powers anyway, and more.

ymdrechu—oherwydd yr wyf fi'n un sy'n ymdrechu, os nad dim byd arall.

Gobeithio y bydd y weinyddiaeth newydd yn San Steffan yn pasio'r Gorchymyn drafft ynghylch tai fel y mae, ac yn gwneud hynny ar frys. Yr wyf yn falch fod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dweud y byddant yn defnyddio'u dylanwad ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y caiff ei basio. Yna, byddai'n bosibl i'r Llywodraeth hon allu symud ymlaen i gyflwyno'r ddeddfwriaeth y mae ei hangen a'i heisiau ar denantiaid cymdeithasol a phobl agored i niwed yng Nghymru. Galwaf ar Lywodraeth y DU o leiaf i'n galluogi i gynnal y refferendwm a fyddai'n trosglwyddo'r pwerau hyn beth bynnag, a mwy.

Dadl Fer Short Debate

Yr Angen am Newid Cyfansoddiadol The Need for Constitutional Reform

Peter Black: I have to start this speech with a confession: when I chose the title for this short debate, I had not expected us to be where we are in the UK Government. At the time, it looked as though the Liberal Democrats might come second in the popular vote and yet lie a long way behind in third place with the number of seats. It was not clear whether there would be a majority Conservative Government and, if there was, it looked likely that there would still be a long, hard slog to get some justice and fairness into the British electoral system.

Peter Black: Rhaid imi ddechrau'r araith hon gyda chyfaddefiad: pan ddewisais y teitl ar gyfer y ddadl fer hon, nid oeddwn wedi disgwyl inni fod lle'r ydym yn Llywodraeth y DU. Ar y pryd, yr oedd yn ymddangos y gallai'r Democratiaid Rhyddfrydol fod yn ail yn y bleidlais boblogaidd ond ymhell ar ei hôl hi yn y trydydd safle o ran nifer y seddau. Nid oedd yn glir a fyddai gennym Lywodraeth Geidwadol fwyafrifol, a phe bai gennym Lywodraeth o'r fath, yr oedd yn edrych yn debyg y byddai angen ymdrech hir a chaled o hyd i gael rhywfaint o gyfiawnder a thegwch yn system etholiadol Prydain.

5.10 p.m.

We have come a long way since 1997 in reforming our constitution, but the job remains seriously unfinished. We have a National Assembly without the law-making powers that it needs to make a real difference. Despite that, we have a commitment to an early referendum on putting that right and, of course, our existence may still remain a buffer against any changes brought about by a new Government.

Yr ydym wedi dod ymhell er 1997 o ran diwygio'n cyfansoddiad, ond mae'r gwaith ymhell o fod wedi'i orffen. Mae gennym Gynulliad Cenedlaethol heb y pwerau deddfu y mae arno'u hangen i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Er hynny, mae gennym ymrwymiad i gynnal refferendwm cynnar ar unioni hynny ac, wrth gwrs, gallai ein bodolaeth fod yn glustog o hyd yn erbyn unrhyw newidiadau a gyflwynir gan Lywodraeth newydd.

However, there remains a serious Fodd bynnag, mae camddealltwriaeth

misunderstanding of how our asymmetric devolution works. English politicians still talk about limiting the ability of Welsh and Scottish MPs to vote on English matters without understanding the interdependence of the UK state, even with devolved Parliaments and Assemblies.

For example, the power over tuition fees is fully devolved to the Assembly, but because roughly half the students in Welsh higher education institutions come from across the border, and because many Welsh students attend English universities, we cannot divorce ourselves from the decisions taken by the UK Parliament on the issue. Thus, if the maximum fee for English students is raised, it will have an impact on Welsh students, and yet it is portrayed as an English-only issue that the Welsh and Scots should have no say over. It seems that instead of addressing the fundamental issue, those who feel disempowered by devolution in England are seeking a workaround, when they should be considering a more fundamental change that gives them all the rights and privileges that we enjoy in Wales.

The deal that has been agreed at Westminster contains a commitment to holding a referendum on the alternative vote system. That is the bare minimum of reform that we could ask for. AV is not a proportional system any more than the d'Hondt system is, which we use to elect Members to the Assembly. It may produce a slightly fairer outcome, but then again it may not. However, the need for reform is overwhelming. In last Thursday's general election, 6.4 million people voted for the Liberal Democrats, which is nearly 23 per cent of those who voted, and yet we secured only 57 MPs. That means that it took 125,000 voters to elect one Liberal Democrat MP. In contrast, it took 33,350 voters to elect a Labour MP and 34,989 votes to secure a Conservative MP. That sort of disparity will not easily be overcome by the alternative vote system or by equalising constituencies. This is not about the size of constituencies; it is about

ddifrifol o hyd am y ffordd y mae ein trefn ddatganoli anghymesur yn gweithio. Mae gwleidyddion Lloegr yn dal i sôn am gyfyngu g allu Aelodau Seneddol o Gymru a'r Alban i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â Lloegr, heb ddeall y rhyngddibyniaeth sy'n bodoli yng ngwladwriaeth y DU, hyd yn oed gyda'r Seneddau a'r Cynulliadau datganoledig.

Er enghraifft, mae'r pŵer dros ffioedd dysgu wedi'i ddatganoli'n llwyr i'r Cynulliad, ond oherwydd bod tua hanner y myfyrwyr yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn dod o Loegr, ac oherwydd bod cynifer o fyfyrwyr o Gymru'n mynychu prifysgolion yn Lloegr, ni allwn ddatgysylltu ein hunain oddi wrth y penderfyniadau a wneir yn Senedd y DU ar y mater. Felly, os caiff y ffi uchaf ar gyfer myfyrwyr o Loegr ei chodi, bydd yn cael effaith ar fyfyrwyr o Gymru, ac eto caiff hyn ei bortreadu fel mater ar gyfer Lloegr yn unig ac yn fater na ddylai'r Cymry na'r Albanwyr gael lleisio'u barn arno o gwbl. Yn hytrach na mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol, ymddengys fod y bobl hynny yn Lloegr sy'n teimlo bod ganddynt lai o rym oherwydd datganoli yn ceisio dod o hyd i ffordd o amgylch y broblem, pan ddylent fod yn ystyried newid mwy sylfaenol sy'n rhoi iddynt yr holl hawliau a'r breintiau sydd gennym yng Nghymru.

Mae'r cytundeb a gafwyd yn San Steffan yn cynnwys ymrwymiad i gynnal refferendwm ar y system ailbleidlais. Dyna'r newid lleiaf y gallem ofyn amdano. Nid yw'r system ailbleidlais yn ddim mwy o system gyfrannol nag yw'r system d'Hondt, a ddefnyddiwn i ethol Aelodau i'r Cynulliad. Gall roi canlyniad ychydig yn decach, ond efallai na fydd yn gwneud hynny ychwaith. Fodd bynnag, mae'r angen i ddiwygio yn aruthrol. Yn yr etholiad cyffredinol ddydd Iau diwethaf, pleidleisiodd 6.4 miliwn o bobl dros y Democratiaid Rhyddfrydol, sydd bron yn 23 y cant o'r bobl a bleidleisiodd, ond eto dim ond 57 o Aelodau Seneddol a gawsom. Mae hynny'n golygu ei bod wedi cymryd 125,000 o bleidleiswyr i ethol un Aelod Seneddol o Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol. I'r gwrthwyneb, cymerodd 33,350 o bleidleiswyr i ethol Aelod Seneddol Llafur a 34,989 o bleidleisiau i sicrhau Aelod Seneddol Ceidwadol. Ni fydd yn hawdd

the fairness of the system.

Another good example of how bizarre this system is was evidenced in Oxford where, across the two parliamentary seats, the Liberal Democrats won 41,087 votes, the Conservatives won 33,633 votes and Labour, 27,937 votes. The result was one Labour MP and one Conservative MP. *[Interruption.]* Thank you, Carl. Under the single transferable vote system, these sorts of discrepancies could be avoided. That is not what is in the coalition document, although I consider AV to be a stepping stone, and a move in the right direction.

Over the past few days, I have been astonished by the comments of many mainstream figures that the coalition talks that were taking place in London were a good reason not to go down this route. In comparison with what happened in Wales in 2007, I thought that the discussions that led to the creation of this new Government were well conducted, sensible and a credit to all parties. If anything, it was a good advertisement for how coalition Governments can produce a sensible programme in which the extremes of the various parties are moderated while stability is delivered.

A fair voting system does not have to lead to a coalition Government, but those who say that such alliances are bad for economic stability may be surprised to learn of this interesting fact. Of the 16 countries that have AAA rating, 10 have balanced parliaments and 12 use a system of proportional representation. My view is that it is good to see politicians of different parties working together for the national good. I think that the public likes to see that happen as well. That is not to say that it always works out for the best; it does not. However, majority Governments for one party, which are coalitions of a sort anyway, do not always work out for the best either. Our problem here is to overcome the ingrained visceral

goresgyn anghyfartaledd o'r fath gyda'r system ailbleidlais na thrwy wneud etholaethau yn gyfartal. Nid oes a wnelo hyn â maint etholaethau, ond â thegwch y system.

Gwelwyd enghraifft dda arall sy'n dangos pa mor rhyfedd yw'r system hon yn Rhydychen. Ar draws y ddwy sedd seneddol yno llwyddodd y Democratiaid Rhyddfrydol i ennill 41,087 o bleidleisiau, enillodd y Ceidwadwyr 33,633 o bleidleisiau a Llafur 27,937 o bleidleisiau. Y canlyniad oedd un Aelod Seneddol Llafur ac un Aelod Seneddol Ceidwadol. *[Torri ar draws.]* Diolch ichi, Carl. Dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy, byddai'n bosibl osgoi anghysondebau fel y rhain. Nid dyna sydd yn nogfen y glymblaid, er fy mod yn ystyried bod system ailbleidlais yn gam ymlaen, i'r cyfeiriad cywir.

Dros yr ychydig ddyddiau diwethaf, yr wyf wedi fy syfrdanu gan sylwadau nifer o bobl o'r brif ffrwd a oedd yn awgrymu bod y trafodaethau clymbleidiol a oedd yn cael eu cynnal yn Llundain yn rheswm da dros beidio â mynd ar hyd y llwybr hwn. O'u cymharu â'r hyn a ddigwyddodd yng Nghymru yn 2007, yr oeddwn yn credu bod y trafodaethau a arweiniodd at greu'r Llywodraeth newydd hon wedi'u cynnal yn dda ac yn synhwyrol a'u bod yn glod i'r holl bleidiau. Os rhywbeth, yr oedd yn hysbyseb dda i ddangos sut y gall Llywodraethau clymbleidiol greu rhaglen synhwyrol lle caiff eithafion y pleidiau amrywiol eu cymedroli a lle caiff sefydlogrwydd ei gyflwyno.

Nid oes yn rhaid i system bleidleisio deg arwain at Lywodraeth glymbleidiol, ond efallai y bydd y bobl hynny sy'n dweud bod cynghreiriau o'r fath yn ddrwg i sefydlogrwydd economaidd yn synnu o glywed y ffaith ddi-ddorol hon. O'r 16 o wledydd sydd â gradd AAA, mae gan 10 ohonynt seneddau cytbwys ac mae 12 ohonynt yn defnyddio system cynrychiolaeth gyfrannol. Yn fy marn i, mae'n dda gweld gwleidyddion o wahanol bleidiau'n cydweithio er lles y genedl. Credaf fod y cyhoedd hefyd yn hoffi gweld hynny'n digwydd. Ond nid yw hynny'n golygu bod trefn o'r fath bob amser yn gweithio er lles; nid yw hynny'n wir. Fodd bynnag, nid yw Llywodraethau mwyafrifol o un blaid, sy'n

hatred that we have all grown up with and deliver on an agenda of mutual co-operation for the national good. We have seen today that that will not be easy, and the new coalition Government will find that it is not easy either.

Electoral reform is not the only aspect of constitutional change that I want to talk about. Fixed-term Parliaments can also bring stability and prevent Prime Ministers from manipulating the electoral cycle for narrow party interests, as has happened so often in the past. That is in the coalition agreement at Westminster as well. However, I am not so sure about having that term fixed at five years, as has been proposed, I would have thought that four would be better, but no doubt we will have that debate at a later time. That reform is the last great demand of the Chartists, although they wanted annual elections, which is not a viable proposition—I do not think that I could go through that every year.

I have already mentioned the need for further devolution of power in England, a matter that is an issue for the English, not for us. I am not fussed as to whether they have regional Assemblies or an English Parliament, although it is fair to say that I would prefer them to go down that route than shackle the ability of Welsh and Scottish MPs to vote on certain matters. It is also taken for granted that we must have the full law-making powers that we need on the 20 devolved matters in the Government of Wales Act 2006, and that we need to go further than that in the long term, short of independence, but giving the Welsh Assembly powers over justice, for example, as well as the ability to vary income tax.

That leaves the House of Lords. I have often wondered whether we will need a revising chamber for this place once we have full law-making powers, or even whether a properly elected, regionally based House of Lords could do that job. I do not think that I will go

glymbleidiau o ryw fath beth bynnag, bob amser yn gweithio er y gorau ychwaith. Ein problem yma yw goresgyn y casineb greddfoll cynhenid y cawsom ein magu ag ef a chyflawni ar agenda o gydweithio â'n gilydd er lles y genedl. Gwelsom heddiw na fydd hynny'n hawdd, a bydd y Llywodraeth glymbleidiol newydd yn gweld nad yw'n hawdd ychwaith.

Nid diwygio'r drefn bleidleisio yw'r unig agwedd ar newid cyfansoddiadol yr wyf am ei thrafod. Gall Seneddau tymor penodol gynnig sefydlogrwydd hefyd ac atal Prif Weinidogion rhag dylanwadu ar y cylch etholiadol er lles buddiannau pleidiol cul, fel sydd wedi digwydd mor aml yn y gorffennol. Mae hynny yng nghytundeb y glymblaid yn San Steffan hefyd. Fodd bynnag, nid wyf mor sicr ynglŷn â chael tymor penodol o bum mlynedd, fel sydd wedi'i gynnig, byddai pedair wedi bod yn well yn fy marn i, ond mae'n siŵr y cawn ddadl ar hynny yn y dyfodol. Y diwygiad hwn yw cais mawr olaf y Siartwyr, er eu bod hwy am gael etholiadau bob blwyddyn, ac nid yw hynny'n gynnig ymarferol—ni chredaf y gallwn wynebu hynny bob blwyddyn.

Yr wyf eisoes wedi sôn am yr angen i ddatganoli pwerau pellach yn Lloegr, mater sy'n broblem i'r Saeson, nid i ni. Nid oes gwahaniaeth gennyf p'un a gânt Gynulliadau rhanbarthol ynteu Senedd i Loegr, er ei bod yn deg dweud y byddai'n well gennyf eu gweld yn dilyn y llwybr hwnnw yn hytrach na chyfyngu gallu Aelodau Seneddol Cymru a'r Alban i bleidleisio ar rai materion. Cymerir yn ganiataol hefyd ei bod yn rhaid inni gael y pwerau deddfu llawn y mae arnom eu hangen ar yr 20 mater sydd wedi'u datganoli yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a bod angen inni fynd ymhellach na hynny yn y tymor hwy, ond heb gael annibyniaeth, gan roi pwerau dros gyfiawnder i'r Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft, yn ogystal â'r gallu i amrywio treth incwm.

Mae hynny'n gadael Tŷ'r Arglwyddi. Yr wyf wedi dyfalu'n aml a fydd angen siambr ddiwygio ar gyfer y lle hwn ar ôl inni gael pwerau deddfu llawn, neu hyd yn oed a fyddai Tŷ'r Arglwyddi rhanbarthol, wedi'i ethol yn briodol, yn gallu gwneud y gwaith

there as, so far, I have not come to any conclusions except that, on balance, it seems unnecessary. However, we have moved from a hereditary second chamber to a Government-appointed quango; that cannot be good for democracy. Given the lack of time available in the House of Commons to scrutinise Government Bills, a second chamber charged with the job of revision and scrutiny is essential. However, that chamber should be elected, representative and proportional. There are many models on which to base it. It is just a question of getting on with it and I hope that that is what the new Government will do. All the indications that I have seen make me hopeful in that regard.

In conclusion, Presiding Officer, the last 13 years have seen many changes, much of them welcome. However, there is still a lot left undone, which is why sudden, last-minute promises on the eve of an election were greeted so cynically by the British public and the political establishment. The Liberal Democrats are now in a position to move this agenda on and we will do that, but we do not have a majority and what we want will be moderated by what is possible. Nevertheless, progress is important to maintain momentum and that, it seems, is what we will get, which I very much welcome.

The First Minister (Carwyn Jones): I thank Peter for his address to us this afternoon. I suspected that matters had moved on since he chose the topic of this debate. We are certainly more aware now of the proposals for constitutional reform on the part of the new Tory/Lib Dem coalition. We will have to wait to see what happens. I think that your party has to be careful that it is not being used. For example, if there were to be a referendum on the additional vote in which the proposal was rejected, you would have to ask yourselves what you had achieved. However, we will leave the politics for another day.

hwnnw. Ni chredaf fy mod am fynd ymhellach gyda hyn, oherwydd hyd yma nid wyf wedi dod i unrhyw gasgliadau, heblaw, at ei gilydd, ei bod yn ymddangos nad oes angen hynny. Fodd bynnag, yr ydym wedi symud o ail siambr etifeddol i gwango wedi'i benodi gan y Llywodraeth; ac ni all hynny fod yn dda i ddemocratiaeth. O gofio nad oes digon o amser ar gael yn Nhŷ'r Cyffredin i graffu ar Fesurau'r Llywodraeth, mae ail siambr sy'n gyfrifol am ddiwygio a chraffu yn hollbwysig. Fodd bynnag, dylai'r siambr honno gael ei hethol, a dylai fod yn gynrychioliadol ac yn gyfrannol. Mae yna nifer o fodelau y gellid ei seilio arnynt. Mater ydyw o fwrw ymlaen â'r gwaith, a gobeithio y bydd y Llywodraeth newydd yn gwneud hynny. Mae'r holl arwyddion yr wyf wedi'u gweld yn fy ngwneud yn obeithiol am hynny.

I gloi, Lywydd, gwelsom nifer o newidiadau yn y 13 blynedd diwethaf, lawer ohonynt yn rhai i'w croesawu. Fodd bynnag, mae llawer heb ei gyflawni o hyd, a dyna pam y cafwyd ymateb mor sinigaidd gan y cyhoedd ym Mhrydain a'r sefydliad gwleidyddol i'r addewidion sydyn, munud olaf y noson cyn yr etholiad. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn awr mewn sefyllfa i ddatblygu'r agenda hon a byddwn yn gwneud hynny, ond nid oes gennym fwyafrif, a chaiff yr hyn yr ydym am ei gyflawni ei dymheru gan yr hyn sy'n bosibl. Er hynny, mae cynnydd yn bwysig er mwyn cynnal momentwm, ac ymddengys mai dyna a gawn, ac yr wyf yn croesawu hynny'n fawr iawn.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Hoffwn ddiolch i Peter am ei anerchiad inni y prynhawn yma. Yr oeddwn yn amau bod pethau wedi datblygu ers iddo ddewis pwnc y ddadl hon. Yr ydym yn sicr yn fwy ymwybodol yn awr o'r cynigion ar gyfer newid cyfansoddiadol o du'r glymblaid newydd rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd yn rhaid inni aros i weld beth fydd yn digwydd. Credaf ei bod yn rhaid i'ch plaid fod yn ofalus na chaiff ei defnyddio. Er enghraifft, pe bai refferendwm ar y system ailbleidlais a'r cynnig yn cael ei wrthod, byddai'n rhaid ichi ofyn ichi eich hunain beth a gyflawnwyd gennych. Fodd bynnag, gadawn y dadleuon gwleidyddol tan rywbryd eto.

To deal with some of the points that you have raised, there is no doubt in my mind that the pressing business for us, as an institution, and as a Government, is to set a date for the referendum on further powers. We will urge the incoming Secretary of State to take that forward as a matter of urgency. The preparatory work has been done; it is now a question of ensuring that the Order is laid before Parliament in good time so that the Electoral Commission can go through the 10-week period of road testing the question that will be asked. I suspect that phrasing the question will be the toughest part of the process. As I have said many times, we want to keep all options open on the referendum, including the timing of this October.

I will never agree with you on the single transferable vote, Peter. My view is that we should have a link to a constituency. However, a case can be made for the AV system, because it retains that link. In terms of where we stand, the note of caution that I would strike is that, if there were to be an AV referendum that only affected UK general elections, where would that leave Wales and Scotland? We would then have a split system—it would not affect Northern Ireland—because we would still have a first-past-the-post element. Consideration would have to be given to a more holistic view of how elections are conducted in this country, not just looking at UK general elections.

5.20 p.m.

Another note of caution that I would strike is over the reduction in the number of MPs. We know that present legislation links the number of Assembly Members to the number of Welsh MPs. If we ended up in a situation where that link was not broken, as it has been in Scotland, while it never existed in Northern Ireland, we could end up with fewer than 50 Members in this Chamber. I do not think that we could possibly carry out the work that would be required of us if we had that number of Members; it would mean that we would have substantially fewer members than many county councils in Wales, and approximately half the number of members of Cornwall Council. That would not be

I ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd gennych, nid oes amheuaeth gennyf nad y materion pwysig i ni, fel sefydliad, ac fel Llywodraeth, yw pennu dyddiad ar gyfer y refferendwm ar bwerau ychwanegol. Byddwn yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol newydd i fynd i'r afael â hyn ar frys. Mae'r gwaith paratoi wedi'i wneud; mater ydyw bellach o sicrhau bod y Gorchymyn yn cael ei gyflwyno i'r Senedd mewn da bryd er mwyn i'r Comisiwn Etholiadol allu mynd drwy'r cyfnod 10 wythnos o brofi'r cwestiwn a gaiff ei ofyn. Yr wyf yn amau mai geirio'r cwestiwn fydd y rhan anoddaf yn y broses. Fel y dywedais droeon, yr ydym am gadw pob dewis ar y refferendwm yn agored, gan gynnwys posibilrwydd ei gynnal ym mis Hydref eleni.

Ni fyddaf byth yn cytuno â chi ar y bleidlais sengl drosglwyddadwy, Peter. Credaf y dylem gael cyswllt ag etholaeth. Fodd bynnag, gellir cyflwyno dadl dros y system ailbleidlais, oherwydd mae'n cadw'r cyswllt hwnnw. O ran ein safbwynt ni, y rhybudd yr hoffwn ei roi yw, pe bai refferendwm ar system ailbleidlais a fyddai'n effeithio ar etholiadau cyffredinol y DU yn unig, beth fyddai hynny'n ei olygu i Gymru a'r Alban? Byddai gennym system ranedig wedyn—ni fyddai'n effeithio ar Ogledd Iwerddon—oherwydd byddai gennym elfen y cyntaf i'r felin o hyd. Byddai'n rhaid edrych yn fwy cyfannol ar y modd yr ydym yn cynnal etholiadau yn y wlad hon, gan edrych ar fwy nag etholiadau cyffredinol y DU yn unig.

Byddwn yn rhoi rhybudd arall yn gysylltiedig â lleihau nifer yr Aelodau Seneddol. Gwyddom fod y ddeddfwriaeth bresennol yn cysylltu nifer Aelodau Cynulliad â nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru. Pe baem mewn sefyllfa lle nad oedd y cyswllt hwnnw'n cael ei dorri, fel sydd wedi digwydd yn yr Alban, er nad yw erioed wedi bodoli yng Ngogledd Iwerddon, gallem gyrraedd man lle byddai gennym lai na 50 Aelod yn y Siambr hon. Ni chredaf y byddai'n bosibl inni wneud y gwaith a fyddai'n ofynnol ohonom pe bai gennym y nifer hwnnw o Aelodau; byddai'n golygu bod gennym gryn lawer yn llai o aelodau na nifer o gynghorau sir yng Nghymru, a thua hanner

appropriate. Sixty is the minimum number of members that we can manage with here if we are to scrutinise legislation—and legislative competence Orders, for the time being—properly. It is exceptionally important that, as the debate is taken forward by the new coalition in Westminster, the issue of how the number of Assembly Members affects Wales is realised.

Peter, you mentioned the West Lothian question—to which there is probably no answer. You expressed your view that it is not an important question, but you will be aware that there is a commitment in the coalition agreement to a commission dealing with the West Lothian question; we will have to wait to see what happens there. You are right to point out that it is not easy to tease out what is an English issue from what is an issue for England and Wales or what is an issue for Great Britain. There are many issues that appear to affect only one part of the UK, but which have a greater effect. We know about the debates that have taken place in the Chamber on Olympic spending, which seems to affect only London, but, as we know, has the potential to affect the whole of the UK. It is, therefore, very difficult to resolve the West Lothian question, short of having a fully federal system within the UK. However, I strike a note of caution that resolving that question is something that the coalition intends to do, perhaps to the disbenefit of Welsh MPs and Scottish MPs.

On fixed-term parliaments, I do not think that it is appropriate for an incoming Government to fix its own term. It is proposed that the next election will be fixed for May 2015. If one is to fix the term, it should be for the election after next, not this one, because one risks being seen as trying to fix the length of this Government, which might be seen by the public as an affront to democracy. I share your view that five-year terms are not necessarily that important; we operate on a four-year term, as do the Scots, the Northern Irish and many legislatures around the world. In the US, the Senate has a six-year term, while the House of Representatives has a two-year term; I would not recommend that, any more than I would recommend annual

nifer yr aelodau ar Gyngor Cernyw. Ni fyddai hynny'n briodol. Trigain yw'r nifer lleiaf o aelodau y gallwn ei dderbyn yma os ydym am graffu ar ddeddfwriaeth—a Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, am y tro—mewn ffordd briodol. Wrth i'r ddadl gael ei datblygu gan y glymblaid newydd yn San Steffan, mae'n hanfodol sylweddoli sut y bydd nifer yr Aelodau Cynulliad yn effeithio ar Gymru.

Peter, yr oeddech yn sôn am gwestiwn Gorllewin Lothian—ac mae'n debyg nad oes ateb i'r cwestiwn hwnnw. Dywedasoich nad yw'n gwestiwn pwysig yn eich barn chi, ond gwyddoch fod ymrwymiad yng nghytundeb y glymblaid i gomisiwn sy'n ymdrin â chwestiwn Gorllewin Lothian; bydd yn rhaid inni aros i weld beth a ddigwydd gyda hynny. Yr ydych yn iawn i ddweud nad yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n fater i Loegr a'r hyn sy'n fater i Gymru a Lloegr neu'r hyn sy'n fater i Brydain Fawr. Mae yna nifer o faterion sy'n ymddangos yn effeithio ar un rhan o'r DU yn unig, ond sy'n cael effaith ehangach. Gwyddom am y dadleuon a fu yn y Siambr ar y gwariant ar y Gemau Olympaidd. Mae'n ymddangos ei fod yn effeithio ar Lundain yn unig ond a allai, fel y gwyddom, effeithio ar y DU gyfan. Felly, mae'n anodd iawn datrys cwestiwn Gorllewin Lothian heb gael system ffederal gyflawn yn y DU. Fodd bynnag, hoffwn roi gair o rybudd, sef bod datrys y cwestiwn hwnnw'n rhywbeth y mae'r glymblaid yn bwriadu'i wneud, er anfantais i Aelodau Seneddol Cymru a'r Alban efallai.

O ran seneddau tymor penodol, ni chredaf ei bod yn briodol i Lywodraeth newydd bennu ei thymor ei hun. Cynigir y bydd yr etholiad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2015. Os oes bwriad i bennu tymor penodol, yna dylid gwneud hynny ar gyfer yr etholiad yn dilyn yr un nesaf, ac nid yr un nesaf, oherwydd ceir perygl y bydd pobl yn ystyried hyn yn ymgais i bennu hyd tymor y Llywodraeth hon, a gallai'r cyhoedd ystyried hyn yn sarhad ar ddemocratiaeth. Yr wyf o'r un farn â chi nad yw tymhorau pum mlynedd mor bwysig â hynny o reidrwydd; yr ydym yn gweithredu ar dymor pedair blynedd, yn yr un modd â'r Albanwyr a phobl Gogledd Iwerddon a nifer o ddeddfwrfeydd ar draws y byd. Yn yr Unol Daleithiau, mae gan y

elections, for reasons that you will understand. However, I do not know where the idea of a five-year term has come from, and it is a radical change without a referendum or another general election to ratify it.

The other point to make is that, if another general election is held in May 2015, it clashes with our election. That is a mistake; it would mean that the Scottish elections, the National Assembly elections and the UK general election would all take place on the same day, with three ballot papers for people in Wales. As we mature as a democracy, it is absolutely essential that the people of Wales have an opportunity to vote on which Government they want here, unfettered by any debates about what might be happening elsewhere in the UK. Having an UK general election on the same day as an election for the National Assembly would, in my view, mean that the situation would arise where Welsh and Scottish issues were submerged by the issues of a UK general election. This institution has fought for its existence from the time that it was set up in 1999. It has, in my view, achieved a status as a respected institution in the eyes of the people of Wales, and is one that people want to keep. The people of Wales deserve to be able to vote for the Government that emerges from this institution, and not to have that election bound up with another.

On the issue of the House of Lords, I share your enthusiasm for an elected second chamber. If there is an elected second chamber, it is important that it is made absolutely clear which is the primary chamber. At the moment, because the House of Commons is an elected chamber, it has a greater moral authority than the House of Lords. Clear boundaries would have to be set for both chambers, because one of them has to be the main chamber, and the other has to be the revising chamber. I would not share your enthusiasm for the House of Lords becoming the *de facto* second chamber, or the revising chamber, for this place. We manage

Senedd dymor o chwe blynedd, ac mae gan Dŷ'r Cynrychiolwyr dymor o ddwy flynedd; ni fyddwn yn argymhell hynny, ac ni fyddwn yn argymhell cael etholiadau bob blwyddyn ychwaith, am resymau y byddwch yn eu deall. Fodd bynnag, ni wn o ble y daeth y syniad o dymor pum mlynedd, ac mae'n newid sylfaenol heb refferendwm neu etholiad cyffredinol arall i'w gadarnhau.

Y pwynt arall i'w wneud yw hyn: os bydd etholiad cyffredinol arall ym mis Mai 2015, bydd yn cyd-daro â'n hetholiad ni. Mae hynny'n gamgymeriad; byddai'n golygu y byddai etholiadau'r Alban, etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac etholiad cyffredinol y DU yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod, a thri phapur pleidleisio i bobl yng Nghymru. Wrth inni aeddfedu fel democratiaeth, mae'n gwbl hanfodol i bobl Cymru gael cyfle i bleidleisio ar ba Lywodraeth y maent yn dymuno'i chael yma, heb gael eu llesteirio gan unrhyw ddadleuon am yr hyn a allai fod yn digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Yn fy marn i, byddai cynnal etholiad cyffredinol y DU ar yr un diwrnod ag etholiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu y byddai sefyllfa'n codi lle byddai materion Cymru a'r Alban yn cael eu boddi gan faterion etholiad cyffredinol y DU. Mae'r sefydliad hwn wedi brwydro dros ei fodolaeth ers ei sefydlu yn 1999. Yn fy marn i, mae wedi ennill statws fel sefydliad uchel ei barch ymhlith pobl Cymru, ac mae'n sefydliad y mae pobl am ei gadw. Mae pobl Cymru'n haeddu gallu pleidleisio dros y Llywodraeth sy'n deillio o'r sefydliad hwn, heb fod yr etholiad hwnnw ynghlwm wrth etholiad arall.

O ran Tŷ'r Arglwyddi, yr wyf fi, fel chithau yn frwdfrydig dros gael ail siambr etholedig. Os bydd ail siambr etholedig, mae'n bwysig gwneud yn hollol glir pa un yw'r brif siambr. Ar hyn o bryd, oherwydd bod Tŷ'r Cyffredin yn siambr etholedig, mae ganddi fwy o awdurdod moesol na Thŷ'r Arglwyddi. Byddai angen sefydlu ffiniau clir ar gyfer y ddwy siambr, oherwydd rhaid i un fod yn brif siambr, a rhaid i'r llall fod yn siambr ddiwygio. Ni fyddwn mor frwdfrydig â chi ynghylch gweld Tŷ'r Arglwyddi yn dod yn ail siambr *de facto*, neu'n siambr ddiwygio, ar gyfer y lle hwn. Yr ydym yn llwyddo i greu cyfraith dda yma fel sefydliad un

to produce good law here as a unicameral institution, and we do not have to be a bicameral institution; the same is true of Scotland and Northern Ireland.

siambr, ac nid oes raid inni fod yn sefydliad dwy siambr; mae'r un peth yn wir am yr Alban a Gogledd Iwerddon.

It is fair to say that there will be many debates over the next few weeks over the wisdom of some of the constitutional change that is proposed as a result of the new Westminster coalition agreement, but it is important at this stage to flag up the effect that some of the changes would have on the National Assembly for Wales—not so much the Assembly Government—and to ensure that any changes do not adversely affect us in terms of election timing, numbers of Assembly Members and the way in which Members are elected here. We enter interesting times, and I am sure that, as time goes on, the full details of the proposed constitutional reforms will become clearer, and I am sure that we will have the opportunity to debate further these changes and what they mean for Wales.

Mae'n deg dweud y byddr nifer o ddadleuon yn yr wythnosau nesaf ynglŷn â doethineb rhai o'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n cael eu cynnig o ganlyniad i gytundeb clymblaid newydd San Steffan. Ond ar hyn o bryd mae'n bwysig tynnu sylw at yr effaith y byddai rhai o'r newidiadau'n ei chael ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru—nid yn gymaint i Lywodraeth y Cynulliad—a sicrhau na fydd unrhyw newidiadau'n cael effaith andwyol arnom o ran amseriad etholiadau, nifer Aelodau Cynulliad a'r ffordd y caiff Aelodau eu hethol yma. Yr ydym yn wynebu cyfnod diddorol, ac yr wyf yn siŵr, gydag amser, y daw manylion llawn y newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yn gliriach. Yr wyf yn siŵr y cawn gyfle am drafodaeth bellach am y newidiadau hyn a'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru.

Y Llywydd: Diolch i'r Prif Weinidog am ei ymateb i ddatl fer hynod o amserol. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

The Presiding Officer: I thank the First Minister for his reply to an extremely topical short debate. That concludes our discussions for today.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 p.m.
The meeting ended at 5.25 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)

Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)